HM Government



# FRAUD STRATEGY: STOPPING SCAMS AND PROTECTING THE PUBLIC

**Mai 2023**

CP 839

# **Strategaeth Dwyll:** Atal Sgamiau a Diogelu'r Cyhoedd

Cyflwynwyd i'r Senedd
gan Ysgrifennydd Gwladol yr Adran Gartref
drwy Orchymyn Ei Fawrhydi

Mai 2023

CP 839

**© Hawlfraint y Goron 2023**

Trwyddedir y cyhoeddiad hwn o dan delerau Trwydded Llywodraeth Agored f3.0 oni nodir fel arall. I weld y drwydded hon, ewch i nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3

Lle rydym wedi nodi unrhyw wybodaeth am hawlfraint trydydd parti, bydd angen i chi gael caniatâd deiliaid yr hawlfraint dan sylw.

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael yn www.gov.uk/official-documents

Dylid anfon unrhyw ymholiadau am y cyhoeddiad hwn atom yn public.enquires@homeoffice.gov.uk

ISBN 978-1-5286-4086-2

E02904361 05/23

Argraffwyd ar bapur sy'n cynnwys o leiaf 75% o ddeunydd ffeibr wedi'i ailgylchu

Argraffwyd yn y DU gan HH Global ar ran Rheolwr Llyfrfa Ei Fawrhydi

# Cynnwys


**Rhagair** 1

**Crynodeb gweithredol** 4

**Y niwed y mae twyll yn ei achosi** 8

**Piler 1: Mynd ar ôl twyllwyr** 16

**Piler 2: Rhwystro twyll** 30

**Piler 3: Grymuso pobl** 43

**Gwella galluoedd rhyngwladol a domestig allweddol** 51

**Cyflawni: sut y byddwn yn gwneud i hyn ddigwydd** 57

**Atodiadau** 61

Atodiad 1: Cysylltiadau â strategaethau eraill y Llywodraeth 61

Atodiad 2: Cwmpas daearyddol 64

Atodiad 3: Methodoleg cost twyll 66

**Rhestr termau** 74

# Rhagair



## Mae cyhoeddi'r strategaeth hon yn nodi newid sylfaenol yn ein dull o fynd i'r afael â thwyll. Mae twyll yn achosi niwed difrifol i'r economi, yn rhoi straen enfawr ar deuluoedd a busnesau, ac yn difetha bywydau pobl. Hefyd, mae twyll yn ariannu troseddau difrifol eraill. Ni fydd y Llywodraeth hon yn goddef yr hwrdd o negeseuon testun, galwadau ffôn, hysbysebion a negeseuon e-bost twyllodrus sy'n peri gofid i filiynau o bobl ac yn cyfrif am fwy na 40% o'r holl droseddau. Mae'r strategaeth hon yn nodi cynllun i atal twyll yn y man cychwyn a mynd ar ôl y rhai sy'n gyfrifol ble bynnag y maent yn y byd.

Yn anad dim, rhaid i ddioddefwyr wybod y bydd yr heddlu'n gwneud rhywbeth ynglŷn â'u troseddau. Mae twyll bellach yn cyfrif am fwy na 40% o droseddau ond caiff llai nag 1% o adnoddau'r heddlu eu clustnodi ar ei gyfer. Rwyf yn newid hyn drwy sefydlu Uned Dwyll Genedlaethol newydd a fydd yn canolbwyntio ar fynd ar ôl y twyllwyr mwyaf soffistigedig a niweidiol, gyda mwy na 400 o ymchwilwyr arbenigol newydd, a sicrhau y bydd mynd i'r afael â thwyll yn flaenoriaeth i heddluoedd yng Nghymru a Lloegr.


Hefyd, rwyf am i ddioddefwyr gael y cymorth sydd ei angen arnynt. Gan fod arian yn peri cymaint o bryder i gynifer o bobl, mae'n hollbwysig sicrhau bod dioddefwyr yn cael eu harian yn ôl yn gyflym. Cyn bo hir, bydd gennym y pwerau i wneud yn siŵr bod darparwyr gwasanaethau talu yn trin cwsmeriaid yn deg. Rydym yn disodli Action Fraud, sef y gwasanaeth rhoi gwybod am dwyll a seiberdroseddu, er mwyn ei gwneud yn haws i ddioddefwyr roi gwybod i'r heddlu am achosion o dwyll, sicrhau y gallant gael mwy o gymorth a gwybodaeth am eu hachos, a rhoi gwell gwybodaeth i heddluoedd er mwyn dal mwy o dwyllwyr.

Gall diwydiant wneud mwy i ddiogelu ei gwsmeriaid, ein dinasyddion a'n busnesau. Mae'r sector ariannol wedi gweithio gyda ni ers amser maith ar dwyll. Er fy mod yn croesawu ei ymdrechion parhaus, rwy'n ei herio i fynd ymhellach. Ond diwydiannau eraill, yn enwedig cewri technoleg ar-lein, a ddylai wneud mwy i atal troseddwyr rhag camddefnyddio eu gwasanaethau, ac ni ddylent byth elwa ar droseddau ar-lein. Byddwn yn cyhoeddi gwybodaeth am ba lwyfannau yw'r mwyaf diogel ac yn sicrhau y bydd cwmnïau'n cael eu cymell yn briodol i frwydro yn erbyn twyll, gan archwilio pob dull o wneud hyn. Hefyd, bydd y Bil Diogelwch Ar-lein yn sicrhau y caiff defnyddwyr y rhyngrwyd eu diogelu'n well rhag twyll ar-lein – ac rwy'n annog cwmnïau i ddechrau gweithredu nawr i baratoi ar gyfer y gyfundrefn newydd.

Nid dim ond yn y DU y mae twyll yn broblem. Drwy gydweithio â'n cynghreiriaid dramor, byddwn yn mynd ar ôl twyllwyr ym mhob rhan o'r byd. Byddaf yn cynnal uwchgynhadledd y flwyddyn nesaf i sefydlu partneriaeth ryngwladol newydd er mwyn atal twyll ble bynnag y bo modd. Er mwyn ysgogi ein hymateb ymhellach, mae Anthony Browne AS wedi cael ei benodi i rôl newydd Hyrwyddwr Gwrth-dwyll y Prif Weinidog.

Hoffwn ddiolch i'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus; Pwyllgor Dethol y Trysorlys; y Pwyllgor Dethol ar Gyfiawnder; Pwyllgor Tŷ'r Arglwyddi ar y Ddeddf Twyll a Thwyll Digidol; a'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol am eu hadroddiadau ystyriol, a oedd yn cynnwys argymhellion craff ac adeiladol sydd wedi helpu i lywio'r strategaeth hon.

Rhaid i'r Llywodraeth, asiantaethau gorfodi'r gyfraith a diwydiant ddod ynghyd nawr a gwneud popeth o fewn ein gallu i ddangos i dwyllwyr bod eu hamser ar ben ac y gallwn, gyda'n gilydd, drechu twyll.



**Y Gwir Anrh.**

**Suella Braverman AS**

Ysgrifennydd Cartref

# Crynodeb gweithredol

## Mae twyll yn fygythiad mawr i bobl, ffyniant a diogelwch y DU. Dyma'r math mwyaf cyffredin o drosedd o bell ffordd, ac mae bellach yn cyfrif am fwy na 40% o'r holl droseddau yng Nghymru a Lloegr.[1] Bydd y strategaeth hon yn mynd i'r afael â thwyllwyr yn uniongyrchol ac yn torri twyll 10%, gan ddiogelu'r arian y mae pobl Prydain yn gweithio'n galed amdano rhag troseddwyr a rhoi mwy o dwyllwyr yn y carchar.

1. Mae troseddwyr rheibus yn cymryd arian allan o bocedi pobl, busnesau a sefydliadau gweithgar – ac yn mynd ati'n ddidostur i dargedu'r bobl fwyaf agored i niwed, ar-lein ac yn eu cartrefi eu hunain. Ac mae twyllwyr yn mynd yn fwy cyfrwys – rydym yn gweld llawer mwy o ddioddefwyr y mae twyllwyr wedi defnyddio dulliau emosiynol o'u bwrw oddi ar eu gwyliadwriaeth. Mae maint a difrifoldeb y risg o dwyll yn bygwth ein diogelwch gwladol ac economaidd, gan alluogi terfysgaeth a throseddau cyfundrefnol, fel y cydnabuwyd gan Adolygiad Integredig y Llywodraeth o Ddiogelwch, Amddiffyn, Datblygu a Pholisi Tramor yn 2021. Mae'r Diweddariad o'r Adolygiad Integredig yn 2023 yn cydnabod pwysigrwydd y Strategaeth Dwyll er mwyn atal pobl rhag camddefnyddio systemau ariannol a rhyddid economaidd y DU ar gyfer troseddoldeb a llygredigaeth.

2. Mae'n hollbwysig ein bod yn gweithredu ar fyrder i gosbi'r troseddwyr didrugaredd sy'n cyflawni'r troseddau creulon hyn yn llym. Gellir gwagio cyfrifon banc mewn munudau a cholli cynilion oes – cofnodwyd bod dioddefwyr wedi colli £2.35 biliwn yn 2021.[2] Mae twyll hefyd yn achosi niwed emosiynol enfawr ac, mewn rhai achosion torcalonnus, mae'n arwain at hunanladdiad.

3. Mae'r strategaeth hon yn nodi sut y bydd y Llywodraeth, asiantaethau gorfodi'r gyfraith, rheoleiddwyr, diwydiant ac elusennau'n gweithio gyda'i gilydd i leihau achosion o dwyll 10% o gymharu â lefelau cyn COVID-19 yn

[1] Yn y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Rhagfyr 2022. Crime in England and Wales: Appendix tables – Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ons.gov.uk): Tabl A1.
[2] Biwro Cudd-wybodaeth Twyll Cenedlaethol (NFIB) – Annual Assessment: Fraud crime trends FY 2020-2021.

2019 erbyn diwedd y Senedd hon. Byddwn yn sicrhau bod diogelu pobl wrth wraidd ein hymateb.

4. Rydym eisoes wedi dechrau arni drwy ymrwymo £100 miliwn o arian newydd i gefnogi asiantaethau gorfodi'r gyfraith yn y frwydr yn erbyn twyll fel rhan o fuddsoddiad ehangach gwerth £400 miliwn mewn mynd i'r afael â throseddau economaidd.

5. Byddwn yn atal twyllwyr rhag ceisio gwneud dioddefwyr o bob un ohonom. Byddwn yn:
   - Gwahardd galwadau diwahoddiad am bob math o gynnyrch ariannol fel na all twyllwyr dwyllo pobl i brynu buddsoddiadau ffug.
   - Gwahardd ffermydd SIM a gaiff eu defnyddio gan droseddwyr i anfon miloedd o negeseuon testun twyllodrus ar unwaith.
   - Adolygu'r defnydd o gydgasglwyr negeseuon testun torfol ac archwilio'r camau nesaf i atal twyllwyr rhag gallu anfon negeseuon testun twyllodrus mewn swmp.
   - Atal mwy o alwadau twyllodrus drwy ei gwneud yn anos i dwyllwyr ‘ddynwared’ rhifau yn y DU er mwyn rhoi'r argraff eu bod yn ffonio o fusnesau dilys yn y DU.
   - Atal pobl rhag cuddio y tu ôl i gwmnïau ffug a chreu pwerau newydd er mwyn cau gwefannau twyllodrus.

6. Byddwn yn ei gwneud yn llawer haws rhoi gwybod am sgamiau. Byddwn yn:
   - Cyflwyno system newydd o'r radd flaenaf yn lle Action Fraud er mwyn i ddioddefwyr allu rhoi gwybod i'r heddlu am achosion o dwyll a seiberdroseddau.
   - Gweithio gyda diwydiant er mwyn sicrhau y caiff cudd-wybodaeth ei rhannu'n gyflym â'n gilydd ac ag asiantaethau gorfodi'r gyfraith ac y caiff camau eu cymryd yn gynnar er mwyn atal twyll.

7. Byddwn yn sicrhau y caiff dioddefwyr twyll eu had-dalu a'u cefnogi. Byddwn yn:
   - Newid y gyfraith fel y bydd mwy o ddioddefwyr twyll yn cael eu harian yn ôl.
   - Ailwampio a symleiddio dulliau cyfathrebu ynghylch twyll fel y bydd pobl yn gwybod sut i ddiogelu eu hunain rhag twyll a sut i roi gwybod amdano.

8. Byddwn yn gwella ymateb asiantaethau gorfodi'r gyfraith i dwyll. Byddwn yn:
   - Lansio Uned Dwyll Genedlaethol newydd a fydd yn cynnwys dros 400 o ymchwilwyr arbenigol newydd, a gwneud twyll yn flaenoriaeth i'r heddlu.
   - Rhoi Cymuned Gudd-wybodaeth y DU ar waith ac arwain partneriaeth fyd-eang newydd er mwyn mynd ar ôl twyllwyr yn ddiarbed, ble bynnag y bônt yn y byd.

- Rhoi mwy o dwyllwyr yn y carchar drwy roi prosesau ymchwilio ac erlyn gwell ar waith ar gyfer twyll a throseddau digidol.

9. Byddwn yn sicrhau y caiff pob rhan o'r system ei chymell i gymryd twyll o ddifrif. Byddwn yn:
    - Gorfodi'r sector technoleg i roi mesurau diogelu ychwanegol ar waith ar gyfer eu cwsmeriaid a chyflwyno cosbau llym drwy'r Bil Diogelwch Ar-lein i'r rhai na fyddant yn gwneud hynny.
    - Sicrhau y bydd cwmnïau technoleg mawr yn ei gwneud mor syml â phosibl i ddefnyddwyr roi gwybod am dwyll ar eu llwyfannau, a hynny o fewn ambell glic syml.
    - Taflu goleuni ar ba lwyfannau yw'r mwyaf diogel, gan sicrhau y bydd cwmnïau'n cael eu cymell yn briodol i frwydro yn erbyn twyll.

10. Byddwn yn mynd i'r afael â themâu trawsbynciol hefyd, gan gynnwys gweithio'n rhyngwladol, gwella trefniadau rhannu data o fewn y Llywodraeth a thu hwnt, a mynd i'r afael â phroblem mulod arian (math o wyngalchu arian a ddefnyddir gan dwyllwyr).

11. Dyma'r camau gweithredu allweddol yn y Strategaeth:

| | |
|---|---|
| **Pursue Fraudsters** | Establish a National Fraud Squad with over 400 new specialist investigators |
| | New UKIC cell and move to intelligence led disruption |
| | Replace Action Fraud with a state-of-the-art reporting system |
| | Imprison more fraudsters |
| | Lead a global partnership to pursue fraudsters worldwide |
| **Block Fraudsters** | Appoint Anthony Browne MP as Anti-Fraud Champion |
| | Stop criminals from abusing the telephone network:<br>• Ban cold calls on all financial products<br>• Ban SIM farms<br>• Review use of mass text aggregators<br>• Stop more spoof calls |
| | Revolutionise tech company action to block fraud at an industrial scale:<br>• Make the tech sector commit to protect their customers through legislation and voluntary commitments<br>• Make it easier to report fraud on social media and the internet<br>• Create new powers to take down fraudulent websites<br>• Publish information about fraud levels on different platforms |
| | Help banks slow down suspicious payments |
| **Empower the Public** | Support more victims |
| | Reimburse more fraud victims |
| | Better communications about how to protect yourself from fraud, how to report fraud, and what to do if you become a victim of fraud |

# Y niwed y mae twyll yn ei achosi

Yn y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Rhagfyr 2022, roedd 1 o bob 15 o oedolion yn ddioddefwyr twyll.[3] Roedd 18% o'r bobl hynny yn ddioddefwyr fwy nag unwaith.[4] Mae'r symiau o arian sydd dan sylw yn aruthrol. Amcangyfrifwyd bod cyfanswm y gost i gymdeithas yn sgil twyll yn erbyn unigolion yng Nghymru a Lloegr yn 2019-20 yn £6.8 biliwn o leiaf.[5] Mae hyn yn cynnwys yr arian a gollwyd gan y dioddefwyr, cost gofalu am y dioddefwyr, a chostau adennill arian, ymchwilio i dwyllwyr a'u herlyn. Mae rhagor o fanylion am gost twyll i'w gweld yn Atodiad 3.


12. Yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2021, cafodd Action Fraud wybod am werth cyfanswm o £2.35 biliwn o golledion i ddioddefwyr.[6] Mae adroddiadau diwydiant yn awgrymu y gallai colledion personol am achosion o dwyll awdurdodedig (sef twyll lle mae'r dioddefwr wedi cymeradwyo taliad) fod yn werth bron i £3,000.[7] Mewn rhai achosion, gall dioddefwyr golli cannoedd ar filoedd o bunnau. Pan fydd pobl yn ddioddefwyr twyll fwy nag unwaith, bydd eu colledion yn cynyddu'n gyflym iawn. Mae Arolwg Troseddu Cymru a Lloegr hefyd yn rhoi cipolwg ar y gwerth y mae unigolion wedi'i golli i dwyll, fel y gwelir yn ffigur 1 isod.

13. Ceir cost sylweddol i fusnes a menter hefyd. Dywedodd UK Finance, sef y corff masnach ar gyfer y diwydiant bancio a chyllid, fod ei aelodau wedi colli dros £1.3 biliwn i dwyll yn 2021, gan gynyddu'r costau i bawb sy'n defnyddio gwasanaethau bancio. Hefyd, gwyddom o'r Arolwg Troseddau Economaidd[8] yn 2020 fod tua un o bob pump o fusnesau wedi dioddef twyll yn ystod y tair blynedd flaenorol (18%).

---


[3] Crime in England and Wales: Appendix tables – Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ons.gov.uk): Tabl A3.
[4] Crime in England and Wales: Annual trend and demographic tables: D7
[5] The Economic and Social Costs of Crime 2022. Mae'r ffigur hwn yn amcangyfrif costau ehangach i gymdeithas gan gynnwys gwariant ataliol, niwed emosiynol ac ymateb asiantaethau gorfodi'r gyfraith i dwyll a gyflawnwyd yn erbyn unigolion. Gweler Atodiad 3.
[6] Action Fraud. Fraud Crime Trends 2020-21. Fraud and cyber crime national statistics | Action Fraud
[7] UK Finance Annual Fraud Report 2022 (t47, drwy rannu cyfanswm y gwerth â'r nifer)
[8] Economic Crime Survey, Swyddfa Gartref, 2020.

Ffigur 1 – Dosbarthiad colledion yn sgil twyll, Cymru a Lloegr




Source: CSEW year end Mar 22

Ffigur 2 – Amcangyfrif o'r newid yn y gyfran o ran achosion o dwyll awdurdodedig/anawdurdodedig




Source: CSEW & NFIB data

14. Mae Ffigur 1 yn dangos nad yw 36% o achosion o dwyll yn arwain at ddim colled ariannol (oherwydd ymgais aflwyddiannus i gyflawni twyll), ond mae llawer o achosion yn arwain at golledion mawr iawn. Mae dros 250,000 o achosion (6%) yn arwain at golledion dros £1,000.[9] Achosion uchel eu gwerth sy'n bennaf cyfrifol am gyfanswm y colledion yn sgil twyll. Er mai dim ond

[9] CSEW Nature of Fraud & Computer Misuse, YE Mar 22

0.5% o'r achosion sy'n arwain at golledion dros £10,000, amcangyfrifir eu bod yn cyfrif am 29% o gyfanswm y colledion ariannol yn sgil twyll.

15. Mae Ffigur 2 yn dangos bod natur twyll yn newid. [10]Yn hanesyddol, y prif fath o dwyll oedd twyll anawdurdodedig, sy'n gysylltiedig â chardiau banc a chardiau credyd gan mwyaf, lle y caiff arian ei dynnu o gyfrifon banc dioddefwyr heb eu caniatâd a heb yn wybod iddynt. Bellach, gan fod banciau wedi gwella eu technoleg er mwyn atal y math hwn o dwyll, mae'r troseddwyr yn ymaddasu. Fel y gwelir yn Ffigur 2 uchod, dros y ddwy flynedd ddiwethaf gwelwyd newid sylweddol tuag at dwyll awdurdodedig, lle y caiff dioddefwyr eu perswadio gan y twyllwr i awdurdodi taliad eu hunain – ymhlith yr enghreifftiau cyffredin mae sgamiau manwerthu, rhamant a buddsoddi, ond mae llawer o fathau eraill.

16. Mae'r niwed i ddioddefwyr yn fwy na cholled ariannol yn unig. Yn ôl Arolwg Troseddu Cymru a Lloegr, yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2020, profodd bron i dri chwarter y dioddefwyr ryw fath o effaith emosiynol.[11] Mae Action Fraud yn delio â mwy na 300 o alwadau y flwyddyn lle yr ystyrir bod rhywun mewn perygl o gyflawni hunanladdiad.

17. Mae faint o dwyll sy'n cael ei gyflawni, ei allu i danseilio hyder y cyhoedd yn rheolaeth y gyfraith, a'i effaith negyddol bosibl ar enw da ariannol y DU, yn golygu y dylid ystyried ei fod yn fygythiad i ddiogelwch gwladol. Yn unol â hynny, cafodd pwysigrwydd mynd i'r afael â thwyll er mwyn atal pobl rhag camddefnyddio systemau ariannol y DU ei gydnabod yn y diweddariad o'r Adolygiad Integredig o Amddiffyn, Diogelwch a Diplomyddiaeth yn 2023. Hefyd, mae'r Sefydliad Gwasanaethau Unedig Brenhinol wedi nodi tystiolaeth bod twyll wedi ariannu gweithgarwch terfysgol. Er enghraifft, mae milwriaethwyr wedi cyflawni achosion o dwyll yn erbyn dioddefwyr yn y DU i ariannu eu hymwneud â'r Wladwriaeth Islamaidd yn Syria.[12]

18. Ceir tystiolaeth hefyd sy'n dangos cysylltiadau uniongyrchol rhwng twyll a mathau eraill o droseddau difrifol a chyfundrefnol, fel caethwasiaeth fodern, masnachu mewn pobl a chyffuriau. Canfu un astudiaeth fod dwy ran o dair o

[10] Defnyddiwyd data Arolwg Troseddu Cymru a Lloegr i frasamcanu cyfran yr achosion o dwyll awdurdodedig ac anawdurdodedig. Ystyriwyd bod y mathau canlynol o dwyll yn nodweddiadol o dwyll anawdurdodedig: twyll yn erbyn defnyddwyr dros y ffôn; twyll sieciau, cardiau plastig a chyfrifon banc ar-lein (nid darparwyr gwasanaethau talu); anonestrwydd wrth gadw credyd anghyfiawn; mathau eraill o dwyll (nad ydynt wedi'u cynnwys yn unman arall)

[11] Nature of crime: fraud and computer misuse. Y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2020 (y data mwyaf diweddar sydd ar gael)

[12] RUSI: The Silent Threat

grwpiau troseddau cyfundrefnol sy'n canolbwyntio ar dwyll hefyd yn ymwneud â gweithgareddau troseddol eraill.[13]

***Beth yw twyll?***

19. Mae twyll yn golygu gweithred anonest, a gyflawnir fel arfer drwy ddichell neu dorri ymddiriedaeth, gyda'r bwriad o ennill arian neu eiddo arall, neu beri i barti arall golli arian neu eiddo arall. Mae'r term ‘twyll’ yn derm ambarél am droseddau sy'n amrywio o ran natur. Yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon, daw'r rhan fwyaf o droseddau o dan Ddeddf Twyll 2006. Yn yr Alban, troseddau yn y gyfraith gyffredin yw'r rhan fwyaf o achosion o dwyll.

20. Twyll yw'r math mwyaf o drosedd, ac mae'r lefelau wedi codi dros y blynyddoedd diwethaf. Amcangyfrifir bod 3.7 miliwn o achosion o dwyll wedi digwydd yng Nghymru a Lloegr yn y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Rhagfyr 2022 – mwy na 40% o'r holl droseddau. Bu cynnydd sydyn mewn lefelau twyll yn ystod pandemig COVID-19, gan dyfu i fwy na 5 miliwn o achosion yn y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Rhagfyr 2021.[14]

Ffigur 3 – Twyll fel cyfran o'r holl droseddau yn 2021/22





Source: Appendix tables, year ending December 2022, CSEW

[13] Michael Levi, ‘Organized Fraud’, yn Letizia Paoli (gol.), The Oxford Handbook of Organized Crime (Rhydychen: Gwasg Prifysgol Rhydychen, 2014), t. 462

[14] Crime in England and Wales – Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ons.gov.uk) Atodiad: Tabl 2

Ffigur 4 – Achosion o Dwyll 2016/17 i 2021/22 o Arolwg Troseddu Cymru a Lloegr



## Cynnydd wedi'i ysgogi gan dechnoleg

21. Mae'r DU eisoes yn darged deniadol i dwyllwyr. Mae Heddlu Dinas Llundain yn amcangyfrif bod mwy na 70% o dwyll naill ai'n deillio o wledydd tramor neu'n cynnwys elfen ryngwladol.[15] Mae'r sector ariannol wedi cynghori bod unigolion a busnesau yn y DU yn darged mwy deniadol ar gyfer twyll oherwydd ein cyfoeth cymharol, natur fyd-eang yr iaith Saesneg, y ffaith ein bod yn mabwysiadu technoleg ar-lein yn gyflym, megis bancio ar y rhyngrwyd a siopa ar-lein, a natur gyflym a didrafferth ein systemau talu.

22. Mae bron yn sicr mai'r ffaith bod defnyddwyr, busnesau a thwyllwyr yn mabwysiadu technolegau newydd yw'r prif ffactor sydd wedi ysgogi'r cynyddiadau diweddar.

23. Mae datblygiadau technolegol yn ei gwneud yn haws i dwyllwyr gael gafael ar ddioddefwyr a data:

- Gan fod mwy a mwy o ddata'n cael eu dal ar-lein, mae tor diogelwch data ar raddfa fawr yn galluogi twyllwyr i ddwyn gwybodaeth bersonol a'i defnyddio i gyflawni eu troseddau.
- Mae'r gallu i gyfathrebu mewn swmp, megis gwasanaethau negeseuon testun, yn galluogi twyllwyr i dargedu miloedd o bobl ar unwaith. Mae 'dynwared' rhifau ffôn yn galluogi twyllwyr i roi'r argraff eu bod yn cysylltu o rif ffôn neu fusnes dilys yn y DU a thwyllo pobl i ateb galwadau y byddent yn eu hanwybyddu fel arall.
- Mae dyfodiad modelau iaith mawr deallusrwydd artiffisial newydd fel ChatGPT ac adnoddau dysgu peirianyddol clyfar yn galluogi twyllwyr i dargedu a theilwra eu sgamiau i fod yn fwy effeithiol.

24. Mae defnyddwyr a dinasyddion yn treulio mwy o amser ar-lein ac mae modelau busnes ar-lein yn lluosogi. Er bod y newid hwn wedi arwain at gyfleoedd chwyldroadol i'n heconomi, mae twyllwyr wedi manteisio arnynt hefyd. Caiff y rhan fwyaf o achosion o dwyll bellach eu cyflawni – neu eu hwyluso yn rhannol – ar-lein, a negeseuon a llwyfannau ar-lein (fel y cyfryngau cymdeithasol) yw'r dull cyfathrebu mwyaf cyffredin a ddefnyddir gan dwyllwyr.[16]

25. Mae twyllwyr yn debygol o ddod yn gynyddol fedrus o ran manteisio ar dechnoleg a chanfod gwendidau, gan ei gwneud yn llawer anos i ddioddefwyr adnabod twyll. Gall datblygiadau technolegol, fel ffugio dwfn[17] ac

[15] International Fraud Offending Recorded on Action Fraud: Professional estimation of international fraud offending gan NFIB Chwefror 2022

[16] Fraud Crime Trends. Yn ôl Action Fraud, caiff dros 83% o'r twyll y rhoddir gwybod amdano ei hwyluso ar-lein. Mae'r cyfryngau cymdeithasol a gwasanaethau negeseua wedi'u hamgryptio yn hwyluso pob agwedd ar dwyll fwyfwy.

[17] Gweler y Rhestr termau

amgylcheddau ar-lein cynyddol ymdrochol[18] wneud defnyddwyr yn fwy agored i niwed ac arwain at fathau newydd o fygythiadau sy'n gysylltiedig â thwyll drwy gyflwyno pobl neu wybodaeth ffug mewn ffordd sy'n ei gwneud yn amhosibl gwahaniaethu rhyngddynt a phobl neu'r wybodaeth go iawn.

26. Mae dimensiynau newydd i'r bygythiad. Mae Biwro Ymchwilio Ffederal UDA wedi gweld hacwyr a ariennir gan wladwriaeth Gogledd Korea yn ceisio cael gafael ar gryptoarian drwy dwyll a seiberdroseddu.[19] Wrth i dechnolegau seiberdroseddu cymhleth luosogi, bydd y gorgyffwrdd hwn rhwng diogelwch gwladol a bygythiadau troseddol yn sicr o gynyddu.

## Cwmpas y strategaeth hon

27. Mae'r strategaeth drawslywodraethol hon yn cwmpasu twyll lle mae'r dioddefwyr yn aelodau o'r cyhoedd neu'n fusnesau. Caiff yr ymateb i dwyll yn erbyn y sector cyhoeddus ei arwain gan Awdurdod Twyll y Sector Cyhoeddus, sy'n gweithio gyda gweithwyr proffesiynol ym maes twyll mewn gwahanol adrannau'r Llywodraeth a chyrff cyhoeddus i atal twyll, lleihau niwed a sicrhau y caiff gwasanaethau cyhoeddus eu darparu i'r rhai sydd â'r angen mwyaf. Mae Mandad yr Awdurdod i'w weld ar GOV.UK. Bydd yr Awdurdod yn cyhoeddi Strategaeth Weithredol Pedair Blynedd a fydd yn nodi ymateb y llywodraeth ganolog i dwyll yn erbyn y sector cyhoeddus. Rydym yn cydgysylltu'r strategaethau hyn ac yn cydweithio'n agos â'n gilydd, gan rannu data a thechnegau i leihau'r bygythiad i'r cyhoedd, i busnesau ac i bwrs y wlad.

28. Yn 2019, cytunodd y Llywodraeth a'r sector preifat ar Gynllun Troseddau Economaidd, sy'n nodi camau gweithredu a gaiff eu cymryd yn y sector cyhoeddus a'r sector preifat i fynd i'r afael â'r bygythiad cynyddol i ddiogelwch gwladol yn sgil troseddau economaidd. Cyhoeddwyd yr ail Gynllun Troseddau Economaidd eleni, ac roedd yn nodi'r ymateb system gyfan i fynd i'r afael â phob math o drosedd economaidd gan gynnwys gwyngalchu arian a chyllid anghyfreithlon. Roedd yn nodi'r dull gweithredu cyffredinol, y mae'r strategaeth hon yn perthyn iddo, yn ogystal â'r ymrwymiadau a wnaed drwy'r adolygiad diweddar o gyfundrefn rheoleiddio a goruchwylio Atal Gwyngalchu Arian ac Ariannu Terfysgaeth y DU. Mae'r Llywodraeth hefyd yn datblygu olynydd i Strategaeth Wrth-lygredigaeth genedlaethol 2017-2022, a fydd yn mynd i'r afael â llygredigaeth ehangach sy'n gysylltiedig â throseddau economaidd.

[18] Gweler y Rhestr termau

[19] Three North Korean Military Hackers Indicted in Wide-Ranging Scheme to Commit Cyberattacks and Financial Crimes Across the Globe | OPA | Department of Justice

29. Mae twyll yn croestorri â meysydd polisi eraill gan gynnwys seiberdroseddu a diogelwch, polisi digidol, polisi hunaniaeth a llawer mwy. Nodir y berthynas rhwng y strategaeth hon a strategaethau cysylltiedig eraill yn Atodiad 1.

### *Cwmpas daearyddol*


30. Bydd y strategaeth hon yn arwain at ganlyniadau cadarnhaol sylweddol i bedair gwlad y DU. Mae Llywodraeth y DU a'r gweinyddiaethau datganoledig yn ymrwymedig i frwydro yn erbyn twyll. Byddwn yn parhau i sicrhau yr eir i'r afael â materion cyfunol ar y cyd er mwyn cynnal cadernid y DU yn erbyn twyll. Mae dadansoddiad o'r cwmpas daearyddol i'w weld yn Atodiad 2.

31. Nid yw twyll yn parchu ffiniau cenedlaethol ac mae'r strategaeth hon yn nodi sut y byddwn yn datblygu consensws rhyngwladol o blaid gwneud mwy i fynd i'r afael â thwyll, yn ogystal â bwrw ymlaen â gweithgareddau gweithredol gyda gwledydd partner allweddol er mwyn cosbi twyllwyr yn llym.

## Ein dull newydd o atal twyll a sgamiau

32. Mae angen gweithredu mewn ffordd newydd er mwyn cadw'r cyhoedd yn ddiogel a lleihau'r bygythiad i ddiogelwch gwladol. Byddwn yn dilyn dull sy'n cwmpasu'r broses gyfan o leihau twyll 10% erbyn diwedd y Senedd hon, gyda thair elfen allweddol:

- Byddwn yn **mynd ar ôl twyllwyr**, gan darfu ar eu gweithgareddau a dod â nhw o flaen eu gwell yn amlach ac yn gyflymach.
- Byddwn yn **rhwystro twyll** yn y man cychwyn drwy leihau nifer y negeseuon twyllodrus sy'n cyrraedd y cyhoedd.
- Byddwn yn **grymuso pobl Prydain** i adnabod twyll, ei osgoi a rhoi gwybod amdano, ac yn eu paratoi i ddelio'n hawdd ac yn briodol ag ymgeisiau i gyflawni twyll sy'n llwyddo i'w cyrraedd.



# Piler 1: Mynd ar ôl twyllwyr

Rhaid i'r system cyfiawnder troseddol roi mwy o ffocws ar dwyll. Mae technoleg fodern wedi'i gwneud yn gynyddol hawdd cyflawni twyll o wledydd tramor, gan lesteirio dulliau plismona traddodiadol a'n hatal rhag gallu dod â thwyllwyr o flaen eu gwell. Rhaid i ni wrthsefyll hyn, gan fynd i'r afael â thwyllwyr yn gyflymach a rhoi mwy ohonynt yn y carchar. Rydym yn buddsoddi £100 miliwn i wella ymateb asiantaethau gorfodi'r gyfraith, y gymuned gudd-wybodaeth a'r system cyfiawnder troseddol, gan atal dros 300,000 yn fwy o achosion o dwyll erbyn diwedd y Senedd hon drwy ymyriadau ymlid yn unig.

33. Wrth i dwyll fynd yn fwy soffistigedig a chymhleth, mae wedi mynd yn llawer mwy heriol erlyn twyll. Mae nifer o adolygiadau allanol o ymateb heddluoedd i dwyll wedi pwysleisio'r anawsterau sy'n wynebu'r heddlu. Mae ystadegau troseddu diweddar yn dangos ein bod yn parhau i weld cynnydd amlwg yn nifer y diffynyddion yr eir â nhw i'r llys am dwyll.[20] Nid yw'r DU ar ei phen ei hun yn hyn o beth gan fod partneriaid rhyngwladol yn rhoi gwybod am dueddiadau tebyg.[21] Rydym yn ailflaenoriaethu ac yn cynyddu ein buddsoddiad yn y ffordd yr awn i'r afael â thwyll er mwyn sicrhau canlyniadau gwell i ddioddefwyr.

34. Rhaid i ni ganolbwyntio ein hymdrechion ar darfu ar yr achosion o dwyll, y twyllwyr a'r hwyluswyr sy'n cael yr effaith fwyaf. Er mwyn gwneud hynny, rhaid i ni ddefnyddio'r holl adnoddau sydd ar gael i ni, gan gynnwys defnyddio ein cymuned gudd-wybodaeth hynod alluog a'n cydberthnasau rhyngwladol, gan fuddsoddi £100 miliwn yn ymateb ein hasiantaethau gorfodi'r gyfraith yn ystod cyfnod yr adolygiad gwariant (y flwyddyn a ddaw i ben yn 2024/25). Rhaid i ni hefyd sicrhau y bydd y gyfraith yn datblygu gyda'r twyllwyr, sy'n manteisio ar unrhyw fannau gwan y gallant ddod o hyd iddynt er mwyn osgoi


[20] Adnodd Canlyniadau yn ôl Trosedd y Weinyddiaeth Gyfiawnder, Criminal Justice System statistics quarterly: Mehefin 2022 - GOV.UK (www.gov.uk)

[21] Ystadegau cyfiawnder troseddol rhyngwladol: Awstralia, Unol Daleithiau America, Canada, Seland Newydd

cael eu cosbi am eu troseddau. Byddwn yn seilio hyn ar y ffordd glir y mae cyfrifoldebau eisoes wedi cael eu rhannu:

- Y Swyddfa Gartref yw prif arweinydd y systemau polisi a strategaeth cyffredinol ym maes twyll yn erbyn unigolion a busnesau.
- Yr Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol (NCA), drwy'r Ganolfan Troseddau Economaidd Genedlaethol (NECC), yw'r arweinydd systemau gweithredol sy'n gweithio rhwng asiantaethau gorfodi'r DU, y gymuned gudd-wybodaeth a diwydiant.
- Heddlu Dinas Llundain (CoLP) sy'n arwain ac yn cydgysylltu ymdrechion Unedau Troseddau Cyfundrefnol Rhanbarthol (ROCUs) a 43 o heddluoedd yng Nghymru a Lloegr (yn ei rôl fel yr Heddlu Arweiniol Cenedlaethol ar gyfer twyll).
- Bydd heddluoedd lleol ledled y DU a ROCUs yng Nghymru a Lloegr yn parhau i fod yn gyfrifol am y mwyafrif helaeth o'r ymchwiliadau i dwyll yn y DU, yn ogystal ag arwain ar gymorth i ddioddefwyr a busnesau yn eu hardaloedd lleol.
- Bydd y Swyddfa Twyll Difrifol (SFO) yn parhau i ddefnyddio ei strwythurau a'i phwerau ymchwilio arbenigol i fynd i'r afael â thwyll cymhleth iawn.

Ffigur 5 – ymateb asiantaethau gorfodi'r gyfraith i dwyll



## Creu Uned Dwyll Genedlaethol

- **Lansio Uned Dwyll Genedlaethol newydd a fydd yn ymchwilio i fwy o dwyllwyr sy'n targedu unigolion a busnesau, ac yn tarfu ar y twyllwyr hynny, gyda mwy na 400 o ymchwilwyr arbenigol newydd rhwng yr NCA, CoLP a ROCUs.**
- **Sicrhau bod twyll yn flaenoriaeth i heddluoedd drwy'r Gofyniad Plismona Strategol.**
- **Bydd yr NECC a CoLP yn lansio Strategaeth Bobl newydd er mwyn gwella cyfraddau recriwtio a chadw asiantaethau gorfodi'r gyfraith ym maes twyll.**
- **Bydd y Swyddfa Gartref a'r Coleg Plismona yn adolygu'r holl hyfforddiant a roddir i'r heddlu ar sgiliau digidol.**
- **Dwyn arbenigedd ynghyd, o bob sector, er mwyn diffinio arferion a safonau a datblygu galluogrwydd y rhai sy'n gweithio i atal twyll, drwy ddatblygu'r Proffesiwn Gwrth-dwyll a chysoni ag ef.**
- **Cynnal adolygiad o waith gorfodi'r gyfraith ym maes twyll, gan asesu effaith y swyddi ychwanegol ac a oes angen diwygio strwythurol mwy sylweddol.**
- **Cyflwyno pwerau ychwanegol er mwyn atafaelu ac adennill asedau crypto troseddol drwy'r Bil Troseddau Economaidd a Thryloywder Corfforaethol.**

### *Rhoi hwb i adnoddau*

35. Rydym yn rhoi hwb i ymateb ehangach asiantaethau gorfodi'r gyfraith drwy sefydlu Uned Dwyll Genedlaethol newydd. Bydd yr Uned yn gweithredu'n rhagweithiol ar sail cudd-wybodaeth ac yn canolbwyntio ar dwyll gwerth uchel a throseddau cyfundrefnol. Bydd yr Uned yn gweithio ochr yn ochr â'r Swyddfa Twyll Difrifol (SFO) ac yn cydweithio â'r ecosystem dwyll ehangach, er mwyn sicrhau mai'r asiantaeth fwyaf priodol a fydd yn ymchwilio i bob achos cymhleth o dwyll.

36. Bydd yr Uned yn cynnwys mwy na 400 o swyddi newydd ym mhob rhan o faes plismona a'r NCA erbyn 2025 ochr yn ochr â'r adnoddau sydd eisoes ar gael. Caiff yr Uned ei harwain ar y cyd gan yr NCA a CoLP, ac mae ganddi 300 o ymchwilwyr yn barod, gan gynnwys rhai newydd a rhai a oedd eisoes yn eu swyddi. Bydd 100 yn rhagor yn eu swyddi erbyn mis Ionawr 2024, a 100 arall erbyn 2025. Bydd yr Uned yn defnyddio galluoedd casglu cudd-wybodaeth dirgel ac agored er mwyn darganfod a thargedu'r troseddwyr gwaethaf yma ac mewn gwledydd tramor. Mae hyn yn well na'r dulliau ymatebol presennol sy'n seiliedig ar gael gwybod gan ddioddefwyr, sy'n ei gwneud yn anodd darganfod y troseddwyr allweddol a delio â nhw. Bydd timau newydd yn yr NECC, CoLP a Chymuned Gudd-wybodaeth y DU (UKIC) yn cydweithio â'i gilydd i rannu cudd-wybodaeth mewn amser real er mwyn ysgogi camau gorfodi ym mhob rhan o'r Llywodraeth ac yn y sector preifat.

37. Dyma'r buddsoddiad sylweddol cyntaf i fynd i'r afael â thwyll ers 2008. Bydd yr Uned yn trawsnewid y ffordd y byddwn yn darganfod twyllwyr, yn tarfu arnynt ac yn eu herlyn. Ochr yn ochr ag uned newydd sy'n targedu twyll o fewn yr NCA, bydd gan bob ROCU dîm arbennig sy'n canolbwyntio ar ymchwiliadau i dwyll. Bydd CoLP, sef yr heddlu arweiniol cenedlaethol ar gyfer twyll, yn cynyddu ei oruchwyliaeth o weithgarwch plismona ehangach mewn perthynas â thwyll, gan ledaenu cudd-wybodaeth, hyrwyddo arferion gorau a dwyn heddluoedd i gyfrif am gyflawni. O ystyried bygythiad twyll, sy'n gymhleth ac yn tyfu'n gyflym, mae'n hollbwysig sicrhau ymateb system gyfan.

38. Bydd y Swyddfa Gartref yn cymryd camau allweddol eraill. Byddwn yn cynyddu trosolwg gweinidogol ar blismona ym maes twyll ac yn rhoi mwy o flaenoriaeth i dwyll mewn dogfennau plismona strategol allweddol. Mae'r Gofyniad Plismona Strategol newydd, sy'n nodi'r galluoedd y mae'r Ysgrifennydd Cartref am i heddluoedd eu cael, yn rhoi lle mwy blaenllaw i dwyll, sydd wedi'i gynnwys o fewn bygythiad troseddau difrifol a chyfundrefnol. Am y tro cyntaf, mae'n pennu'r galluoedd a ddylai fod gan bob heddlu i fynd i'r afael â thwyll. Mae'r ddogfen yn amlinellu sut y gall heddluoedd wneud gwell defnydd o alluoedd yr NCA a'r galluoedd a gynigir gan CoLP fel yr Heddlu Arweiniol Cenedlaethol, Action Fraud a'r Academi Troseddau Economaidd. Bydd y Gofyniad yn canolbwyntio ar adnoddau ac ymdrechion i fynd i'r afael â thwyll ac yn sicrhau bod yr adnoddau presennol yn cyflawni'r allbwn mwyaf posibl, yn enwedig ar lefel heddluoedd lleol.

39. Mae Comisiynwyr Heddlu a Throseddu lleol yn rhoi mwy o ffocws ar dwyll. Am y tro cyntaf, mae pob Cynllun Heddlu a Throseddu sy'n pennu blaenoriaethau lleol yng Nghymru a Lloegr yn sôn am dwyll. Rydym hefyd yn adolygu'r ffordd y mae heddluoedd yn adrodd ar ganlyniadau yn erbyn troseddau i'r Swyddfa Gartref. Rydym am gydnabod gweithgarwch tarfol ac ataliol heddluoedd gyda hwyluswyr (fel gwefannau cyfryngau cymdeithasol ) a dioddefwyr (er mwyn eu hatal rhag dioddef eto) sy'n lleihau gallu twyllwyr i weithredu.

40. Byddwn yn parhau i sicrhau bod holl ysgogiadau'r Llywodraeth sy'n gallu mynd i'r afael â thwyll ar gael i asiantaethau gorfodi'r gyfraith. Ceir llawer o wahanol sefydliadau yn y sector cyhoeddus a'r sector preifat sy'n cyflawni rôl allweddol i fynd i'r afael â thwyll, gyda gwahanol gyfrifoldebau o ran y ffordd y maent yn ymateb i fygythiad twyll. Gall yr SFO, yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol (FCA), Safonau Masnach Cenedlaethol (NTS) a chyrff gorfodi eraill roi ymyriadau hollbwysig ar waith er mwyn atal twyllwyr eu hunain, a gweithio gyda'r heddlu a'r NCA ar eu hymchwiliadau.

### *Meithrin sgiliau a galluoedd digidol ar gyfer y dyfodol*

41. Mae angen i'r heddlu ac ymchwilwyr feddu ar y sgiliau a'r galluoedd digidol a fydd yn cyflawni wrth i droseddwyr wella eu gallu i gamddefnyddio technoleg i gyflawni twyll ar raddfa fawr. Man cychwyn hyn yw'r hanfodion a roddir gan CoLP i holl swyddogion ac ymchwilwyr yr heddlu. Mae CoLP a'r NECC yn datblygu Strategaeth Bobl. Yn ogystal â'r heriau uniongyrchol o ran recriwtio a chadw, bydd yn mynd i'r afael â phroblemau tymor hwy drwy gynnig llwybrau newydd ac arloesol i rolau ym meysydd troseddau economaidd a seiberdroseddau. Bydd hyn yn cynnwys addysg a gwell defnydd o Gwnstabliaid Gwirfoddol a Gwirfoddolwyr Cymorth yr Heddlu.

42. Rydym hefyd yn archwilio ffyrdd o ddefnyddio'r sgiliau gwrth-dwyll sydd yn y sector cyhoeddus ehangach, yn ogystal â'r sector preifat. Byddwn yn chwilio am gyfleoedd i gyfnewid pobl a sgiliau drwy Strategaeth Bobl CoLP/NECC. Byddwn hefyd yn adeiladu ar lwyddiant Proffesiwn Gwrth-dwyll y Llywodraeth, a lansiwyd yn 2018, gyda thua 7,000 o aelodau mewn 59 o sefydliadau gan gynnwys yr SFO, CThEF a CoLP. Bydd Awdurdod Twyll y Sector Cyhoeddus, sef lle mae'r Proffesiwn yn gweithredu, yn cyflwyno model trwydded i weithredu er mwyn i aelodau sicrhau bod y rhai sy'n gweithio i atal twyll yn meddu ar y sgiliau a'r wybodaeth briodol.

## Mwy o darfu ar sail cudd-wybodaeth

- **Defnyddio Cymuned Gudd-wybodaeth y DU, drwy uned newydd sy'n canolbwyntio ar dwyll, er mwyn deall y bygythiad rhyngwladol yn well a defnyddio partneriaethau byd-eang i atal twyllwyr ble bynnag y bônt yn y byd.**
- **Sefydlu uned amlasiantaethol newydd sy'n targedu twyll yn yr NCA.**

43. Mae CoLP yn amcangyfrif y gallai dros 70% o'r achosion o dwyll sy'n effeithio ar ddioddefwyr yn y DU gynnwys elfen ryngwladol – naill ai troseddwyr yn y DU ac mewn gwledydd tramor yn cydweithio â'i gilydd, neu dwyll yn cael ei arwain gan dwyllwr o'r tu allan i'r DU yn unig. Yn 2016, amcangyfrifwyd bod bron hanner y troseddau twyll a seiberdroseddau y rhoddwyd gwybod amdanynt wedi cael eu cyflawni gan grwpiau troseddau cyfundrefnol.[22]

44. Bydd y galluoedd ymchwilio newydd yn seiliedig ar well cudd-wybodaeth er mwyn canfod grwpiau troseddau cyfundrefnol difrifol sy'n cyflawni twyll. Gan ddefnyddio ei galluoedd o'r radd flaenaf a'i chydberthnasau rhyngwladol, bydd UKIC yn meithrin dealltwriaeth o'r bygythiad, yn dod o hyd i ymyriadau newydd ar gyfer partneriaid cyhoeddus a phreifat, ac yn gweithio gydag asiantaethau gorfodi'r gyfraith i darfu ar dwyllwyr yn unrhyw ran o'r byd sy'n targedu dinasyddion y DU, gan atal twyll rhag eu cyrraedd.

[22] Police Foundation Organised Fraud in Local Communities Briefing (police-foundation.org.uk)

45. Bydd yr NECC yn sefydlu uned amlasiantaethol sy'n targedu twyll a fydd yn defnyddio data o bob ffynhonnell er mwyn gwella dealltwriaeth y system gyfan o'r bygythiad a llunio pecynnau cudd-wybodaeth a safon uchel. O ganlyniad i hynny, caiff adnoddau cyfunol eu cyfeirio at y mannau lle y byddant yn cael yr effaith fwyaf.

46. Yn ogystal ag ymdrechion diplomyddol ac amlochrog, rydym yn ystyried ble y gallwn wneud gwahaniaeth ymarferol drwy gydweithio â phartneriaid o bob cwr o'r byd. Mae hyn yn cynnwys meithrin cydberthnasau â phartneriaid gweithredol mewn gwledydd sydd, oherwydd eu diffyg cyfleoedd, seilwaith neu gysylltiadau byd-eang, yn galluogi'r mwyaf o dwyll yn y DU.

**Astudiaeth achos**

Ym mis Tachwedd 2022, arweiniodd ymgyrch gorfodi'r gyfraith amlasiantaethol a rhyngwladol at gau cyfleuster roedd twyllwyr wedi'i ddefnyddio i dargedu 200,000 o ddioddefwyr yn y DU yn unig. Hon oedd ymgyrch wrth-dwyll fwyaf y DU hyd yma, a bydd ein strategaeth yn arwain at gynnal mwy o ymgyrchoedd o'r fath.

Dan arweiniad Uned Seiberdroseddau'r Heddlu Metropolitanaidd - mewn cydweithrediad ag asiantaethau gorfodi'r gyfraith rhyngwladol, gan gynnwys yr Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol ac awdurdodau yn UDA ac Wcráin - caewyd gwefan iSpoof. Roedd twyllwyr yn defnyddio'r wefan hon i ddynwared banciau go iawn er mwyn cael gafael ar wybodaeth bersonol ar gyfer cyflawni twyll. Ar un adeg, byddai sgamwyr yn cysylltu ag 20 o bobl bob munud o'r dydd, gan esgus cynrychioli banciau a chymdeithasau adeiladu mwyaf y stryd fawr gan gynnwys Barclays, Santander, HSBC, Lloyds, Halifax, First Direct, NatWest, Nationwide a TSB.

Yn y 12 mis tan fis Awst 2022, gwnaed tua 10 miliwn o alwadau ffôn twyllodrus ledled y byd drwy iSpoof ac, o'u plith, cafodd tua 3.5 miliwn eu gwneud yn y DU. Amcangyfrifwyd bod y bobl a roddodd wybod eu bod wedi cael eu targedu wedi colli £10,000 ar gyfartaledd. Mae'r heddlu wedi arestio dros 100 o bobl yn y DU, gan gynnwys yr unigolyn sy'n cael ei amau o drefnu gwefan iSpoof.

## Disodli Action Fraud

- **Ei gwneud yn haws i ddioddefwyr roi gwybod am dwyll, ac i asiantaethau gorfodi'r gyfraith weithredu mewn ymateb i hynny, drwy wasanaeth cenedlaethol newydd o'r radd flaenaf ar gyfer rhoi gwybod am dwyll a seiberdroseddu.**

47. Rhaid i ddioddefwyr fod yn hyderus y bydd yr heddlu'n cymryd y troseddau y maent wedi'u dioddef o ddifrif. Action Fraud, a gaiff ei redeg gan CoLP, yw'r pwynt cyswllt cyntaf i'r rhan fwyaf o ddioddefwyr, gan mai hwn yw gwasanaeth canolog y DU ar gyfer rhoi gwybod am dwyll a seiberdroseddu. Mae gwasanaeth canolog sy'n cwmpasu'r ddau fath hyn o droseddau yn cynnig manteision sylweddol i ddioddefwyr a'r heddlu, gan alluogi dioddefwyr i ddefnyddio gwasanaethau arbenigol, a darparu cudd-wybodaeth gynhwysfawr ar gyfer camau gorfodi'r gyfraith.

48. Fodd bynnag, mae sawl adolygiad o Action Fraud wedi dod o hyd i wendidau ac mae'r Swyddfa Gartref, Corfforaeth Dinas Llundain a CoLP yn ymrwymedig i wella'r gwasanaeth hanfodol hwn. Am y rheswm hwn, mae'r Swyddfa Gartref wedi ymrwymo i wario dros £30 miliwn dros dair blynedd, ochr yn ochr â chyfraniadau gan Gorfforaeth Dinas Llundain, i ddisodli a gwella'r gwasanaeth.

49. Bydd y gwasanaeth newydd hwn yn cynnig amrywiaeth eang o fanteision i ddioddefwyr a defnyddwyr eraill. Fel rhan o'r uwchraddio, caiff gwefan newydd ei lansio er mwyn ei gwneud yn haws i ddioddefwyr roi gwybod am droseddau ar-lein a chael cyngor ar sut i ddiogelu eu hunain. Hefyd, bydd unrhyw un a fydd yn defnyddio'r gwasanaeth i roi gwybod am drosedd yn gallu cadw golwg ar hynt ei achos a chael y wybodaeth ddiweddaraf mewn modd llawer mwy amserol.

50. Mae gwelliannau eisoes yn cael eu gwneud i'r gwasanaeth presennol er mwyn gwella'r profiad o roi gwybod am drosedd i ddioddefwyr a sicrhau y caiff achosion eu hanfon at heddluoedd yn fwy effeithiol ac amserol er mwyn iddynt weithredu yn eu cylch. Ymhlith y gwelliannau diweddar mae:

- Defnyddio awtomeiddio i wella effeithiolrwydd drwy dechnoleg well.
- Cynyddu nifer y staff yn y ganolfan alwadau a chyflwyno bot sgwrsio newydd ar y wefan er mwyn delio â niferoedd mwy o achosion.
- Anfon achosion at heddluoedd yn gyflymach er mwyn iddynt allu ystyried a ellir cynnal ymchwiliad.
- Erbyn hyn, caiff achosion y rhoddir gwybod amdanynt ar y we eu dadansoddi er mwyn adnabod dioddefwyr sy'n agored i niwed er mwyn gallu blaenoriaethu eu hachosion i'w hasesu ar unwaith a rhoi cymorth un i un.
- Mae'r Uned Ofal Genedlaethol i Ddioddefwyr Troseddau Economaidd (NECVCU) y caiff rhai dioddefwyr eu hatgyfeirio ati gan Action Fraud eisoes wedi cael ei chyflwyno mewn 41 o heddluoedd.

51. Caiff y gwasanaeth newydd llawn ei lansio o fewn blwyddyn. I ddioddefwyr, bydd hyn yn golygu gwasanaeth newydd sbon ar gyfer rhoi gwybod am droseddau, gan gynnwys canolfan alwadau wedi'i huwchraddio a fydd yn lleihau amseroedd aros, yn ogystal â'r porth newydd i ddioddefwyr gael y wybodaeth ddiweddaraf am hynt eu hachosion.

52. Yn hollbwysig, caiff camau eu cymryd yn gyflymach mewn ymateb i'r wybodaeth a ddaw i law gan ddioddefwyr, gan arwain at darfu ar fwy o dwyllwyr. Bydd y Biwro Cudd-wybodaeth Twyll Cenedlaethol (NFIB), sef y corff sy'n gyfrifol am asesu achosion dioddefwyr a throsglwyddo'r rhai y mae modd gweithredu yn eu gylch i ymchwilwyr mewn gwahanol asiantaethau gorfodi'r gyfraith, yn gallu manteisio ar alluoedd dadansoddi newydd a mwy soffistigedig, yn ogystal â llawer mwy o ddata. Bydd hyn yn ei alluogi i weithredu'n gyflymach, gan leihau'r amser y bydd yn ei gymryd i rannu pecynnau cudd-wybodaeth â heddluoedd er mwyn iddynt ymchwilio i droseddau, neu ddarganfod gangiau troseddol er mwyn i'r NFS eu targedu. Bydd hefyd yn gallu gweithredu'n gyflymach gyda diwydiant, gan ddod o hyd i gyfleoedd i fanciau atal arian rhag cyrraedd twyllwyr, neu gau gwefannau amheus sy'n denu llawer o ddioddefwyr. Caiff mwy o wybodaeth am y camau hyn eu rhannu â dioddefwyr, gan eu gwneud yn fwy hyderus bod rhywbeth yn cael ei wneud.

## Gwella'r ymateb cyfiawnder troseddol a rhoi mwy o dwyllwyr yn y carchar

- **Cynnal adolygiad annibynnol newydd o'r heriau sy'n gysylltiedig ag ymchwilio i dwyll a'i erlyn, gan ystyried:**
    - **Moderneiddio'r drefn ddatgelu ar gyfer achosion lle y ceir llawer o dystiolaeth ddigidol.**
    - **P'un a yw troseddau twyll a Deddf Twyll 2006 yn ymateb i heriau twyll modern ai peidio, gan gynnwys a yw'r cosbau'n addas i'r troseddau o hyd.**
    - **Creu cosbau a gorchmynion sifil er mwyn atal twyllwyr rhag aildroseddu.**
    - **Ei gwneud yn haws i unigolion achwyn ar gyd-aelodau o rwydweithiau twyll troseddol.**
- **Ymgorffori'r defnydd o'r Cytundeb Mynediad at Ddata rhwng y DU ac UDA.**
- **Cynnal gwerthusiad llawn o gylch oes cyfan achos o dwyll, o roi gwybod am drosedd i benderfynu'r achos yn y llys. Byddwn yn defnyddio'r sylfaen dystiolaeth hon i ymgynghori ar atebion er mwyn cynyddu nifer a chyflymder achosion o'r fath.**
- **Gwneud Gorchmynion Atal Troseddau Difrifol yn ddulliau mwy effeithiol o fynd i'r afael â thwyllwyr drwy gynyddu'r defnydd ohonynt a gwella'r trefniadau monitro a gorfodi parhaus.**
- **Archwilio cyfleoedd i adennill mwy o arian dioddefwyr drwy bwerau sifil.**
- **Cyflwyno trosedd newydd, sef Methu ag Atal Twyll, yn y Bil Troseddau Economaidd a Thryloywder Corfforaethol.**
- **Deddfu er mwyn ei gwneud yn haws erlyn corfforaethau am droseddau a gyflawnwyd gan eu huwch-reolwyr, drwy wella'r ffordd y caiff yr unigolion sy'n gwneud penderfyniadau yn y corfforaethau eu hadnabod gan y gyfraith.**

### *Erlyniadau cyflym a llwyddiannus*

53. Oherwydd natur achosion o dwyll, a'r ffaith eu bod yn aml yn arwain at lawer iawn o dystiolaeth gymhleth, gall fod angen cryn dipyn o amser ac adnoddau i gynnal ymchwiliad trylwyr a sicrhau bod erlyniad yn mynd i'r llys. Wrth i'r Llywodraeth lansio'r NFS, a mesurau eraill i wella gallu asiantaethau gorfodi'r gyfraith i ymateb, rydym hefyd yn bwriadu chwalu rhwystrau rhag cyfiawnder er mwyn sicrhau y bydd mwy o dwyllwyr yn talu am eu troseddau.

54. Nid oes adolygiad annibynnol o dwyll wedi cael ei gynnal ers 1986.[23] Felly, byddwn yn lansio adolygiad annibynnol o'r heriau a wynebir wrth ymchwilio i dwyll a'i erlyn, a byddwn yn cyhoeddi pwy a fydd yn arwain yr adolygiad cyn bo hir. Bydd cam cyntaf yr adolygiad yn ystyried sut y gellir symleiddio'r drefn ddatgelu ar gyfer achosion â llawer o ddeunydd digidol, gan leihau'r baich sylweddol ar asiantaethau gorfodi'r gyfraith ac erlynwyr. Bydd hyn yn cynnwys

[23] Adroddiad Roskill ar Dreialon Twyll, 1986

edrych ar gymaryddion rhyngwladol ynghylch datgelu er mwyn gweld pa wersi y gallwn eu dysgu.

55. Mae datgelu effeithiol yn hollbwysig er mwyn sicrhau treial teg, ac yn cefnogi hyder y cyhoedd yn y ffordd y caiff cyfiawnder ei weinyddu. Fodd bynnag, gall ymchwiliadau sy'n cynnwys llawer o ddeunydd digidol gymryd llawer mwy o amser. Bydd trefn ddatgelu fodern sy'n adlewyrchu gwirioneddau ein hoes ddigidol yn ei gwneud yn haws i asiantaethau gorfodi'r gyfraith ac erlynwyr fynd â thwyllwyr i'r llys yn gyflymach.

56. Er mwyn targedu grwpiau troseddau cyfundrefnol difrifol sy'n cyflawni twyll yn well, bydd yr adolygiad annibynnol hefyd yn ystyried sut y gellir defnyddio darpariaethau o dan Ddeddf Troseddau Difrifol a Chyfundrefnol 2005 yn well i berswadio troseddwyr i achwyn ar gyd-droseddwyr a rhwydweithiau twyll drwy roi tystiolaeth i'r Goron.

57. Mae wedi bod yn anodd ac wedi cymryd llawer o amser i ymchwilwyr i bob math o drosedd gael data gan gwmnïau technoleg yn UDA. Mae hyn yn arbennig o wir am ymchwiliadau i dwyll sy'n dibynnu ar lawer iawn o ddata digidol. Rydym yn ei gwneud yn haws i erlynwyr gael gafael ar y dystiolaeth ddigidol sydd ei hangen i ganfod twyll ac ymchwilio iddo a sicrhau erlyniadau. Mae'r Cytundeb Mynediad at Ddata rhwng y DU ac UDA, a ddaeth i rym fis Hydref diwethaf, yn caniatáu i awdurdodau cyhoeddus yn y DU gael data yn uniongyrchol gan gwmnïau yn UDA, at ddiben atal troseddau difrifol, gan gynnwys twyll, eu canfod, ymchwilio iddynt a'u herlyn.

58. Bydd y Cytundeb yn newid y ffordd y gallwn frwydro yn erbyn troseddau difrifol yn y DU yn sylfaenol, drwy sicrhau y gellir cael gafael ar fwy o ddata, a hynny'n gyflymach nag erioed o'r blaen. Mae'r Cytundeb eisoes ar waith ac mae asiantaethau yn y DU ac UDA wedi gwneud dros 3,000 o geisiadau sydd eisoes wedi arwain at arestiadau a darganfyddiadau cudd-wybodaeth gan gynnwys ar gyfer ymgyrchoedd Gwrthderfysgaeth hollbwysig. Byddwn yn cyflwyno mynediad at y Cytundeb i'r holl asiantaethau perthnasol dros y 12 mis nesaf.

### *Mynd â mwy o dwyllwyr i'r llys*

59. Ar hyn o bryd, am bob 1000 o achosion o dwyll a gyflawnir, yn ôl amcangyfrifon, ceir un erlyniad llwyddiannus.[24] Gwyddom na roddir gwybod i asiantaethau gorfodi'r gyfraith am bob achos o dwyll. Hefyd, mae tystiolaeth

[24] Cyfrifwyd yn seiliedig ar y gymhareb rhwng nifer y dedfrydau (y Weinyddiaeth Gyfiawnder, y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mehefin 2022 = 3,411) ac amcangyfrif o'r digwyddiadau (Arolwg Troseddu Cymru a Lloegr, y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mehefin 2022 = 3,819,000). Nid yw'n cyfrif troseddwyr a gyflawnodd fwy nag un twyll na mwy nag un troseddwr a erlynwyd am yr un twyll.

ddigidol wedi cynyddu'n aruthrol[25], ac mae llawer mwy o droseddwyr wedi'u lleoli'n rhyngwladol. Yn anffodus, mae hyn yn golygu na fydd y rhan fwyaf o ddioddefwyr yn gweld cyfiawnder yn cael ei weinyddu, ac na chaiff y rhan fwyaf o dwyllwyr eu cosbi am eu troseddau. Er mwyn erlyn mwy o dwyllwyr yn llwyddiannus, rhaid gweithredu mewn modd cydgysylltiedig ym mhob rhan o'r system cyfiawnder troseddol.

60. Mae gwaddol y pandemig wedi cynyddu'r ôl-groniad o achosion sy'n mynd drwy'r llysoedd yn amserol. Mae'r Llywodraeth yn cydnabod yr effaith a gaiff oedi ar ddioddefwyr, tystion a diffynyddion, ac mae'n cymryd camau i leihau ôl-groniad cyffredinol Llys y Goron a fydd yn arwain at gyflymu pob math o achosion, gan gynnwys twyll. Yn ogystal â chael gwared ar derfynau ar gyfanswm nifer y diwrnodau eistedd yn Llys y Goron am yr ail flwyddyn yn olynol, rydym yn recriwtio tua 1,000 o farnwyr mewn gwahanol awdurdodaethau ac yn cymryd camau penodol gyda'r farnwriaeth i gynyddu gallu barnwrol yn y llysoedd troseddol sydd â'r llwythi achosion mwyaf. Byddwn yn recriwtio tua 2000 o ynadon newydd erbyn 2025.

61. Byddwn yn cynnal gwerthusiad llawn o gylch oes cyfan achos o dwyll, o roi gwybod am drosedd i benderfynu'r achos yn y llys. Byddwn yn defnyddio'r sylfaen dystiolaeth hon i ymgynghori ar atebion i gynyddu nifer a chyflymder yr achosion y rhoddir gwybod amdanynt i Action Fraud, a sicrhau bod mwy ohonynt yn mynd drwy'r system cyfiawnder troseddol, a hynny'n gyflymach.

62. Rydym yn parhau â'r gwaith arfaethedig i adeiladu Llysoedd Dinas Llundain, y disgwylir iddynt agor yn 2026. Bydd hyn yn ychwanegu capasiti Llys y Goron ychwanegol yn Llundain. Bydd y cynnydd hwn yn golygu y bydd modd gwrando hyd at 550 yn rhagor o achosion twyll, seiberdroseddau a throseddau economaidd bob blwyddyn.

63. Mae barnwyr ac ynadon sy'n gwrando achosion twyll yn cael hyfforddiant penodol gan y Coleg Barnwrol ar y ffyrdd gorau o ddelio ag achosion hir a chymhleth. Caiff yr hyfforddiant hwn ei adolygu'n rheolaidd er mwyn adlewyrchu newidiadau yn y gyfraith a natur yr achosion a ddaw ger bron y llysoedd. Gan weithio gyda'r farnwriaeth a'r Swyddfa Farnwrol, byddwn yn sicrhau bod system y llysoedd wedi'i pharatoi ar gyfer yr heriau unigryw sy'n gysylltiedig â thwyll a'r datblygiad yn natur y drosedd.

64. Er mwyn sicrhau yr ymdrinnir ag achosion llai difrifol o dwyll ar y lefel gywir ac nad ydynt yn ychwanegu'n ddiangen at lwythi achosion Llys y Goron, bydd yr

[25] An inspection into how well the police and other agencies use digital forensics in their investigations – Arolygiaeth Cwnstabliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Fawrhydi (HMICFRS) – Hafan (justiceinspectorates.gov.uk)

adolygiad annibynnol hefyd yn ystyried a ellir diweddaru Deddf Twyll 2006 i gynyddu nifer yr achosion o dwyll a gaiff eu gwrando gan Lysoedd Ynadon.

65. Byddwn hefyd yn adolygu'r cymorth sydd ar gael i reithwyr mewn achosion twyll cymhleth. Bydd y barnwr yn rhoi arweiniad a chymorth i reithwyr yn ystod treial, ond ceir ystyriaethau ymarferol hefyd, megis darparu technoleg, y mae erlynwyr eisoes yn ei defnyddio, er mwyn galluogi rheithwyr i ymwneud yn haws â deunydd tystiolaethol.

66. Hefyd, bydd gwella'r drefn ddatgelu yn lleihau'r risg y bydd achosion yn chwalu yn ystod y treial ac yn gwneud erlyniad llwyddiannus yn fwy tebygol. Mae heddluoedd ac erlynwyr yn cydweithio'n agosach â'i gilydd ac yn gynharach mewn ymchwiliadau er mwyn datblygu achosion cadarn ac atal twyllwyr rhag osgoi cyfiawnder.

### *Cosbau cymesur ac aildroseddu*

67. Daeth adolygiad ôl-ddeddfwriaethol o Ddeddf Twyll 2006[26] i'r casgliad ei bod yn ddarn cadarn o ddeddfwriaeth. Gwnaed rhai awgrymiadau defnyddiol ynglŷn â sut y gellid gwella'r fframwaith twyll ehangach. Nododd adroddiadau diweddar a luniwyd gan Dŷ'r Arglwyddi[27] a Thŷ'r Cyffredin[28] ei bod yn werth ailystyried rhai agweddau ar Ddeddf Twyll 2006. Felly, bydd ail gam yr adolygiad annibynnol o dwyll yn asesu effeithiolrwydd troseddau twyll er mwyn deall a ydynt yn ymateb i heriau twyll modern, gan sicrhau bod y cosbau am dwyll yn cyfateb i ddifrifoldeb y drosedd, a'i heffaith ariannol ac emosiynol ar ddioddefwyr.

68. Rydym yn ystyried ffyrdd amgen o fynd i'r afael â thwyll drwy bwerau sifil a gorchmynion atal. Mae'r Swyddfa Gartref yn ymgynghori ar ehangu'r defnydd o Orchmynion Atal Troseddau Difrifol (SCPOs) sydd eisoes yn bodoli. Mae SCPOs yn ddull pwerus o atal y troseddwyr mwyaf niweidiol sy'n ymwneud â throseddau difrifol fel twyll, gan gynnwys y rhai nad ydynt wedi cael euogfarn am drosedd, a tharfu ar eu gweithgareddau.

69. Rydym yn cynnig gwneud SCPOs yn fwy hygyrch ac yn haws eu rhoi, gan roi mwy o ddulliau i asiantaethau gorfodi'r gyfraith o gyfyngu ar weithgareddau troseddwyr difrifol a chyfundrefnol gan gynnwys twyllwyr. Caiff ymateb y Llywodraeth i'r ymgynghoriad hwn ei gyhoeddi ym mis Mehefin. Bydd yr adolygiad annibynnol hefyd yn ystyried cwmpas pwerau sifil pellach i fynd i'r afael â thwyll, gan gynnwys ystyried gorchymyn penodol ar gyfer twyll.

[26] Post-Legislative Assessment of the Fraud Act 2006 – Mehefin 2022
[27] Adroddiad Pwyllgor Dethol Tŷ'r Arglwyddi ar y Ddeddf Twyll a Thwyll Digidol – Tachwedd 2022
[28] Adroddiad y Pwyllgor Dethol ar Gyfiawnder – Twyll a'r System Gyfiawnder – Hydref 2023

70. Hefyd, mae CoLP yn gweithio gyda'r sector preifat ar gynllun peilot cyfyngedig i archwilio a all pwerau adennill dyledion sifil a phwerau eraill adennill mwy o arian dioddefwyr. Wrth i'r cynllun peilot hwn ddatblygu, byddwn yn adolygu a oes pwerau gorfodi sifil pellach y gellid eu defnyddio ar gyfer twyll.

71. Rhaid diwygio atebolrwydd troseddol corfforaethol er mwyn sicrhau y gellir dwyn cwmnïau i gyfrif yn well. Byddwn yn defnyddio'r Bil Troseddau Economaidd a Thryloywder Corfforaethol i gyflwyno trosedd gorfforaethol newydd, sef Methu ag Atal Twyll, lle y gellir erlyn sefydliad mawr pan fydd cyflogai yn cyflawni twyll y bydd y cwmni'n elwa arno, a lle na fydd y cwmni wedi rhoi gweithdrefnau rhesymol ar waith i atal y twyll. Bydd hyn yn achosi newid diwylliannol mawr o ran annog cwmnïau i wneud mwy i atal twyll, gan greu atebolrwydd i sefydliadau nad ydynt yn gwneud digon i atal twyll a gyflawnir gan gyflogeion. Bydd hyn yn rhoi mwy o ddiogelwch i'r cyhoedd gan y bydd cwmnïau'n rhoi mesurau ar waith i'w hatal rhag cael eu targedu.

**Astudiaeth achos**

Defnyddiodd y twyllwr rhamant toreithiog Frederick Diji wefannau chwilio am gariad i dwyllo 80 o ddioddefwyr gan arwain at golledion gwerth mwy na £400,000 rhwng 2005 a 2021. Gan ddefnyddio proffiliau ar-lein ffug, bu'n targedu pobl yn seiliedig ar eu rhywioldeb, oedran neu iechyd gwael. Ar ôl meithrin ymddiriedaeth dioddefwr yn y lle cyntaf, byddai'n dweud celwydd ac yn dylanwadu arnynt yn emosiynol i roi benthyg arian iddo. Cafodd un dioddefwr ei dwyllo dros gyfnod o 14 mlynedd, gan roi mwy na £100,000 i Fred yn ystod y cyfnod hwnnw. Bu ymchwilwyr yr heddlu'n gweithio'n galed i ddatgelu maint troseddau Fred ac, ar y cyd â Gwasanaeth Erlyn y Goron, gwnaethant lwyddo i lunio achos cadarn yn erbyn Fred, a llediodd yn euog a chafodd ddedfryd o wyth mlynedd o garchar.

# Piler 2: Rhwystro twyll

Rhaid i ni atal yr hwrdd o sgamiau sy'n bla ar ein gwlad ac atal twyllwyr rhag ceisio gwneud dioddefwyr o bob un ohonom. Yn ôl Cyngor ar Bopeth, caiff dau o bob tri o oedolion eu targedu gan dwyll ar-lein, ac mae gwaith ymchwil Ofcom yn dangos bod mwy na 40 miliwn o oedolion yn y DU wedi cael eu targedu gan o leiaf un neges destun neu alwad ffôn dwyllodrus mewn dim ond tri mis yn 2022.[29] Gallwn roi terfyn ar hyn drwy fynd i'r afael â thwyll yn y man cychwyn a sicrhau y caiff pob rhan o'r system ei chymell i gymryd twyll o ddifrif, gan gynnwys diwydiant.

72. Mae'n afresymol disgwyl i'r cyhoedd fod yn hynod wyliadwrus o dwyll drwy'r amser. Ein hamddiffyniad gorau yw atal ymgeisiau i dwyllo rhag cyrraedd pobl a busnesau cyn i'r troseddwyr sy'n gyfrifol amdanynt achosi niwed i ddioddefwr.

73. Mae twyllwyr yn defnyddio technoleg a dulliau cyfathrebu sy'n hollbresennol mewn bywyd beunyddiol. Yn ogystal â negeseuon testun, galwadau ffôn a negeseuon e-bost twyllodrus, mae'r tactegau'n cynnwys dylanwadu ar bobl yn emosiynol drwy'r cyfryngau cymdeithasol, hysbysebion ffug a chreu gwefannau ffug sy'n dynwared brandiau neu wasanaethau cyfleustodau adnabyddus a dibynadwy. Nid yn unig rydym yn colli arian i dwyllwyr, ond mae eu gweithredoedd hefyd yn peri i ni golli ymddiriedaeth fel ein bod yn dechrau cwestiynu negeseuon go iawn, gan ei gwneud yn anos i wasanaethau a busnesau dilys gysylltu â ni.

[29] Rheolau newydd Ofcom i ymladd twyll rhifau ffug - Ofcom

**Astudiaeth achos**

Gwnaeth Sarah*, sy'n gynorthwyydd addysgu a oedd yn mynd drwy ysgariad, gwrdd â dyn ar wefan cyfryngau cymdeithasol ym mis Ionawr 2022. Dywedodd y dyn hwn ei fod yn Americanwr ac yn ennill cyflog uchel yn gweithio i gorfforaeth ryngwladol sy'n werth miliynau o bunnau. Honnodd ei fod tua'r un oed â Sarah, yn rhannu'r un arwydd Sidydd â hi, ac wedi cael ei fabwysiadu, fel Sarah. Wedyn, gwnaethant ddechrau cyfathrebu drwy e-bost, a nifer o gyfrifon ar wasanaethau negeseua gwib, a cheisiodd Sarah drosglwyddo £9,000 i'r rhai a oedd yn ei thargedu. Rhewodd banc Sarah y trafodiad wrth iddo ymchwilio i'r mater, ond llwyddodd y twyllwyr i berswadio Sarah i drosglwyddo'r arian drwy ddulliau eraill.

*Mae'r enw wedi cael ei newid

74. Mae'r amrywiaeth o ddulliau y bydd twyllwr yn eu defnyddio i dwyllo'r cyhoedd yn golygu y bydd angen ymateb cydgysylltiedig gan y Llywodraeth a diwydiant, a rhaid cymell pob rhan o'r system i weithredu. Yn aml, cwmnïau telathrebu a thechnoleg sy'n darparu'r seilwaith neu'r gwasanaeth lle y bydd y twyllwr yn cysylltu gyntaf â'r dioddefwr, a lle y bydd yn ei berswadio i wneud taliadau. Y sector ariannol sy'n gweithredu'r cyfrifon a'r systemau talu sy'n hwyluso'r colli arian. Felly, rydym wedi canolbwyntio ein gweithgarwch ar y tri sector hyn.

## Camau gweithredu ar gyfer diwydiant

- **Penodi Anthony Browne AS i rôl newydd Hyrwyddwr Gwrth-dwyll er mwyn arwain y gwaith o gyflawni'r strategaeth a chynyddu cydweithrediad gan ddiwydiant.**
- **Cyhoeddi data rheolaidd newydd ar batrymau twyll er mwyn helpu i hysbysu defnyddwyr.**
- **Mesur effaith diwydiant ar atal twyll drwy'r Tasglu Twyll ar y Cyd (JFT) a phennu targedau gwirfoddol newydd i gwmnïau ar gyfer lleihau twyll.**
- **Cytuno ar siarter newydd gyda chwmnïau technoleg erbyn diwedd haf 2023.**
- **Gweithio gyda chwmnïau technoleg er mwyn cyflwyno system syml, ddi-dor a chyson ar gyfer rhoi gwybod am dwyll.**
- **Rhoi'r Siarteri Sectorau Twyll presennol ar waith erbyn diwedd 2023.**
- **Cytuno ar siarteri newydd gyda'r sector yswiriant a sectorau eraill erbyn dechrau 2024.**

75. Rhaid i ddiwydiant, y Llywodraeth, asiantaethau gorfodi'r gyfraith a rheoleiddwyr barhau i gydweithio â'i gilydd er mwyn ei gwneud mor anodd â phosibl i dwyllwyr weithredu. Mae cwmnïau mewn sefyllfa unigryw i ddiogelu cwsmeriaid rhwng twyll.

76. Mae diwydiant wedi cymryd camau i atal twyll a cheir enghreifftiau lle mae hyn wedi cael effaith gadarnhaol. Er enghraifft, mae'r Protocol Bancio wedi atal llawer o'r rhai sydd wrthi'n dioddef twyll bancio anawdurdodedig rhag trosglwyddo arian i droseddwyr. Mae cyflwyno atebion hidlo SMS, y cytunwyd arnynt drwy'r Siarter Telathrebu, sef cytundeb gwirfoddol a lofnodwyd gan y sector (gweler rhagor o wybodaeth am siarteri isod), wedi atal llawer o negeseuon testun twyllodrus rhag cyrraedd y cyhoedd. Mae rhai cwmnïau technoleg mawr wedi cyflwyno gwiriadau er mwyn sicrhau ei bod yn rhaid i gwmnïau sy'n hysbysebu buddsoddiadau ariannol gofrestru â'r Awdurdod Ymddygiad Ariannol (FCA).

77. Ond nid yw'r llwyddiannau hyn yn ddigon. Er y gall diwydiant atal niwed yn wirfoddol ac atgyfnerthu hyder defnyddwyr yn eu priod farchnadoedd ar yr un pryd, nid yw'r newidiadau'n digwydd ar yr un pryd â'i gilydd ac mae rhai diwydiannau wedi gwneud mwy nag eraill.

### *Hyrwyddwr Gwrth-dwyll*

78. Mae gweithio gyda phob partner, gan gynnwys diwydiant, yn sylfaen allweddol ar gyfer ein hymdrechion i atal twyll. Mae'n bwysig tu hwnt bod y cydweithio hwn yn effeithiol ac yn ddi-dor.

79. Felly, rydym wedi penodi Anthony Browne AS i lywio'r cydweithio â busnesau yn y DU ac ym mhob rhan o'r byd, er mwyn sicrhau bod pob partner allweddol yn chwarae ei ran. Yn ei rôl fel Hyrwyddwr Gwrth-dwyll, bydd gan Anthony yr awdurdod i sicrhau bod y DU ar flaen y gad ar y llwyfan rhyngwladol o ran mynd i'r afael â thwyll a chyflawni nodau strategol allweddol. Gan mai ef oedd Prif Swyddog Gweithredol blaenorol Cymdeithas Bancio Prydain, a chan ei fod yn aelod o Bwyllgor Dethol y Trysorlys ar hyn o bryd, mae gan Anthony y profiad a'r wybodaeth am dwyll a diwydiant i symud y gwaith hwn yn ei flaen.

### *Cymell Camau Gweithredu*

80. Drwy daflu goleuni ar ble y daw defnyddwyr ar draws twyll, byddwn yn cymell y llwyfannau a'r gwasanaethau hynny sy'n cael eu camddefnyddio gan dwyllwyr i wneud mwy er mwyn diogelu defnyddwyr. Byddwn yn gofyn i fanciau adrodd ar ddata penodedig am gyfraddau twyll awdurdodedig i'r Rheoleiddiwr Systemau Talu. Gan gydweithio â rheoleiddwyr ac ym mhob rhan o'r Llywodraeth, byddwn yn cyhoeddi data rheolaidd am batrymau twyll er mwyn helpu i hysbysu defnyddwyr a sicrhau bod cwmnïau yn ogystal â banciau yn atebol am atal twyll rhag digwydd yn y lle cyntaf. Bydd y Llywodraeth yn gofyn i'r Hyrwyddwr Gwrth-dwyll newydd weithio gyda diwydiant, gan gynnwys cwmnïau'r cyfryngau cymdeithasol a chwmnïau telathrebu, er mwyn sicrhau y caiff cwmnïau eu cymell yn briodol i frwydro yn erbyn twyll ac archwilio pob dull o wneud hynny.

### *Tasglu Twyll ar y Cyd*

81. Mae'r Llywodraeth yn gweithio mewn partneriaeth â diwydiant i atal twyll drwy'r Tasglu Twyll ar y Cyd (JFT). Caiff ei gadeirio gan y Gweinidog Diogelwch ac mae'n dwyn arweinwyr ynghyd o'r Llywodraeth, asiantaethau gorfodi'r gyfraith, rheoleiddwyr, diwydiant a chymdeithas sifil sy'n ymrwymedig i gydweithio â'i gilydd i atal twyll. Cafodd ei ail-lansio ym mis Hydref 2021 ac mae'n llywodraethu rhaglen y Siarteri Sectorau Twyll. Mae'r JFT yn gweithio ar lefel byrddau a swyddogion mewn sawl ffrwd waith gan gynnwys cyfathrebu, twyll ar-lein a dioddefwyr. Mae cofnodion y cyfarfodydd ar gael yn: www.gov.uk/government/collections/joint-fraud-taskforce.

82. Ym mis Tachwedd 2022, cytunodd y JFT i gydweithio er mwyn mesur effaith gwaith diwydiant i atal twyll. Ar ôl i linell sylfaen gael ei chadarnhau, byddwn yn pennu targedau gwirfoddol er mwyn i gwmnïau leihau twyll.

### *Siarteri Sectorau Twyll*

83. Cytundebau gwirfoddol rhwng diwydiant a'r Llywodraeth i wella ymdrechion gwrth-dwyll yw Siarteri Sectorau Twyll. Drwy'r siarteri, byddant yn cynnal prosiectau, cynlluniau peilot, adolygiadau polisi a gwaith ymchwil penodol er mwyn deall ac atal twyll yn well yn y sectorau sydd wedi'u llofnodi. Ceir siarteri yn y sectorau bancio manwerthol, cyfrifyddiaeth a thelathrebu yn barod.

84. Ein blaenoriaeth yw cytuno ar Siarter Twyll Ar-lein newydd gyda chwmnïau technoleg. Mae hyn yn hanfodol oherwydd bygythiad cynyddol twyll ar-lein, yn ogystal â throseddwyr sy'n camddefnyddio technoleg arloesol i gyflawni twyll. Un enghraifft ddiweddar yw datblygiad modelau iaith mawr Deallusrwydd Artiffisial fel ChatGPT, Bing a Bard a all fod yn fodd i dwyllwyr anfon negeseuon a gwneud galwadau twyllodrus cynyddol berswadiol. Fel rhan o'n hymgysylltu parhaus â'r sector technoleg, rydym yn bwriadu gweithio'n agos gyda darparwyr i sicrhau bod atal twyll yn parhau i fod yn flaenoriaeth.

85. Mae'r Llywodraeth eisoes yn gweithio gyda'r sector technoleg ar y Siarter Twyll Ar-lein newydd a gaiff ei chyflawni erbyn diwedd haf 2023. Rydym wedi gofyn i ddiwydiant wneud y canlynol fel rhan o'r siarter hon:

   - Rhannu data'n well â'r Llywodraeth a phartneriaid eraill yn y sector preifat er mwyn canfod a rhwystro achosion o dwyll.
   - Sicrhau y caiff pawb sy'n hysbysebu ymgyrchoedd hyrwyddo ariannol eu croesgyfeirio yn erbyn y rhestr sydd wedi'i hawdurdodi gan yr FCA cyn eu cyhoeddi. Ar ôl ymgysylltu â'r Llywodraeth, mae LinkedIn wedi cytuno i ddefnyddio'r rhestr sydd wedi'i hawdurdodi gan yr FCA ochr yn ochr â chwmnïau eraill fel Google, sydd wedi gweld lleihad o bron i 100% mewn hysbysebion twyllodrus y telir amdanynt ar gyfer

  cynhyrchion gwasanaethau ariannol ers dechrau defnyddio rhestr yr FCA.
- Nodi beth yn rhagor y gallant ei wneud i gefnogi ymdrechion asiantaethau gorfodi'r gyfraith i fynd i'r afael â thwyll ar-lein, megis buddsoddi mewn uned twyll ar-lein arbenigol ym maes gorfodi'r gyfraith.
- Symleiddio a chynyddu addysg ar wrth-dwyll i'r cyhoedd er mwyn eu helpu i sylwi ar dwyll a'i osgoi yn well, a cheisio cymorth pan fo angen.

86. Rydym am ei gwneud mor syml â phosibl i ddefnyddwyr roi gwybod am dwyll pan fyddant yn ei weld ar-lein. Mae hyn yn cynnwys hysbysebion twyllodrus, cymeradwyaeth ffug gan enwogion a phroffiliau defnyddwyr ffug. Mewn trafodaethau â'r Llywodraeth, mae llawer o'r cwmnïau technoleg mwyaf wedi ymrwymo i wneud y broses hon mor ddi-dor a chyson â phosibl. Mae hyn yn golygu, ni waeth ar ba lwyfan cyfryngau cymdeithasol neu wefan y byddwch, dylech allu dod o hyd i'r botwm ‘rhoi gwybod’ o fewn un clic, ac yna gallu dewis ‘rhoi gwybod am dwyll neu sgamiau’. Caiff y wybodaeth hon ei hanfon yn uniongyrchol i gwmnïau technoleg er mwyn iddynt ymchwilio i unrhyw gynnwys twyllodrus nad yw wedi cael ei ddarganfod, a'i ddileu'n gyflym, gan atal sgamwyr rhag twyllo mwy o ddefnyddwyr yn y lle cyntaf. Er enghraifft, mae TikTok a SnapChat eisoes yn cynnig ffordd gyflym a di-dor o roi gwybod am hysbysebion, ond maent wedi ymrwymo i ymestyn hyn i fathau eraill o gynnwys.

87. Mae'r Llywodraeth yn gweithio gyda TechUK i annog cwmnïau technoleg, yn ogystal â gwasanaethau hysbysebu cyfryngol, i wneud yr un peth. Byddwn yn monitro cynnydd yn ofalus ac yn ystyried ei gwneud yn orfodol i bob cwmni technoleg gynnig dull syml, di-dor a chyflym o roi gwybod am dwyll os na wneir cynnydd digonol tuag at hyn yn wirfoddol.

88. Mae tair siarter sector ar hyn o bryd:

- Cytunodd y diwydiant bancio manwerthol, a gynrychiolir gan UK Finance, ar siarter sy'n canolbwyntio ar atal twyll awdurdodedig. Ymhlith y camau gweithredu roedd rhannu sylfaen dystiolaeth ynghylch man cychwyn ymgeisiau i gyflawni twyll, datblygu dull cyffredin o atal bygythiad mulod arian, a rhoi mesurau ar waith i wella cymorth i ddioddefwyr.
- Roedd y siarter gyfrifyddiaeth yn canolbwyntio ar ddatblygu darlun cudd-wybodaeth o dwyll sy'n effeithio ar y sector. Roedd y camau gweithredu'n canolbwyntio ar gynnal asesiad gorfodi'r gyfraith o risg yn y sector, codi ymwybyddiaeth a newid ymddygiad cwsmeriaid.
- Mae'r siarter delathrebu'n nodi sut y bydd y sector, mewn cydweithrediad â'r Llywodraeth a rheoleiddwyr, yn cynnal rhaglen uchelgeisiol o waith i atal twyll a gaiff ei hwyluso gan delathrebu. Mae

hyn yn cynnwys rhwystro negeseuon testun twyllodrus. Mae'r sector eisoes wedi cyflwyno waliau tân sy'n canfod ac yn atal negeseuon testun twyllodrus rhag cyrraedd cwsmeriaid. Hefyd, mae'r waliau tân yn monitro ac yn atal “maleiswedd FluBot” a gaiff ei defnyddio gan droseddwyr i heintio a meddiannu ffôn dioddefwr er mwyn dwyn manylion cardiau credyd neu ddebyd. Mae'r waliau tân wedi atal 600 miliwn o negeseuon testun twyllodrus ers mis Ionawr 2022. Wrth i dwyllwyr ddod o hyd i ffyrdd newydd o geisio cyrraedd cwsmeriaid, mae gweithredwyr telathrebu'n parhau i weithio er mwyn gwella'r hidlyddion hyn ymhellach. Mae'r siarter delathrebu hefyd yn cynnwys mesurau i atal galwadau ffôn amheus, mynd i'r afael â dwyn hunaniaeth, ac atal sgamiau cyfnewid SIM.

89. Bydd y Llywodraeth yn sicrhau cytundeb ynghylch siarteri gyda sectorau allweddol eraill yn yr ecosystem dwyll, gan gynnwys y sector yswiriant, erbyn dechrau 2024.

## Rheoleiddio er mwyn atal troseddwyr rhag camddefnyddio technoleg

- **Dwyn cwmnïau technoleg i gyfrif am leihau twyll ar-lein a rhoi dirwyon sylweddol am y rhai nad ydynt yn gwneud hynny, drwy basio a gweithredu'r Bil Diogelwch Ar-lein.**
- **Ymestyn y gwaharddiad ar alwadau diwahoddiad i gwmpasu pob cynnyrch ariannol a buddsoddi.**
- **Gwahardd ffermydd SIM er mwyn ei gwneud mor anodd â phosibl i droseddwyr anfon negeseuon testun twyllodrus a gwneud galwadau ffôn twyllodrus.**
- **Adolygu'r defnydd o gydgasglwyr negeseuon testun torfol ac archwilio trefniadau cofrestru defnyddwyr y gwasanaethau hyn.**
- **Ar y cyd ag Ofcom, tarfu ar fwy o sgamiau a gyflawnir dros y ffôn drwy atal mwy o alwadau dynwared.**
- **Cyflawni Rhaglen Hysbysebu Ar-lein er mwyn sicrhau bod hysbysebu ar-lein ar gyfer cynulleidfaoedd yn y DU yn ddiogel rhag twyll a mathau eraill o niwed.**

90. Byddwn yn darganfod twyll ar lwyfannau cyfryngau cymdeithasol. Bydd yn ofynnol yn ôl y gyfraith i lwyfannau rhwng defnyddwyr roi systemau ar waith i atal cynnwys twyllodrus rhag ymddangos ar eu llwyfannau. Mae hyn yn cynnwys hysbysebion twyllodrus a chymeradwyaeth ffug gan enwogion. Byddwn yn gwneud hyn drwy'r Bil Diogelwch Ar-lein ac yn gweithio i sicrhau mai'r DU yw'r lle mwyaf diogel yn y byd i fod ar-lein.

91. Drwy'r Bil Diogelwch Ar-lein, caiff defnyddwyr y rhyngrwyd eu diogelu'n well rhag hysbysebion twyllodrus a sgamiau ar-lein. Bydd y Bil Diogelwch Ar-lein

yn ei gwneud yn ofynnol i lwyfannau ‘rhwng defnyddwyr’, megis y cyfryngau cymdeithasol, yn ogystal â gwasanaethau chwilio, roi systemau a phrosesau ar waith i fynd i'r afael â thwyll lle y caiff ei hwyluso drwy gynnwys wedi'i greu gan ddefnyddwyr neu drwy ganlyniadau chwilio. Hefyd, bydd angen i'r llwyfannau mwyaf sydd o fewn y cwmpas atal hysbysebion twyllodrus rhag ymddangos ar eu gwasanaethau, gan gynnwys lle y bydd troseddwyr yn dynwared enwogion neu gwmnïau er mwyn hysbysebu buddsoddiadau ariannol ffug. Bydd Codau Ymarfer cadarn, wedi'u paratoi gan Ofcom, yn nodi sut y gall gwasanaethau sydd o fewn y cwmpas gydymffurfio â'r dyletswyddau hyn. Gyda'i gilydd, mae'r rhain yn ddyletswyddau sylweddol newydd ar lwyfannau'r rhyngrwyd, sy'n eu gorfodi i gymryd twyll o ddifrif a'i gwneud yn anos i dwyllwyr ddefnyddio'r gwasanaethau hyn i dwyllo cyhoedd y DU, neu wynebu dirwyon sylweddol os na fyddant yn cymryd camau digonol.

92. O dan y drefn newydd, bydd uwch-gwynion yn fodd i godi pryderon ynglŷn â phroblemau systemig mewn perthynas â gwasanaethau penodol gyda'r rheoleiddiwr, a bydd yn ofynnol i'r rheoleiddiwr ymateb iddynt yn gyhoeddus.

93. Byddwn yn ymestyn y gwaharddiad ar alwadau diwahoddiad i gwmpasu pob cynnyrch ariannol. O dan Ddeddf Cyfarwyddyd Ariannol a Hawliadau 2018, mae'r Llywodraeth hon eisoes wedi gwahardd galwadau diwahoddiad gan gwmnïau anafiadau personol a darparwyr pensiynau (oni fydd defnyddwyr wedi cytuno'n benodol iddynt gysylltu â nhw). Ond rydym am wneud mwy i atal pobl rhag dioddef yn sgil galwadau diwahoddiad a byddwn yn ymgynghori ar waharddiad ehangach ar alwadau diwahoddiad erbyn yr haf, gan ei roi ar waith cyn gynted â phosibl, fel na all twyllwyr dwyllo pobl i brynu buddsoddiadau neu gynhyrchion ariannol ffug. Mae hyn yn golygu y bydd y cyhoedd yn gwybod mai sgam yw galwadau diwahoddiad am gynhyrchion ariannol, ac y dylent fod yn ddigon hyderus i roi'r ffôn i lawr os byddant yn cael un o'r galwadau hyn.

**Astudiaeth achos**

Ym mis Chwefror 2023, cafodd pâr priod eu dedfrydu i naw mlynedd o garchar am sgam buddsoddi a oedd yn defnyddio galwadau diwahoddiad, lle y collodd dioddefwyr fwy na £2.7 miliwn. Roedd Clint Canning ac Eleise Wallace yn rhedeg Base 2 Trade, sef cwmni a oedd yn honni ei fod yn cynnig gwasanaeth betio ods sefydlog ar berfformiad masnachu busnes. Byddai'r cwmni'n cysylltu â buddsoddwyr oedrannus neu ddibrofiad drwy alwadau diwahoddiad gan ddefnyddio porth ar y rhyngrwyd i ddangos elw ymddangosiadol fel y byddai llawer o ddioddefwyr yn buddsoddi mwy.

Pan fyddai buddsoddwyr yn ceisio codi eu harian, byddai'r cwmni'n gwneud esgusodion, yn eu hanwybyddu, neu'n dweud wrthynt nad oedd modd gwneud hynny. Wedyn, byddai'r porth yn dangos colledion anferth ar y buddsoddiadau a bod yr arian i gyd wedi mynd o'u cyfrifon. Byddai'r arian wedi cael ei guddio mewn cyfrifon tramor.

94. Byddwn yn gwahardd ffermydd SIM. Blychau electronig sy'n gallu dal cannoedd o gardiau SIM yw'r rhain, ac mae troseddwyr yn eu defnyddio i anfon miloedd o negeseuon testun twyllodrus mewn eiliadau. Er mai ar gyfer negeseuon testun twyllodrus y cânt eu defnyddio amlaf, gwyddom eu bod hefyd yn cael eu defnyddio i anfon negeseuon testun i farchnata cyffuriau ac i ariannu troseddau cyfundrefnol. Ar hyn o bryd, mae'n hawdd ac yn gyfreithlon eu prynu ar-lein, ond nid ydym wedi dod o hyd i'r un defnydd cyfreithlon i ffermydd SIM yn y DU. Byddwn yn gwahardd ffermydd SIM ac rydym wedi lansio ymgynghoriad ar y ffordd orau o wneud hyn, gyda'r bwriad o ddeddfu pan fydd amser seneddol yn caniatáu hynny. Caiff hyn ei groesawu'n fawr gan y diwydiant telathrebu yn arbennig, gan fod ei rwydweithiau'n cael eu camddefnyddio drwy ffermydd SIM, gan arwain at golli arian.

95. Byddwn yn adolygu'r defnydd o gydgasglwyr negeseuon testun torfol ac archwilio trefniadau cofrestru defnyddwyr y gwasanaethau hyn. Er bod llawer o ffyrdd cyfreithlon o ddefnyddio gwasanaethau anfon negeseuon testun torfol, fel archebu byrddau mewn bwytai, negeseuon atgoffa am apwyntiadau a rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am nwyddau sy'n cael eu danfon, ceir rhywfaint o dystiolaeth sy'n awgrymu bod troseddwyr yn camddefnyddio'r gwasanaethau hyn. Rydym yn gweithio gydag asiantaethau gorfodi'r gyfraith i ddatblygu asesiad o'r bygythiad a deall rôl y gwasanaethau hyn yn yr ecosystem dwyll. Byddwn yn cynnal adolygiad cyflym o'r farchnad erbyn yr haf ac yn gweithredu'n gyflym ar sail hynny.

96. Byddwn yn tarfu ar allu twyllwyr i ddynwared rhifau ffôn o'r DU. Bydd troseddwyr yn aml yn ffugio neu'n ‘dynwared’ rhifau ffôn er mwyn cuddio pwy ydyn nhw wrth ffonio dioddefwyr posibl ac anfon negeseuon testun atynt, er mwyn esgus eu bod yn cynrychioli sefydliad dilys, fel ein banciau neu un o asiantaethau'r Llywodraeth. Ym mis Mai, bydd rheolau newydd atgyfnerthedig yn dod i rym a fydd yn ei gwneud yn ofynnol i bob rhwydwaith ffôn sy'n ymwneud â throsglwyddo galwadau – naill ai i ffonau symudol neu linellau tir – er mwyn adnabod a rhwystro galwadau sy'n dynwared, i'r graddau y mae'r dechnoleg sydd ar gael yn caniatáu. Mae Ofcom hefyd wedi gosod disgwyliadau clir o ran y camau y dylai cwmnïau ffôn eu cymryd, yn unol â'u rhwymedigaethau, i atal rhifau ffôn dilys rhag cael eu camddefnyddio, ac mae'n disgwyl bod gan y cwmnïau broses ar gyfer ymateb i achosion posibl o gamddefnydd y rhoddir gwybod amdanynt.

97. Rydym yn cydnabod na fydd y mesurau hyn yn atal yr holl alwadau dynwared, ac y bydd sgamwyr yn parhau i addasu eu tactegau. Bydd Ofcom yn monitro effaith y mesurau hyn ac yn adolygu'r holl opsiynau'n barhaus er mwyn gweithredu'n llym mewn ymateb i alwadau dynwared. I'r perwyl hwnnw, lansiodd Ofcom ymgynghoriad ym mis Ebrill er mwyn ystyried y syniad o gyflwyno technoleg dilysu Adnabod Llinellau Galwadau (CLI) (a mesurau eraill) fel y gall cwmnïau ffôn ardystio bod y rhif ffôn sy'n cael ei ddefnyddio i wneud galwad yn ddilys. Bydd mesurau fel hyn yn cynnig ateb mwy cynhwysfawr i fynd i'r afael â galwadau dynwared.

98. Bydd y Rhaglen Hysbysebu Ar-lein yn adeiladu ar ofynion y Bil Diogelwch Ar-lein mewn perthynas â hysbysebu twyllodrus. Bydd yn ceisio atgyfnerthu'r fframwaith rheoleiddio presennol ar gyfer hysbysebion ar-lein y telir amdanynt i leihau niwed, megis hysbysebion twyllodrus a maleisus. Mae'r Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon (DCMS) yn ymrwymedig i fynd i'r afael â'r niwed sy'n peri'r pryder mwyaf a gaiff ei hwyluso gan hysbysebu ar-lein, gan gynnwys twyll, drwy becyn o ddiwygiadau deddfwriaethol ac anneddfwriaethol uchelgeisiol.

## Bydd cwmnïau ariannol yn diogelu eu cwsmeriaid yn well

- **Galluogi darparwyr gwasanaethau talu i fabwysiadu dull newydd sy'n seiliedig ar risg o roi amser ychwanegol i ymchwilio i daliadau a allai fod yn dwyllodrus.**
- **Bydd yr FCA yn cynnal asesiadau o systemau a rheolaethau twyll cwmnïau ariannol.**

99. Mae cwsmeriaid a busnesau wedi cael llawer o fudd o fancio ar-lein a gallu gwneud taliadau'n gyflym. Ar yr un pryd, mae twyllwyr wedi ceisio manteisio ar hwylustod gwneud taliadau i dwyllo unigolion a busnesau a symud arian yn gyflym er mwyn atal arian a gollwyd rhag cael ei ddychwelyd yn llwyddiannus.

100. Mewn ymateb i hyn, o dan oruchwyliaeth rheoleiddwyr, mae'r sector ariannol wedi buddsoddi mewn adnoddau a thechnolegau newydd er mwyn canfod a rhwystro taliadau amheus yn well. Y mentrau allweddol sydd wedi cael eu datblygu er mwyn helpu i atal twyll yw:

    - **Trefniadau Cadarn ar gyfer Dilysu Cwsmeriaid –** pan fydd cwsmeriaid yn prynu rhywbeth neu'n gwneud taliad ar-lein, mae Rheoliadau Gwasanaethau Talu 2017 yn mandadu y dylai pob darparwr gwasanaethau talu wirio manylion adnabod eu cwsmeriaid. Mae hyn yn helpu i atal twyllwyr rhag gwneud taliadau anawdurdodedig gan ddefnyddio manylion rhywun arall.

- **Cadarnhau'r Talai** – gwasanaeth gwirio sy'n golygu y gall talwr weld a yw enw'r talai yn cyfateb i fanylion cyfrif y sawl y mae'n credu ei fod yn anfon arian ato. Mae'r Rheoleiddiwr Systemau Talu (PSR) wedi rhoi sawl cyfarwyddyd i ymestyn cyrhaeddiad prosesau Cadarnhau'r Talai o fewn diwydiant i fwy na 400 o gwmnïau.
- **Y Protocol Bancio** – menter diwydiant a arweinir gan UK Finance, lle y caiff staff eu hyfforddi i sylwi pan fydd cwsmer ar fin dioddef twyll awdurdodedig a gweithio gyda'r heddlu i'w argyhoeddi i beidio â gwneud y taliad.

101. Mae'r Llywodraeth, rheoleiddwyr a diwydiant yn cydweithio â'i gilydd i ddod o hyd i gyfleoedd i rannu mwy o wybodaeth er mwyn mynd i'r afael â thwyll yn well ymhellach i ffwrdd o'r cwsmer. Mae'r PSR wedi galw am safonau cyffredin ar dynnu sylw at daliadau peryglus er mwyn gallu cymharu data. Mae hefyd wedi sefydlu gweithgor diwydiant, sy'n cynnwys Pay.UK ac UK Finance, i gytuno ar ba ddata y gellid eu rhannu. Yn ogystal â hyn, mae mentrau'n dal i fynd rhagddynt mewn diwydiant i rannu data. Mae'r Llywodraeth a rheoleiddwyr ariannol yn croesawu'r camau sy'n cael eu cymryd i rannu gwybodaeth berthnasol a defnyddio'r data hyn i atal twyll rhag digwydd yn y lle cyntaf.

102. Er y dylai rhannu data fod yn fodd i ganfod taliadau amheus mewn amser real yn y mwyafrif helaeth o achosion, mae'r Llywodraeth a rheoleiddwyr ariannol yn cydnabod y gall fod yn fuddiol mewn nifer bach o achosion i daliadau gael eu dal y tu hwnt i'r amserlenni arferol sydd wedi'u pennu mewn deddfwriaeth er mwyn diogelu cwsmeriaid yn well. Mae'r Llywodraeth yn ystyried sut y gallai fod angen newid deddfwriaeth er mwyn cyflawni hyn ac wedi cynnal ymgynghoriad yn ddiweddar ar y ffordd orau o alluogi darparwyr gwasanaethau talu i brosesu taliadau i mewn ac allan mewn ffordd sy'n seiliedig ar risg. Byddai dull o'r fath yn rhoi amser ychwanegol i ymchwilio i daliadau a allai fod yn dwyllodrus, ac i ymgysylltu â chwsmeriaid a hyd yn oed asiantaethau gorfodi'r gyfraith cyn i daliad gael ei wneud. Caiff hyn ei wneud gan sicrhau cyn lleied â phosibl o effeithiau ar lifau talu dilys.

103. Mae mynd i'r afael â throseddau ariannol, a thwyll Taliadau Gwthio Awdurdodedig (APP) yn fwy penodol, yn parhau i fod yn flaenoriaeth i'r FCA ac mae'n parhau i fynd ati'n rhagweithiol i ystyried amrywiaeth o fentrau polisi posibl i fynd i'r afael â maint y mathau hyn o droseddau, a'r effeithiau sy'n gysylltiedig â nhw, a hynny ar gyfer dioddefwyr ac ar gyfer y cwmnïau y mae'n eu rheoleiddio.

104. Yn ogystal â'i waith polisi, ers mis Ionawr 2020 yr FCA yw'r goruchwyliwr gwrth-wyngalchu arian ar gyfer cwmnïau asedau crypto ac mae'r rheolau sy'n

berthnasol i'r cwmnïau hyn wedi cael eu diweddaru'n ddiweddar, gan gynnwys er mwyn bod yn gyson â safonau rhyngwladol atgyfnerthedig.

105. Mae'r PSR yn rhoi pecyn eang o fesurau ar waith er mwyn helpu i fynd i'r afael â bygythiad twyll awdurdodedig, gan gynnwys mesurau i wella tryloywder drwy ei gwneud yn ofynnol i'r 12 grŵp mwyaf o ddarparwyr gwasanaethau talu ym Mhrydain Fawr a'r ddau fwyaf yng Ngogledd Iwerddon i ddarparu data am eu perfformiad mewn perthynas â thwyll APP.

## Diogelu pobl ar-lein ar raddfa

- **Bydd yr NCSC yn parhau i atal deunydd ac ymosodiadau twyllodrus rhag cyrraedd pobl ac yn ymchwilio i gyfleoedd pellach gyda diwydiant i leihau nifer y sgamiau sy'n cyrraedd y cyhoedd.**
- **Bydd hyb cenedlaethol newydd "Rhannu ac Amddiffyn" yr NSCS yn atal miliynau o ymgeisiau i dwyllo rhag cyrraedd defnyddwyr yn y lle cyntaf.**
- **Ymgynghori ar greu pwerau newydd i asiantaethau gorfodi'r gyfraith feddiannu a chau gwefannau twyllodrus a throseddol.**

106. Byddwn yn cau mwy o wefannau twyllodrus drwy ehangu cylch gwaith y Ganolfan Seiberddiogelwch Genedlaethol (NCSC) i weithio gyda sefydliadau ariannol a chwmnïau technoleg. Ar hyn o bryd, mae'r NCSC yn gweithio gyda darparwyr gwasanaethau rhyngrwyd a gweithredwyr rhwydweithiau ffôn i chwilio'r rhyngrwyd am wefannau maleisus a'u rhannu â diwydiant mewn amser real fel bod modd eu cau. Bydd yr NCSC bellach yn rhannu ei chanfyddiadau â chwmnïau ariannol a chwmnïau technoleg er mwyn atal mwy o dwyll.

107. Mae'r rhyngrwyd wedi cynnig cyfleoedd newydd i droseddwyr a'r rhai sy'n peri bygythiad i ddiogelwch gwladol, ond mae hefyd yn cynnig cyfleoedd i gadw'r cyhoedd yn ddiogel. Mae'r NCSC, sy'n rhan o Bencadlys Cyfathrebu'r Llywodraeth (GCHQ), yn arwain gwaith y Llywodraeth i ddiogelu dinasyddion a sefydliadau ar-lein – ar raddfa ac mewn amser real. Mae hyn yn ymrwymiad allweddol yn y Strategaeth Seiberddiogelwch Genedlaethol a bydd yn lleihau'r baich diogelwch ar y cyhoedd i weithredu i raddau helaeth, gan eu gwneud yn gryfach wrth fyw a gweithio ar-lein.

108. Mae'r NCSC yn chwilio'r rhyngrwyd am wefannau ac ymosodiadau maleisus, ac yna'n gweithio gyda diwydiant i gael gwared arnynt neu, os na ellir gwneud hynny, yn sicrhau bod modd eu rhwystro rhag cyrraedd y cyhoedd. Yn ystod y flwyddyn rhwng 1 Medi 2021 a 31 Awst 2022, llwyddodd yr NCSC i ddarganfod cyfanswm o 2.1 miliwn o ymgyrchoedd seiber maleisus a chael gwared arnynt.

109. Un dull arall y bydd twyllwyr yn ei ddefnyddio i gyrraedd pobl yw negeseuon e-bost twyllodrus. Mae hidlyddion sbam wedi cyflawni rôl bwysig er mwyn lleihau faint o negeseuon e-bost twyllodrus sy'n cyrraedd y cyhoedd, ond ni chaiff pob un ei dal. Erbyn mis Mawrth 2023, roedd yr NCSC wedi cael gwybod gan y cyhoedd am dros 19 miliwn o negeseuon e-bost a gwefannau amheus, gan arwain at gael gwared at fwy na 120,000 o sgamiau mewn 220,500 o URLs ers i'r gwasanaeth gael ei lansio ym mis Ebrill 2020. Rydym yn cydnabod y niwed sy'n gysylltiedig â thwyll sy'n deillio o negeseuon e-bost torfol a byddwn yn gweithio gyda'r NCSC a diwydiant i ymchwilio ymhellach i gyfleoedd i leihau nifer ac effaith y negeseuon e-bost twyllodrus sy'n cyrraedd blychau negeseuon pobl.

110. Mae'r NCSC yn parhau i ddatblygu ffyrdd o ddiogelu'r cyhoedd ar-lein drwy ddatblygu ei alluogrwydd Rhannu ac Amddiffyn. Mae Rhannu ac Amddiffyn, a lansiwyd y llynedd, yn galluogi'r NCSC i rannu gwefannau maleisus â diwydiant, a hynny bron mewn amser real, er mwyn diogelu'r cyhoedd ar raddfa. Gall bron hanner holl gwsmeriaid darparwyr gwasanaethau rhyngrwyd gael budd o'r gwasanaeth hwn yn barod ac, erbyn diwedd eleni, bydd y ffigur wedi codi i 80%.

111. Ar hyn o bryd, y darparwyr gwasanaethau rhyngrwyd a'r gweithredwyr rhwydweithiau ffôn mwyaf y farchnad yn y DU yw aelodau'r llwyfan rhannu. Ein huchelgais yw ehangu'r gwasanaeth hwn i gynnwys sefydliadau ariannol a chwmnïau technoleg yn ystod y flwyddyn i ddod. Ochr yn ochr â hyn, bydd yr NSCS yn parhau â'i gwaith yn y meysydd canlynol:

- Darganfod gwefannau ac ymosodiadau maleisus ar raddfa, a chael gwared arnynt.
- Gwella'r ffordd y bydd manylion cwsmeriaid (e.e. manylion cardiau credyd) a gafodd eu dwyn yn cael eu dychwelyd i'r darparwyr.
- Rhoi mentrau ar waith i wneud y rhyngrwyd yn fwy diogel drwy weithio gyda diwydiant i wella arferion diogelwch.
- Diogelu cyfrifon a dyfeisiau defnyddwyr yn ddiofyn drwy amryw fentrau ar y cyd â diwydiant.

112. Er bod gwaith yr NCSC yn amhrisiadwy o ran atal twyll rhag cyrraedd dinasyddion y DU, mae angen gwneud mwy er mwyn sicrhau y gellir cael gwared ar enwau parth a chyfeiriadau IP yn gyflym mewn achosion lle nad yw cytundebau gwirfoddol yn gweithio. Rydym yn ymgynghori ar greu pwerau newydd er mwyn galluogi asiantaethau gorfodi'r gyfraith i feddiannu enwau parth a chyfeiriadau IP a'i gwneud yn ofynnol eu cau os ceir amheuaeth o droseddoldeb, gan gynnwys twyll.

# Piler 3: Grymuso pobl

Nid trosedd heb ddioddefwyr yw twyll. Caiff miliynau o bobl a busnesau eu targedu gan dwyllwyr ledled y DU bob blwyddyn. Mae gormod o ddioddefwyr yn colli arian a hyder. Bydd rhai yn dioddef o broblemau iechyd o ganlyniad i hynny. Er mwyn atal pobl rhag dioddef a'u helpu i ddod dros eu profiad rhaid i ni eu grymuso â'r wybodaeth a'r adnoddau sydd eu hangen i'w cadw eu hunain yn ddiogel ac, yn anad dim, i sicrhau y byddant yn cael eu harian yn ôl cyn gynted â phosibl.

**Astudiaeth achos**

Cafodd Harry*, sy'n fargyfreithiwr yn ei 40au, alwad ffôn gan berson a oedd yn honni ei fod yn cynrychioli adran atal twyll ei fanc ynglŷn ag ymgais i hacio ei gyfrif yn gynharach yr wythnos honno. Roedd hyn yn swnio'n wir am ei fod wedi cael neges amheus gan gwmni danfon nwyddau yn gofyn am ei fanylion banc er mwyn talu costau danfon dyledus yn ystod yr un wythnos. Roedd Harry ar frys am ei fod yn hwyr i fynd adref, ac nid oedd yn canolbwyntio. Ei ymateb cyntaf oedd teimlo rhyddhad bod y banc wedi sylwi ar y broblem a chysylltu ag ef.

Dywedodd y galwr fod trafodion amheus yn ymddangos ar y cyfrif, a rhoddodd ddisgrifiad ohonynt. Nid oedd Harry wedi gwneud y taliadau hyn, a dywedodd y galwr y byddai angen iddo edrych ar y cod mynediad untro a oedd yn cael ei anfon ato a'i ddarllen yn uchel er mwyn canslo'r trafodion. Dilynodd Harry y cyfarwyddiadau hyn, a pharhaodd hyn nifer o weithiau nes iddo ddechrau amau'r sefyllfa a dod â'r alwad i ben. Twyllwyr oedd yn galw, ac roeddent yn ceisio dod o hyd i ffordd o gwmpas mesurau diogelwch banc Harry. Gan fod Harry wedi rhoi'r cod mynediad untro iddynt, roedd modd iddynt fynd i mewn i'w gyfrif a throsglwyddo £10,000 allan.

*Mae'r enw wedi cael ei newid

113. Er gwaethaf cyffredinrwydd twyll, ceir camsyniad cyffredin mai pobl oedrannus neu agored i niwed yw dioddefwyr twyll. Mae'r gwirionedd yn wahanol iawn. Pobl rhwng 45 a 54 oed sydd fwyaf tebygol o fod yn

ddioddefwyr, er ei fod yn beth cyffredin ym mhob ystod oedran.[30] Mae pobl mewn bandiau incwm uchel a phobl mewn swyddi rheoli neu alwedigaethau proffesiynol yn cyfrif am gyfran gymharol uwch o ddioddefwyr twyll.[31] Yn yr un modd, mae pobl heb gymwysterau yn cynrychioli cyfran is o ddioddefwyr na phobl gymwysedig.

114. Yn anffodus, er gwaethaf ein hymdrechion cynyddol i atal twyll, mae'n anochel y bydd rhai ymgeisiau i dwyllo yn cyrraedd y cyhoedd yn y DU o hyd. Bydd twyllwyr yn ymaddasu ac yn parhau i chwilio am wendidau i fanteisio arnynt. Bydd natur twyll yn newid yr un mor gyflym ag y bydd technoleg yn datblygu.

## Cyfathrebu'n well

- **Ailwampio dulliau cyfathrebu â'r cyhoedd ynghylch atal twyll drwy eu symleiddio a'u hehangu ar draws asiantaethau gorfodi'r gyfraith, y Llywodraeth, sefydliadau nid-er-elw a diwydiant, a lansio ymgyrch drawslywodraethol syml.**
- **Gwella ymwybyddiaeth a chynyddu cymorth drwy greu rhwydwaith PROTECT arbennig newydd ar gyfer yr heddlu, sy'n gyson â'r rhwydwaith PROTECT ar gyfer seiberddiogelwch.**
- **Sicrhau bod gan bobl ifanc sgiliau gwrth-dwyll a seiberddiogelwch allweddol drwy baratoi athrawon i gynnal gwersi gwrth-dwyll newydd.**

115. Gall y camsyniad mai dim ond pobl agored i niwed sydd mewn perygl o gael eu twyllo arwain at hyder ar gam, gan olygu y bydd rhai pobl yn llai tebygol o gymryd camau i ddiogelu eu hunain. Hyd yn oed pan fydd pobl yn deall y perygl, gall twyllwyr didrugaredd ddylanwadu ar ddioddefwyr yn emosiynol a chreu cyflwr o banig er mwyn eu bwrw oddi ar eu gwyliadwriaeth.

116. Daw negeseuon gwrth-dwyll o nifer o ffynonellau yn y sectorau preifat, cyhoeddus a gwirfoddol, megis ymgyrchoedd gan Action Fraud, Cyber Aware, ScamSmart, Friends Against Scams, a Take Five to Stop Fraud, a gynhelir gan UK Finance. Er bod y rhain wedi helpu i godi ymwybyddiaeth o'r bygythiad, mae'n bosibl bod y doreth o leisiau gwahanol wedi arwain at ddryswch ynglŷn â'r hyn y dylid ei wneud. Ni fydd pobl bob amser yn cymryd camau i'w diogelu eu hunain ac eraill, ac mae'r cyfraddau rhoi gwybod yn isel o hyd. Rhaid i'r Llywodraeth, asiantaethau gorfodi'r gyfraith, diwydiant a chymdeithas sifil uno y tu ôl i negeseuon clir, technegol gywir ac amserol fel y bydd y cyhoedd yn gwybod sut i ddiogelu eu hunain rhag twyll a sut i roi gwybod amdano. Bydd rhannu negeseuon clir, cyson ac effeithiol mewn

[30] CSEW Nature of fraud and computer misuse in England and Wales Appendix Tables: Tabl 7
[31] CSEW: Property Crime Tables: Tabl 11 Mawrth 2020

mannau cyswllt allweddol yn galluogi miliynau yn rhagor o bobl i ddilyn cyngor ar gadw'n ddiogel, gan atal twyllwyr yn eu hunfan.

117. Byddwn yn lansio ymgyrch drawslywodraethol syml i godi ymwybyddiaeth y cyhoedd o fesurau gwrth-dwyll er mwyn uno'r negeseuon ymhellach. Bydd hyn yn ei gwneud yn haws i bobl osgoi twyll, a gwybod sut i ymateb a chodi'n ôl ar eu traed os byddant wedi cael eu sgamio. Bydd hyn yn eu helpu i ddiogelu eraill a lleihau niwed iddynt hwy eu hunain. Byddwn hefyd yn gweithio gydag ysgolion a chymunedau i rannu'r negeseuon cywir â'r rhai sy'n wynebu risg. Bydd yr NCSC yn parhau i roi cyngor ac arweiniad ymarferol, technegol gywir ac amserol ar ddiogelwch ar-lein i'r cyhoedd.

## Atgyfnerthu cymorth i ddioddefwyr

- **Gwella a symleiddio'r ffordd y bydd dioddefwyr yn rhoi gwybod am dwyll, gan ddechrau drwy roi system newydd o'r radd flaenaf ar waith yn lle Action Fraud.**
- **Rhoi cymorth cyson i ddioddefwyr ledled Cymru a Lloegr drwy ehangu'r Uned Ofal Genedlaethol i Ddioddefwyr Troseddau Economaidd a Dull Amlasiantaethol Safonau Masnach Cenedlaethol o Ymdrin â Thwyll.**

118. Mae'r Llywodraeth hon yn benderfynol o sicrhau y bydd pob dioddefwr yn cael y cymorth y bydd ei angen arno pan fydd ei angen arno fwyaf. Mae symleiddio'r ffordd y bydd dioddefwyr yn rhoi gwybod i'r heddlu am dwyll, drwy Action Fraud, yn rhan hanfodol o hyn. I lawer o bobl, mae rhoi gwybod am dwyll yn broses gymhleth, a bydd dioddefwyr yn aml yn ansicr ynghylch sut a pham y dylid rhoi gwybod am eu profiadau, neu ynglŷn â gorfod ail-fyw digwyddiadau trawmatig drosodd a throsodd. Mae'r un peth yn wir am adennill neu ddiogelu eu hunaniaeth ar ôl iddi gael ei dwyn.

119. Mae Uned Ofal Genedlaethol i Ddioddefwyr Troseddau Economaidd (NECVCU) Action Fraud yn estyn allan i ddarparu gwasanaeth cynghori wedi'i deilwra i bob dioddefwr a gaiff ei atgyfeirio ati. Nod NECVCU yw helpu dioddefwyr i deimlo'n hyderus i ymdopi a dod dros y sefyllfa. Mae gwaith ymchwil wedi canfod bod dioddefwyr yn fodlon ar y gwasanaeth a gawsant ac yn teimlo'n fwy diogel, yn fwy ymwybodol o dwyll a seiberdroseddu, ac yn fwy hyderus yng ngallu'r heddlu i ymateb i'r troseddau hyn. Po fwyaf agored i niwed yw'r dioddefwr, uchaf fydd lefel y gwasanaeth a ddarperir iddynt.

120. Rydym hefyd yn awyddus i weld dioddefwyr agored i niwed yn cael cymorth sydd wedi'i deilwra'n fwy ar lefel leol. Mae'r Dull Amlasiantaethol o Ymdrin â Thwyll (MAAF), sy'n cael ei gyflwyno ledled Cymru a Lloegr dan arweiniad Tîm Sgamiau Safonau Masnach Cenedlaethol (NTS), yn creu hybiau lleol er mwyn dod â phartneriaid allweddol ynghyd i adnabod dioddefwyr a sicrhau eu

bod yn cael cymorth sydd ei angen arnynt, gan y bobl sydd yn y sefyllfa orau i'w roi, gan gynnwys NTS, yr heddlu, gweithwyr cymdeithasol neu elusennau lleol.

121. Gyda'r SFO yn asiant gorfodi'r gyfraith arweiniol, rydym wedi sefydlu Gweithgor Dioddefwyr Twyll (VFWG) sy'n dod â sefydliadau blaenllaw ynghyd gan gynnwys NTS, Cymorth i Ddioddefwyr, Age UK a Cifas i annog cydgysylltu gwell rhwng systemau.

122. Bydd gwella cymorth i ddioddefwyr yn helpu i atal pobl rhag bod yn ddioddefwyr fwy nag unwaith, gan leihau faint o dwyll a gyflawnir a'r niwed a achosir ganddo. Bob blwyddyn, mae'r 18% o ddioddefwyr twyll a gaiff eu twyllo fwy nag unwaith yn cyfrif am 35% o'r holl achosion o dwyll.[32] Drwy archwilio'r hyn sy'n gweithio orau i helpu'r bobl sy'n wynebu'r risg fwyaf, a lleihau'r nifer sy'n dioddef eto, byddwn yn gwella canlyniadau i ddioddefwyr ac yn lleihau'r niwed a achosir gan dwyll. Bydd gwella cymorth i ddioddefwyr drwy ehangu NECVCU a MAAF yn sicrhau y bydd mwy o bobl yn cael y cymorth y bydd ei angen arnynt er mwyn osgoi bod yn ddioddefwyr eto, a bydd gwasanaeth Action Fraud newydd yn annog mwy o ddioddefwyr i roi gwybod am y drosedd er mwyn cael cymorth a thorri'r cylch.

[32] Cyfrifiad o Arolwg Troseddu Cymru a Lloegr yn seiliedig ar dablau'r Atodiad a thablau demograffeg

**Astudiaeth achos**

Ar ôl i Alastair*, sy'n beiriannydd wedi ymddeol yn ei 70au sydd â phroblemau iechyd meddwl, roi gwybod i Action Fraud am dwyll, cysylltodd eiriolwr dioddefwyr o NECVCU ag ef. Roedd wedi cael ei ddal mewn sgam cryptoarian soffistigedig. Ar ôl buddsoddi swm bach o arian mewn cwmni a oedd yn edrych fel un dilys i ddechrau, collodd £45,000 o gynilion yn y pen draw. Hefyd, manteisiodd y twyllwyr ar gyfnod o salwch i berswadio Alastair i ganiatáu iddynt reoli ei gyfrifiadur, a mynd ati'n gyflym i wneud cais am fenthyciad o £25,000 yn ei enw gan fanc ar y stryd fawr, cyn trosglwyddo'r arian i'w cyfrif eu hunain drwy fanc arall ar y stryd fawr.

Magodd Sarah*, yr eiriolwr o NECVCU, ymddiriedaeth Alastair yn raddol. Roedd gan y dioddefwr ormod o gywilydd i drafod yr hyn a oedd wedi digwydd gyda'i deulu. Dywedodd ei fod wedi teimlo fel pe bai wedi cael ei ddinistrio, a hyd yn oed wedi ystyried lladd ei hun, ar ôl colli ei gynilion oes a rhan o'i bensiwn. Gydag anogaeth barhaus gan Sarah, cymerodd gyngor gan yr heddlu a sefydliadau fel Mind a Cymorth i Ddioddefwyr. Cytunodd y dioddefwr i Sarah weithio gyda'i ferch i roi mesurau ataliol pellach ar waith, megis newid cyfrineiriau, cofrestru â Cifas a chael adroddiad credyd. Gwnaethant gais i'r banciau am ad-daliad o dan y Model Ad-dalu Amodol. Yn ogystal â hyn, trefnodd Sarah i'w heddlu lleol roi cyngor a thawelwch meddwl iddo.

Ers hynny, mae'r banciau wedi ad-dalu'r rhan fwyaf o'r arian a gollwyd ac wedi canslo'r benthyciad. O ganlyniad i hyn, a chymorth gan NECVCU, mae Alastair yn teimlo'n llawer gwell, yn fwy hyderus yn ei allu i adnabod sgamiau, ac yn barod i symud ymlaen. Dywedodd Alastair wrth Sarah, "Yn union fel y dywedaist – mae'r sgamwyr yn dal i gysylltu... Rhaid i mi gyfaddef fy mod braidd yn anghwrtais tuag at rai ohonynt sy'n aros ar y ffôn yn ddigon hir i deimlo holl rym fy nirmyg!"

*Mae'r enwau wedi cael eu newid

123. Rydym hefyd yn helpu NTS i adnabod y bobl sydd fwyaf mewn angen a rhoi ymyriadau effeithiol ar waith i atal pobl rhag dioddef eto. Mae hyn yn cynnwys cyflenwi camerâu stepen drws er mwyn lleihau'r tebygolrwydd y caiff dioddefwyr eu twyllo yn eu cartrefi.

124. Caiff gwersi eu dysgu o feysydd cam-drin domestig a rheolaeth drwy orfodaeth er mwyn deall beth yw'r ffyrdd gorau o gefnogi dioddefwyr twyll a dileu'r ymdeimlad o gywilydd a fydd ganddynt yn rhy aml. Bydd hyn yn cynnwys creu pecyn cymorth er mwyn helpu ymarferwyr i gynorthwyo dioddefwyr twyll yn well.

## Diogelu hunaniaethau rhag twyll

- **Sefydlu marchnad hunaniaethau digidol ddibynadwy a diogel yn y DU drwy waith parhaus gan yr Adran dros Wyddoniaeth, Arloesedd a Thechnoleg (DSIT).**
- **Sicrhau y bydd dioddefwyr achosion o ddwyn hunaniaeth yn cael y cymorth y bydd ei angen arnynt i adfer eu hunaniaethau a chyflwyno rhestr wirio ar gyfer hunaniaeth a fydd yn amlinellu'r camau y bydd angen eu cymryd i adennill a diogelu hunaniaeth sydd wedi cael ei dwyn.**
- **Ystyried cyflwyno deddfwriaeth newydd i gyfyngu ar y gallu i greu a gwerthu hunaniaethau a thrin data a gopïwyd neu a gaffaelwyd drwy fynediad heb awdurdod.**
- **Atal pobl rhag cuddio y tu ôl i gwmnïau ffug drwy wella dilysrwydd y wybodaeth yn y gofrestr cwmnïau a gwneud mwy o ddefnydd ohoni.**

125. Gall twyll fod yn soffistigedig dros ben, a gall fod yn hynod anodd i ddioddefwyr ei adnabod. Mae ymgeisiau i we-rwydo wedi mynd yn rhan arferol o fywyd, gyda phobl yn cael eu peledu â negeseuon testun ac e-bost twyllodrus. Wrth i dechnoleg barhau i newid yn gyflym ac wrth i dwyllwyr ddatblygu eu technegau, daw'n anos i'r cyhoedd wahaniaethu rhwng y dilys a'r twyllodrus. Ffordd o gasglu gwybodaeth am unigolion yw llawer o'r negeseuon testun, negeseuon e-bost a negeseuon eraill twyllodrus hyn.

126. Yn ôl Cifas, sef cronfa ddata draws-sector fwyaf y DU ar gyfer rhannu gwybodaeth am dwyll, mae tua dwy ran o dair o'r achosion o dwyll y rhoddir gwybod iddi amdanynt yn cynnwys twyll hunaniaeth. Mae troseddwyr sy'n dwyn gwybodaeth bersonol, a elwir yn fwy cyffredin yn ddwyn hunaniaeth, yn ysgogi diwydiant lle y caiff hunaniaethau pobl eu dwyn a'u gwerthu ar gyfer twyll. Yn aml, ni fydd pobl y mae eu hunaniaethau wedi cael eu dwyn yn cael cymorth i gymryd camau er mwyn adfer eu hunaniaethau a lleihau effaith unrhyw dwyll a gyflawnir yn eu henw.

127. Bydd technoleg a deddfwriaeth newydd sydd â'r nod o darfu ar y rhai sy'n dwyn ac yn gwerthu data yn gwneud y rhyngrwyd yn lle mwy gelyniaethus i dwyllwyr hunaniaeth. Mae'r Llywodraeth hefyd yn gweithio er mwyn sicrhau bod modd defnyddio hunaniaethau dibynadwy a diogel yn eang, er mwyn helpu i fynd i'r afael â thwyll sy'n defnyddio hunaniaeth.

128. Hefyd, mae twyllwyr yn camddefnyddio fframwaith y DU ar gyfer cofrestru a ffeilio cwmnïau er mwyn cyflawni troseddau. Mae hyn yn cynnwys creu cwmnïau yn benodol er mwyn cyflawni twyll a defnyddio manylion neu gyfeiriad personol unigolyn neu fusnes heb ei gydsyniad, gan gynnwys er mwyn cuddio pwy sy'n berchen ar gwmni ac yn ei reoli.

129. Bydd y Bil Troseddau Economaidd a Thryloywder Corfforaethol, sydd ger bron y Senedd ar hyn o bryd, yn mynd i'r afael â'r problemau hyn drwy roi mwy o bwerau i Dŷ'r Cwmnïau. Bydd pwerau newydd i wirio, herio a gwrthod gwybodaeth amheus, gyda chymorth galluoedd cryfach ar gyfer dadansoddi a rhannu cudd-wybodaeth, yn ei gwneud yn haws adnabod twyll. Ni fydd yn rhaid i unigolion y mae eu cyfeiriadau neu eu hunaniaethau wedi cael eu dwyn ddioddef ymhellach drwy brosesau gweinyddol neu brosesau llys hirfaith i unioni pethau mwyach.

## Newid y gyfraith fel y bydd mwy o ddioddefwyr yn cael eu harian yn ôl

- **Gwneud yn siŵr y bydd mwy o ddioddefwyr twyll awdurdodedig yn cael eu harian yn ôl drwy ddeddfu er mwyn galluogi'r Rheoleiddiwr Systemau Talu (PSR) i'w gwneud yn ofynnol i'r holl ddarparwyr gwasanaethau talu a gaiff eu rheoleiddio gan y PSR i ad-dalu dioddefwyr.**
- **Gwerthuso'r camau nesaf ar gyfer sicrhau fframwaith cyson ar gyfer dychwelyd arian twyll i ddioddefwyr, a phenderfynu ar y camau hynny.**

130. Byddwn yn pennu mesurau i sicrhau y bydd mwy o ddioddefwyr yn cael eu harian yn ôl, gan gynnig mwy o gymhellion i ddarparwyr gwasanaethau talu a diwydiannau eraill atal yr achosion hyn o dwyll yn y lle cyntaf.

131. Wrth i droseddwyr ddod yn fwy o arbenigwyr ar berswadio eu dioddefwyr a dylanwadu arnynt i roi eu harian i ffwrdd, daw'n fwyfwy anodd i'r cyhoedd wahaniaethu rhwng yr hyn sy'n wir a'r hyn sy'n ffug. O dan y rheoliadau presennol, mae gan ddioddefwyr twyll anawdurdodedig hawl i gael eu had-dalu gan eu banc o fewn 48 awr. Fodd bynnag, nid oes darpariaeth gyfreithiol o'r fath ar waith ar gyfer dioddefwyr twyll awdurdodedig, sef math o dwyll sydd wedi tyfu'n sylweddol dros y blynyddoedd diwethaf.

132. Yn 2019, ymrwymodd naw cwmni o'u gwirfodd i “God y Model Ad-dalu Amodol, a ddatblygwyd o dan gyfarwyddyd y PSR. Mae'r cod hwn yn ei gwneud yn ofynnol i'r cwmnïau sydd wedi'i lofnodi ad-dalu eu cwsmeriaid pan fyddant wedi cael eu twyllo i roi eu harian i dwyllwyr, os na fyddai wedi bod yn rhesymol disgwyl i'r cwsmeriaid wybod eu bod yn cael eu twyllo.

133. Fodd bynnag, o dan y cod gwirfoddol hwn, mae'r cyfraddau ad-dalu yn anghyson (tua 50% o ddioddefwyr sy'n cael eu harian yn ôl ar gyfartaledd), a gall y broses fod yn hirfaith, ac yn anodd ar adegau. Er mwyn datrys hyn, mae'r Llywodraeth yn deddfu er mwyn galluogi'r PSR i ddefnyddio ei bwerau rheoleiddio i'w gwneud yn ofynnol i'r holl ddarparwyr gwasanaethau talu a gaiff eu rheoleiddio gan y PSR i ad-dalu dioddefwyr mewn achosion sy'n gysylltiedig â'r System Taliadau Cyflymach, lle y bydd 97% o achosion o dwyll Taliad Gwthio Awdurdodedig (APP) yn digwydd ar hyn o bryd. Cred y

Llywodraeth y dylid cymryd camau i wneud ad-dalu yn orfodol ar unwaith. Cyflawnir hyn drwy'r Bil Gwasanaethau a Marchnadoedd Ariannol.

134. Ar hyn o bryd, nid yw'n rhaid i ddarparwyr gwasanaethau talu geisio dychwelyd arian i ddioddefwyr twyll. Pan fydd cwmnïau'n ceisio dychwelyd arian i ddioddefwyr a'r banciau y daeth yr arian ohonynt, gall fod yn anodd adnabod dioddefwr a cheir cynseiliau croes o ran y dull y dylid ei fabwysiadu. Fodd bynnag, mae rhai cwmnïau'n fwy parod nag eraill i dderbyn risg, sy'n arwain at ganlyniadau anghyson i ddioddefwyr. Byddwn yn gwerthuso'r camau nesaf ar gyfer sicrhau fframwaith cyson ar gyfer dychwelyd arian twyll i ddioddefwyr yn y DU ac mewn gwledydd tramor, ac yn penderfynu ar y camau hynny.

# Gwella galluoedd rhyngwladol a domestig allweddol

Ceir nifer o faterion a galluoedd trawsbynciol y mae'n rhaid eu harchwilio a'u datblygu er mwyn gallu cyflawni'r strategaeth. Ymhlith y rhain mae gweithio gyda phartneriaid rhyngwladol, rhannu data, a mynd i'r afael â rhwydweithiau mulod arian.

**Galluoedd a chydweithio rhyngwladol**

- **Ysgogi gweithredu byd-eang ynghylch twyll drwy wneud mynd i'r afael ag ef yn flaenoriaeth a gydnabyddir yn rhyngwladol i lywodraethau o bob rhan o'r byd, gan gynnwys drwy gynnal uwchgynhadledd dwyll fyd-eang yn y DU, a gaiff ei chadeirio gan yr Ysgrifennydd Cartref.**
- **Gweithio'n ddwyochrog â gwledydd allweddol er mwyn atgyfnerthu eu hymdrechion i fynd i'r afael â thwyll, gan gytuno ar gamau gweithredu newydd ym mhob rhan o'r Llywodraeth, gan gynnwys asiantaethau gorfodi'r gyfraith a'r Swyddfa Dramor, y Gymanwlad a Datblygu, a'i rhwydweithiau.**
- **Atgyfnerthu presenoldeb ein hasiantaethau gorfodi'r gyfraith mewn gwledydd allweddol y mae twyll yn deillio ohonynt er mwyn meithrin gwell galluogrwydd yn y gwledydd hynny a gweithio'n agos gyda phartneriaid ymhellach i ffwrdd oddi wrth y cwsmer er mwyn tarfu ar fwy o dwyllwyr.**

135. Mae twyllwyr yn gweithredu ar draws ffiniau, gan achosi biliynau o bunnau o golledion i'r DU bob blwyddyn a pheri bygythiad sylweddol i ffyniant economaidd byd-eang. Ond, hyd yn hyn, rydym wedi gweld nad yw twyll yn cael digon o flaenoriaeth yn fyd-eang, gydag ymatebion y DU ymhlith y mwyaf datblygedig a chynhwysfawr. Mae'r strategaeth newydd hon yn cadarnhau ein statws fel arweinydd byd ym maes twyll.

136. Ein nod yw creu dull rhyngwladol cynhwysfawr a chynaliadwy o frwydro yn erbyn twyll, a fydd yn helpu i ddiogelu'r gymuned fyd-eang rhag ei effeithiau dinistriol ac yn hybu mwy o ffyniant a diogelwch i bawb.

137. Gwyddom y bydd hyn yn anodd. Ceir llawer o wledydd nad ydynt yn deall effaith twyll ar eu heconomïau neu ar eu statws rhyngwladol. Mae'n bosibl bod rhai yn cael budd ariannol ohono, hyd yn oed. Dros y flwyddyn nesaf,

byddwn yn cydweithio â phartneriaid allweddol i ddatblygu dull gweithredu systematig sy'n seiliedig ar dystiolaeth.

***Uwchgynhadledd dwyll i ddatblygu'r consensws rhyngwladol o blaid gweithredu***

138. Mae'n hanfodol ein bod yn gwneud i bob gwlad weld bod ganddi ran i'w chwarae er mwyn mynd i'r afael â thwyll. Ar hyn o bryd, nid oes ymateb amlochrog a chydgysylltiedig ar lefel polisi i dwyll yn erbyn unigolion a busnesau. Caiff y DU ei chydnabod fel partner arweiniol, sy'n ein rhoi yn y sefyllfa gryfaf i arwain ymateb amlochrog.

139. Byddwn yn cynyddu'r flaenoriaeth a roddir i dwyll ar y llwyfan gwleidyddol rhyngwladol, gan ddechrau ag uwchgynhadledd dwyll fyd-eang yn 2024. Byddwn yn creu consensws rhyngwladol newydd i fynd i'r afael â thwyll, fel rydym wedi'i wneud ar gyfer bygythiadau eraill, megis cam-drin a chamfanteisio'n rhywiol ar blant, gan ddysgu o'r dull cydweithredol a ddilynwyd mewn perthynas â chyllid anghyfreithlon rhwng diwydiannau a llywodraethau rhyngwladol, yn enwedig gyda gwledydd y Pum Llygad.

**Astudiaeth achos**

Sefydlodd Singapore, sy'n un o bartneriaid allweddol y DU, Drefn Reoli Wrth-dwyll (ASCom) ym mis Mawrth 2022. Mae ASCom yn gweithio mewn partneriaeth â banciau lleol a thramor, grwpiau diogelwch cardiau, sefydliadau ariannol nad ydynt yn fanciau, cwmnïau technoleg ariannol a thai cryptoarian, yn ogystal â darparwyr gwasanaethau ad-dalu yn Singapore ac yn cyd-leoli â nhw ar adegau. Drwy'r partneriaethau hyn, mae ASCom a'i phartneriaid wedi llwyddo i rewi cyfrifon yn gyflym, adennill arian a lleihau colledion dioddefwyr. Er enghraifft, ar 2 Mai 2022, gweithiodd ASCom gyda DBS Bank i atafaelu US$10 miliwn.

140. Ein cam cyntaf tuag at hyn yw sefydlu gweithgor rhyngwladol, sef y cyntaf o'i fath. Byddwn hefyd yn codi twyll mewn fforymau amlwladol gan gynnwys Grŵp Roma-Lyon (G7) yn Hiroshima ym mis Mai ac yn y Cenhedloedd Unedig.

141. Bydd ein huwchgynhadledd fyd-eang yn dod ag arweinwyr ynghyd o lywodraethau, asiantaethau gorfodi'r gyfraith, a'r sector preifat, i gyhoeddi'r uchelgais i sicrhau dull cynhwysfawr a chydgysylltiedig o fynd i'r afael â thwyll dros y pum mlynedd nesaf. Ymhlith canlyniadau'r uwchgynhadledd bydd dealltwriaeth gyffredin o natur a chwmpas bygythiad twyll, dod o hyd i arferion gorau ar gyfer atal twyll ac ymateb iddo, a'r cynnig i ddatblygu cynllun gweithredu cydgysylltiedig er mwyn chwalu rhwydweithiau twyll.

142. Rydym yn ymrwymedig i arwain yr ymdrech hon, a byddwn yn gweithio agos gyda'n partneriaid rhyngwladol i gyflawni hyn.

***Ysgogi gweithredu mewn gwledydd risg allweddol***

143. Mae bygythiad twyll i'r DU yn amrywio, gyda'r wybodaeth a gawn yn dangos bod rhai awdurdodaethau rhyngwladol yn fwy cysylltiedig â rhai mathau o dwyll nag eraill. Mae'n dal yn gyffredin i dwyll rhamant ddeillio o wledydd yng Ngorllewin Affrica, ac mae twyll a gaiff ei hwyluso gan ganolfannau galwadau yn aml yn gysylltiedig â De Asia. Gall twyll buddsoddi ddeillio o'r DU, ond rhoddir gwybod amdano hefyd mewn gwahanol rannau o Ewrop ac mor bell â De-ddwyrain Asia.

**Astudiaeth achos**

Arweiniodd ymgyrch ar y cyd rhwng y DU a Ghana mewn perthynas â thwyll rhamant at euogfarnu nifer o droseddwyr yn Ghana ac ad-dalu arian a oedd wedi cael ei ddwyn i ddioddefwyr yn y DU. Yn dilyn ymchwiliad yn y DU gan ymchwilwyr lleol a chenedlaethol, a thrwy weithio gyda Swyddog Cyswllt Rhyngwladol yr NCA a heddlu Ghana, daethpwyd o hyd i 28 o ddioddefwyr. Rhoddodd heddluoedd lleol yn y DU ofal a chyngor i'r dioddefwyr, a sicrhaodd y llysoedd yn Ghana fod modd dychwelyd £195,000 i'r dioddefwyr. Mae hyn wedi arwain at bartneriaeth gryfach ar gyfer mynd i'r afael â thwyll rhamant rhwng asiantaethau gorfodi'r gyfraith yn Ghana a'r DU.

144. Byddwn yn cynnal asesiadau gyda'r NCA a'r Swyddfa Dramor, y Gymanwlad a Datblygu er mwyn ceisio gweld o ble y mae achosion o dwyll yn deillio, a pha wledydd a all ein helpu i gael yr effaith fwyaf o ran mynd i'r afael â nhw. Yn seiliedig ar yr asesiadau hyn, byddwn yn cytuno'n drawslywodraethol ar y camau y bydd angen eu cymryd er mwyn helpu'r awdurdodaethau sy'n gysylltiedig â'r risg fwyaf i wneud mwy i fynd i'r afael â thwyll ac yn gweithio gyda'n rhwydweithiau tramor i gyflawni hyn. Bydd y camau gweithredu hyn yn cwmpasu nodau amlflwydd hirdymor sy'n gyson â'r Strategaeth Dwyll. Mae'r rhain yn cynnwys:

**Mynd ar ôl twyllwyr**

- Atgyfnerthu ein dealltwriaeth o'r gwledydd hynny lle mae twyllwyr, neu seilweithiau a ddefnyddir ar gyfer twyll, wedi'u lleoli.
- Datblygu cynlluniau gweithredu a arweinir gan dystiolaeth ar gyfer y gwledydd â'r flaenoriaeth uchaf, gan ganolbwyntio ar gynigion megis meithrin gallu asiantaethau gorfodi'r gyfraith, galluoedd cymorth i ddioddefwyr, ymatebion seiberddiogelwch a phrosesau adennill asedau.
- Adeiladu ar weithgarwch gweithredol llwyddiannus gan asiantaethau gorfodi'r gyfraith mewn gwledydd y mae twyll yn deillio ohonynt a gweithio

mewn partneriaeth ag asiantaethau perthnasol i frwydro yn erbyn twyll yn effeithiol ac ailadrodd llwyddiant mewn gwledydd eraill.

**Rhwystro twyll**

- Datblygu partneriaeth ryngwladol rhwng y sectorau cyhoeddus a phreifat er mwyn gwneud ceisiadau cydgysylltiedig i gwmnïau byd-eang wneud mwy i fynd i'r afael â thwyll ar-lein, e.e. y sector technoleg.
- Cysoni fframweithiau cyfreithiol a rheoliadau rhwng gwledydd er mwyn sicrhau na all twyllwyr gymryd mantais o fannau gwan neu anghysondebau.
- Hyrwyddo'r defnydd o ddulliau talu diogel mewn gwledydd eraill er mwyn lleihau'r risg o dwyll a diogelu gwybodaeth bersonol ac ariannol.

**Grymuso pobl**

- Rhannu arferion gorau ac arbenigedd wrth ddatblygu ymgyrchoedd codi ymwybyddiaeth er mwyn addysgu unigolion a busnesau am beryglon twyll a sut i adnabod ac osgoi sgamiau.
- Cynnal rhaglenni hyfforddi a meithrin gallu ar gyfer asiantaethau gorfodi'r gyfraith a sefydliadau cymdeithas sifil mewn gwledydd eraill er mwyn gwella eu gallu i atal twyll ac ymateb iddo.
- Helpu i ddatblygu systemau rhoi gwybod am dwyll a chymorth i ddioddefwyr mewn gwledydd eraill er mwyn sicrhau y bydd pobl sydd wedi cael eu targedu gan dwyllwyr yn gallu cael y cymorth a'r gefnogaeth y bydd eu hangen arnynt.

## Rhannu data a galluoedd trawslywodraethol

- **Bydd y Llywodraeth yn parhau i weithio gyda phob sector a phartner er mwyn manteisio i'r eithaf ar ddulliau rhannu data, gan gynnwys drwy ddeddfwriaeth.**
- **Cefnogi Awdurdod Twyll y Sector Cyhoeddus drwy rannu data a gwybodaeth o asesiadau bygythiad.**

145. Mae'r Llywodraeth yn mynd i'r afael â rhai o'r heriau cyfreithiol a godwyd gan bartneriaid mewn diwydiant sy'n eu hatal rhag rhannu gwybodaeth. Bydd y Bil Troseddau Economaidd a Thryloywder Corfforaethol yn cyflwyno darpariaethau i ddatgymhwyso atebolrwydd sifil – yn arbennig am dorri cyfrinachedd – ar gyfer cwmnïau a gaiff eu rheoleiddio at ddibenion gwrth-wyngalchu arian sy'n rhannu gwybodaeth cwsmeriaid â'i gilydd er mwyn atal troseddau economaidd, eu canfod ac ymchwilio iddynt. Bydd y darpariaethau'n caniatáu rhannu gwybodaeth yn uniongyrchol rhwng dau fusnes yn y sector a gaiff ei reoleiddio at ddibenion gwrth-wyngalchu arian, yn ogystal â rhannu anuniongyrchol drwy gyfryngwr trydydd parti ar gyfer

busnesau yn y sector ariannol. Bydd y Llywodraeth yn parhau i weithio gyda phob sector a phartner er mwyn manteisio i'r eithaf ar ddulliau rhannu data.

146. Yn yr ail Gynllun Troseddau Economaidd (2023-2026), mae'r Llywodraeth wedi ymrwymo i ddatblygu a gweithredu Strategaeth Gyhoeddus-Breifat ar Ddata am Droseddau Economaidd erbyn canol 2024[33] a fydd yn gwella'r ffordd y caiff y data sydd ar gael eu defnyddio ym mhob rhan o'r ecosystem er mwyn atal troseddau economaidd, eu canfod, a mynd ar eu hôl yn well. Bydd y strategaeth yn cwmpasu'r trefniadau llywodraethu a blaenoriaethu, a'r newidiadau technegol y bydd eu hangen i reoli data'n well ym mhob rhan o'r system.

147. Byddwn yn ymgysylltu'n agosach â'r rhai sy'n gyfrifol am atal twyll sy'n targedu'r sector cyhoeddus, a'r rhai sy'n gyfrifol am atal twyll yn erbyn unigolion a busnesau preifat. Caiff y cydweithio ehangach ym mhob rhan o'r ymateb i dwyll yn y sector cyhoeddus ei arwain gan Awdurdod Twyll y Sector Cyhoeddus.

## Mynd i'r afael â rhwydweithiau mulod arian

- **Cyhoeddi cynllun gweithredu traws-sector newydd ar fulod arian er mwyn tarfu ar weithgarwch mulod arian a diogelu'r cyhoedd.**

148. Mae twyllwyr yn dibynnu ar rwydweithiau o gyfrifon ‘mul’ i gymryd arian gan ddioddefwyr a'i symud. Gall trafodion fynd drwy sefydliadau ariannol, neu gael eu troi'n arian parod neu'n gryptoarian, er mwyn cuddio'r trywydd cyn trosglwyddo'r arian i'r grŵp troseddol. Mae rhwydweithiau mulod arian yn cyflawni rôl arwyddocaol a chynyddol o ran hwyluso twyll. Yn 2022, daeth banciau o hyd i fwy na 39,000 o gyfrifon a oedd yn dangos arwyddion o weithgarwch mulod.[34] Hefyd, ceir risg i'r cyhoedd, a gaiff eu recriwtio i gyflenwi'r cyfrifon hyn, a gallant gael eu denu i fyd troseddu gan addewidion o ‘waith’ ffug sy'n rhoi arian hawdd am risg isel. Bydd troseddwyr yn cymryd mantais o bobl, ac weithiau byddant yn manteisio ar blant fel hyn hefyd.

149. Byddwn yn tarfu ar y dechneg gwyngalchu arian allweddol hon ac yn diogelu'r cyhoedd drwy sicrhau ymateb cydgysylltiedig gan y Llywodraeth, rheoleiddwyr, asiantaethau gorfodi'r gyfraith, diwydiant a sefydliadau sy'n gweithio gyda phobl ifanc. Bydd hyn yn dwyn ymgyrchoedd ac addysg ynghyd i godi ymwybyddiaeth y cyhoedd o'r risgiau sy'n gysylltiedig â chymryd rhan, arloesedd gan y sector ariannol i ddarganfod rhwydweithiau mulod a rhewi arian, gwaith gorfodi'r gyfraith i dargedu'r rhai sy'n recriwtio ac yn rheoli mulod, a chamau gweithredu gan gwmnïau cyfryngau cymdeithasol i gau

[33] Economic Crime Plan 2 2023-26 (publishing.service.gov.uk)
[34] CIFAS: Fraudscape 2023

llwybrau recriwtio, gan daro cydbwysedd rhwng dulliau atal a dulliau diogelu ar gyfer mulod arian a gaiff eu darganfod.

# Cyflawni: sut y byddwn yn gwneud i hyn ddigwydd

## Er mwyn cyflawni'r strategaeth, bydd angen cydweithio, cydgysylltu a chydweithredu'n agos â phartneriaid ym mhob rhan o'r system; gan ddefnyddio galluoedd unigryw pob partner, y bydd pob un ohonynt yn cyflawni rôl benodol a hanfodol.

Caiff y strategaeth ei chyflawni drwy raglen waith tair blynedd o hyd erbyn diwedd 2025, a gaiff ei harwain a'i llywodraethu gan y Swyddfa Gartref. Y Swyddfa Gartref a'r Ysgrifennydd Cartref fydd â'r atebolrwydd cyffredinol am gyflawni amcanion y rhaglen, a'r partneriaid cyflawni fydd yn gyfrifol am roi elfennau penodol o'r rhaglen ar waith. Mae gan bob Ysgrifennydd Gwladol perthnasol atebolrwydd am gyflawni'r elfennau o fewn cylch gwaith ei adran, a'r Gweinidog Diogelwch sy'n gyfrifol am arwain gwaith ymgysylltu â chyflawni traws-bartneriaeth, gan gynnwys arwain gwaith ymgysylltu traws-sector â diwydiant drwy'r Tasglu Twyll ar y Cyd (JFT). Mae gweithgarwch cyflawni'r rhaglen ar gyfer pob cam gweithredu yn y strategaeth naill ai wrthi'n cael ei baratoi neu eisoes yn mynd rhagddo.

***Ein partneriaid cyflawni***

150. Caiff y strategaeth hon ei chyflawni mewn partneriaeth agos â thri grŵp rhanddeiliaid:

1. Partneriaid, asiantaethau ac awdurdodau rheoleiddio trawslywodraethol, gan gynnwys:

   - Y Swyddfa Gartref
   - Cymuned Gudd-wybodaeth y DU (UKIC)
   - Trysorlys EF
   - Yr Adran dros Wyddoniaeth, Arloesedd a Thechnoleg (DSIT)
   - Yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon (DCMS)
   - Yr Adran Busnes a Masnach (DBT)
   - Y Weinyddiaeth Gyfiawnder
   - Y Swyddfa Dramor, y Gymanwlad a Datblygu (FCDO)
   - Gwasanaeth Erlyn y Goron (CPS)
   - Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EF (HMCTS)

- Yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol (FCA)
- Y Rheoleiddiwr Systemau Talu (PSR)
- Ofcom
- Awdurdod Twyll y Sector Cyhoeddus

2. Partneriaid ym maes gorfodi'r gyfraith:

- Y Ganolfan Troseddau Economaidd Genedlaethol (NECC)
- Yr Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol (NCA)
- Y Swyddfa Twyll Difrifol (SFO)
- Heddlu Dinas Llundain (yn ei rôl fel heddlu arweiniol ar gyfer twyll)
- Unedau Troseddau Cyfundrefnol Rhanbarthol (ROCUs)
- Heddluoedd lleol

3. Partneriaid o bob rhan o ddiwydiant a'r sector preifat.


151. Y Gweinidog Diogelwch sy'n gyfrifol, gan gynnwys drwy arwain y Tasglu Twyll ar y Cyd (JFT), am y partneriaethau trawslywodraethol ac mewn diwydiant sy'n angenrheidiol i gyflawni ymrwymiadau adrannol y strategaeth hon, a'r Ysgrifenyddion Gwladol sy'n atebol am yr elfennau o'r strategaeth o fewn cylch gwaith eu hadrannau.

### *Llywodraethu a goruchwylio*

152. Mae bwrdd rhaglen wedi cael ei sefydlu er mwyn llywio a llywodraethu'r gwaith o gyflawni'r strategaeth, monitro cynnydd, goruchwylio'r canlyniadau a rheoli risgiau allweddol sy'n gysylltiedig â diwygio. Caiff y bwrdd ei gadeirio gan Gyfarwyddwr Cyffredinol y Swyddfa Gartref dros Ddiogelwch Cartref, gyda chynrychiolaeth gan bob partner cyflawni o bob rhan o'r Llywodraeth ac asiantaethau gorfodi'r gyfraith. Bydd y JFT yn goruchwylio bwrdd y rhaglen.

153. Caiff hyn ei ategu gan seilweithiau llywodraethu lleol a sefydlir gan bartneriaid cyflawni, a byddant yn gweithio ochr yn ochr â chyrff llywodraethu gweithredol. Bydd yr Hyrwyddwr Gwrth-dwyll, Anthony Browne AS, yn eistedd ar y JFT ac yn gweithio'n amlochrog, gan weithredu rhwng y strwythurau hyn er mwyn ysgogi cydweithio.

Ffigur 6 – Llywodraethu er mwyn cyflawni'r Strategaeth Dwyll




***Sut y byddwn yn mesur llwyddiant***


154. Mae twyll wedi dychwelyd i'r lefelau a welwyd cyn y pandemig, fel y gwelir yn y ffigur isod. Yn seiliedig ar y ffigurau diweddaraf sydd ar gael gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol (SYG), amcangyfrifir bod 3.7 miliwn o achosion o dwyll wedi digwydd yn ystod y flwyddyn hyd at fis Rhagfyr 2022. **Ein huchelgais yw lleihau twyll 10% o gymharu â lefelau 2019**, i 3.33 miliwn o achosion o dwyll erbyn diwedd y Senedd hon. Byddwn yn atal dros 300,000 o achosion o dwyll drwy ymyriadau ymlid yn unig.

155. Bydd y Swyddfa Gartref yn parhau i ymgysylltu â diwydiant, arbenigwyr academaidd a rhanddeiliaid er mwyn atgyfnerthu'r data a'r mesurau ar gyfer olrhain cynnydd. Caiff fframwaith canlyniadau ei ddatblygu yn unol â cham gweithredu 43 yng Nghynllun Troseddau Economaidd 2 ('*develop an outcomes framework for the Economic Crime Plan 2*')[35] a bydd yn olrhain cynnydd tuag at gyflawni ein nodau.

156. Bydd y Swyddfa Gartref yn dechrau gweithio ar Strategaeth Werthuso fel adnodd dadansoddi allweddol er mwyn helpu i ddatblygu'r sylfaen dystiolaeth ar gyfer twyll a'r ymyriadau sy'n gweithio i frwydro yn ei erbyn. Bydd hyn yn cynnwys mynegi'r ddamcaniaeth newid sy'n sail i'r strategaeth dwyll yn glir, gan nodi sut a pham y disgwylir i newid a ddymunir ddigwydd, archwilio'r dirwedd werthuso bresennol, asesu pa fethodolegau gwerthuso y gellid eu defnyddio ar hyn o bryd a map ffordd sy'n nodi'r hyn y bydd ei angen i feithrin galluogrwydd gwerthuso.

[35] Economic Crime Plan 2 2023-26 (publishing.service.gov.uk)

Ffigur 7 – Achosion o Dwyll 2016/17 i 2021/22 o Arolwg Troseddu Cymru a Lloegr




Source: Appendix tables, year ending December 2022, CSEW

*TCSEW

# Atodiadau

## Atodiad 1: Cysylltiadau â strategaethau eraill y Llywodraeth

### Mae'r strategaeth hon yn cyd-fynd ag amrywiaeth o strategaethau a chynlluniau eraill gan y Llywodraeth sy'n mynd i'r afael â thwyll a bygythiadau allweddol eraill. Mae'r adran hon yn amlinellu ein dibyniaethau ym mhob un o'r gwahanol strategaethau hyn.

***Cynllun Troseddau Economaidd***

Mae Cynllun Troseddau Economaidd 2019-22, a gyhoeddwyd yn 2019, yn cynnwys cyfres o gamau gweithredu y cytunwyd arnynt ar gyfer y sector cyhoeddus a'r sector preifat er mwyn atgyfnerthu ein hymateb i droseddau economaidd. Fel rhan o Ddatganiad Cynnydd mis Mawrth 2021, gwnaethom bennu nodau byrdymor er mwyn dechrau ar ein hymgyrch i fynd i'r afael â thwyll. Cafodd cynllun newydd ei gyhoeddi yn 2023. Dyma'r ddogfen bolisi gyffredinol ar droseddau economaidd, ac mae'n crynhoi dull gweithredu'r Strategaeth Dwyll, yn ogystal â nodi ein dull o fynd i'r afael â throseddau economaidd ehangach gan gynnwys gwyngalchu arian, cleptocratiaeth ac osgoi sancsiynau, ac adennill mwy o asedau gan droseddwyr. Mae'r Cynllun Troseddau Economaidd diwygiedig yn cynnwys dulliau trawsbynciol ategol o leihau troseddu, megis mynd i'r afael â'r defnydd o rwydweithiau mulod arian a'u prosesau recriwtio, cryptoarian a chyllid anghyfreithlon cyffredinol sy'n gorgyffwrdd, a galluoedd a rhaglenni ym maes troseddau economaidd.

***Strategaeth Seiberddiogelwch***

Mae Strategaeth Seiberddiogelwch Genedlaethol 2022-25, a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2021, yn cynrychioli newid i ddull gweithredu cenedlaethol mwy cynhwysfawr mewn perthynas â seiberddiogelwch, gan ddwyn ynghyd ein galluoedd o fewn y llywodraeth a thu hwnt. Caiff y strategaeth hon ei harwain gan y pum piler, sef atgyfnerthu ein hecosystem seiberddiogelwch, meithrin cadernid, buddsoddi mewn technoleg, datblygu arweinyddiaeth fyd-eang, a tharfu ar ein gwrthwynebwyr yn y seiberofod. Drwy wella ein gallu i wrthsefyll bygythiadau seiber ac ymateb iddynt, bydd cyflawni'r Strategaeth Seiberddiogelwch Genedlaethol yn cael effaith sylweddol ar dwyll seiber.

***Cynllun Gorchfygu Troseddu***

Mae'r Cynllun Gorchfygu Troseddu, a gyhoeddwyd yn 2021, yn nodi dull cyffredinol y Llywodraeth o fynd i'r afael â throseddu a chadw'r cyhoedd yn ddiogel. Mae'n amlinellu'r

prif ffyrdd y bydd yn gwneud hyn, gan gynnwys meithrin galluogrwydd a chapasiti i ddelio â thwyll a throseddau ar-lein. Mae'n rhoi rhagolwg o'r Strategaeth Dwyll, gan ddangos ein bwriad i gyfyngu ar gyfleoedd i dwyllwyr, diogelu dioddefwyr, ac erlyn y troseddwyr sydd wedi cyflawni'r troseddau niweidiol hyn. Mae'r Strategaeth Dwyll yn esbonio sut y caiff hyn ei gyflawni.

### *Adolygiad Integredig*

Roedd yr Adolygiad Integredig, a gyhoeddwyd yn 2021, yn canolbwyntio ar roi Prydain Fyd-eang mewn sefyllfa i fynd i'r afael â'r bygythiadau mwyaf difrifol sy'n effeithio ar sofraniaeth, diogelwch a ffyniant y wlad. Mae Diweddariad 2023 o'r Adolygiad Integredig yn diweddaru blaenoriaethau'r Llywodraeth o ran diogelwch, amddiffyn, datblygu a pholisi tramor er mwyn adlewyrchu newidiadau yn y cyd-destun byd-eang ers hynny. Mae'r Diweddariad yn cydnabod pwysigrwydd twyll fel mater sy'n ymwneud â diogelwch gwladol, a phwysigrwydd y Strategaeth Dwyll er mwyn atal camddefnydd o systemau ariannol a rhyddid economaidd y DU ar gyfer llygredigaeth a throseddoldeb domestig a rhyngwladol. Hefyd, mae'n tynnu sylw at bwysigrwydd diogelu'r seiberofod ac amddiffyn y wlad rhag niwed trawswladol. Mae'r Strategaeth Dwyll yn esbonio sut y bydd y wlad yn datblygu arweinyddiaeth fyd-eang ar gyfer mynd i'r afael â'r bygythiad hwn, yn ogystal ag atgyfnerthu cadernid seiber i fygythiadau twyll.

### *Strategaeth Troseddau Difrifol a Chyfundrefnol*

Mae Strategaeth Troseddau Difrifol a Chyfundrefnol y DU, a gyhoeddwyd yn 2018, yn nodi dull Llywodraeth y DU o fynd i'r afael â throseddau difrifol a chyfundrefnol, ochr yn ochr ag asiantaethau gorfodi'r gyfraith, y sector cyhoeddus a'r sector preifat. Gan ei fod yn cyfrannu'n sylweddol at lefelau troseddau difrifol a chyfundrefnol a chostau i'r DU, nodwyd bod mynd i'r afael â thwyll yn flaenoriaeth, gyda phwyslais arbennig ar ddylunio systemau a phrosesau y mae'r cyhoedd yn dibynnu arnynt mewn ffordd sy'n atal twyll o'r cychwyn cyntaf, yn ogystal â gwella'r cymorth a roddir i ddioddefwyr a phobl agored i niwed. Mae'r pwyslais hwn wedi cael ei ehangu fel rhan o'r Strategaeth Dwyll ond mae'n dal wrth wraidd ein dull gweithredu.

### *Strategaeth Ddigidol 2022*

Strategaeth drawslywodraethol yw'r Strategaeth Ddigidol, a gyhoeddwyd yn 2022, ac mae'n nodi agenda uchelgeisiol y Llywodraeth ar gyfer polisi digidol. Mae'r adran ar Sylfeini Digidol, sydd â'r nod o atgyfnerthu sylfeini'r economi ddigidol, yn cynnwys polisïau sy'n canolbwyntio ar alluogi hunaniaethau digidol dibynadwy a diogel, gan ei gwneud yn haws gwirio hunaniaethau ar-lein a rhannu hunaniaethau wedi'u gwirio â phartneriaid yr ymddiriedir ynddynt. Mae dynwared a dwyn hunaniaeth yn ddulliau allweddol a ddefnyddir gan dwyllwyr i gyflawni eu troseddau, ac maent yn rhan bwysig o'r Strategaeth Dwyll.

### *Mynd i'r Afael â Thwyll yn y Sector Cyhoeddus*

Fel y nodwyd, byddwn yn cefnogi'r rhai sy'n mynd i'r afael â thwyll yn erbyn y Trysorlys. Mae'r Llywodraeth wedi rhoi nifer o wahanol strategaethau a chynlluniau ar waith er mwyn

gwella ein hymateb i'r rhai sy'n cymryd arian o bwrs y wlad. Cyhoeddodd yr Adran Gwaith a Phensiynau ei phapur gorchymyn, Ymladd Twyll yn y System Les, ym mis Mai 2022. Mae'n nodi cynlluniau'r Llywodraeth i fynd i'r afael â'r her sy'n gysylltiedig â thwyll, er mwyn aros ar y blaen i fygythiadau sy'n datblygu a lleihau lefelau twyll a gwallau yn y system les drwy weithredu gwell yn y rheng flaen, gan gymryd pwerau newydd, pan fydd amser seneddol yn caniatáu, i atgyfnerthu gallu'r Llywodraeth i ddarganfod twyllwyr, ymchwilio iddynt a'u cosbi, a dod â holl rym y Llywodraeth a'r sector preifat ynghyd i gydweithio er mwyn mynd i'r afael â thwyll. Caiff CThEF ei ariannu'n unigryw gan Drysorlys EF i gyflawni ymateb y DU i ymosodiadau ar y system dreth a mynd i'r afael â'r rhai sy'n mynd ati'n fwriadol ac yn onest i dwyllo CThEF drwy osgoi treth, dwyn arian cyhoeddus neu dwyllo'r system mewn ffyrdd eraill. Bydd Awdurdod Twyll y Sector Cyhoeddus yn cyhoeddi Strategaeth Weithredol Pedair Blynedd a fydd yn nodi ymateb y llywodraeth ganolog i dwyll yn erbyn y sector cyhoeddus.

### *Atal Llygredigaeth*

Mae'r gwaith o ddatblygu Strategaeth Wrth-Lygredigaeth newydd ar gyfer y DU yn mynd rhagddo a disgwylir iddi gael ei chyhoeddi yn 2023. Bydd y Strategaeth newydd yn adeiladu ar y cynnydd a wnaed gan Strategaeth Wrth-Lygredigaeth 2017-2022 y DU ac yn amlinellu ymateb y DU i atgyfnerthu'r gallu i wrthsefyll llygredigaeth a chyllid anghyfreithlon yn y DU ac yn rhyngwladol. Mae llygredigaeth a chyllid anghyfreithlon yn tanseilio diogelwch gwladol a sefydlogrwydd byd-eang, yn llesteirio ffyniant byd-eang ac yn erydu ymddiriedaeth mewn sefydliadau gan niweidio ei ddioddefwyr ar yr un pryd. Mae'r Strategaeth newydd yn cael ei datblygu er mwyn brwydro yn erbyn y bygythiad hwn.

# Atodiad 2: Cwmpas daearyddol

Mae'r gyfraith yn ymdrin â thwyll mewn ffyrdd gwahanol ym mhedair gwlad y DU. Caiff Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon eu cwmpasu gan Ddeddf Twyll 2006, ac ymdrinnir â thwyll yn yr Alban fel trosedd yn y gyfraith gyffredin gan mwyaf. Mae materion sy'n ymwneud â phlismona a chyfiawnder troseddol wedi'u datganoli yn yr Alban a Gogledd Iwerddon.

**Cymru a Lloegr**

Heddlu Dinas Llundain yw'r heddlu arweiniol cenedlaethol ar gyfer twyll yng Nghymru a Lloegr. Dyma'r corff sy'n cydgysylltu'r prosesau ar gyfer rhoi gwybod am dwyll, ymchwilio iddo a rhoi cymorth i ddioddefwyr.

Prin yw'r datganoli i Gymru ym maes twyll, ond mae Llywodraeth Cymru yn parhau i weithio mewn partneriaeth â Llywodraeth y DU ynghylch twyll, gan gynnwys presenoldeb yn y Tasglu Twyll ar y Cyd.

**Gogledd Iwerddon**

Yng Ngogledd Iwerddon, yr Adran Gyfiawnder sy'n gyfrifol am swyddogaethau plismona a chyfiawnder datganoledig, gan gynnwys polisi cyfiawnder troseddol, sydd o fewn cymhwysedd Cynulliad Gogledd Iwerddon. Gwasanaeth Heddlu Gogledd Iwerddon (PSNI) yw'r unig wasanaeth heddlu yng Ngogledd Iwerddon, a'r asiantaeth weithredol arweiniol ar gyfer troseddau difrifol a chyfundrefnol, gan weithio'n agos gyda'r NCA, CThEF ac asiantaethau perthnasol eraill. Gwasanaeth Erlyn Cyhoeddus Gogledd Iwerddon yw'r awdurdod erlyn.

Mae'r Tasglu Troseddau Cyfundrefnol (OCTF) yn fforwm pwysig yn y frwydr yn erbyn troseddau cyfundrefnol yng Ngogledd Iwerddon. Mae'r OCTF yn dod ag asiantaethau gorfodi'r gyfraith ac adrannau perthnasol y llywodraeth ynghyd ac mae'n rhoi arweinyddiaeth strategol ar gyfer ymateb cyfunol a chydweithredol i fygythiad troseddau cyfundrefnol yng Ngogledd Iwerddon. Ymgysylltir â'r sector preifat o dan strwythurau'r OCTF. Mae gwaith yr OCTF hefyd yn canolbwyntio ar weithgareddau ymlid a diogelu cyfunol er mwyn mynd i'r afael â thwyll sy'n gysylltiedig â throseddau cyfundrefnol, sef blaenoriaethau allweddol o dan Strategaeth Troseddau Cyfundrefnol Gogledd Iwerddon.[36]

I Action Fraud y rhoddir gwybod am achosion o dwyll a digwyddiadau seiberdroseddu cysylltiedig yng Ngogledd Iwerddon fel arfer, neu i'r PSNI dan amgylchiadau penodol. Mae gan Ogledd Iwerddon bartneriaeth 'Scamwise NI' sefydledig, a gaiff ei chadeirio gan y PSNI, sy'n dwyn ynghyd dros 45 o sefydliadau sy'n rhannu uchelgais o frwydro yn erbyn bygythiad twyll. Ymhlith y sefydliadau sy'n rhan o'r bartneriaeth mae cynrychiolwyr o grwpiau ffydd, sefydliadau ieuenctid, a'r sector elusennol, yn ogystal ag adrannau'r llywodraeth, asiantaethau gorfodi'r gyfraith a rhanddeiliaid yn y sector preifat. Mae gwaith

[36] Organised Crime Strategy | Northern Ireland 2021-2024 (octf.gov.uk)

y bartneriaeth yn cynnwys ymgyrchoedd codi ymwybyddiaeth i hysbysu'r gymuned am y risg o sgamiau, a'r amrywiaeth o sgamiau sydd i'w cael, a rhannu gwybodaeth rhwng sefydliadau.

Mae Adran Gyfiawnder Gogledd Iwerddon yn mynychu'r Tasglu Twyll ar y Cyd.

**Yr Alban**

Yn yr Alban, Swyddfa'r Goron a'r Procuradur Ffisgal, sy'n gweithredu o dan awdurdod yr Arglwydd Adfocad, yw'r awdurdod erlyn sy'n gyfrifol am ymchwilio i droseddau a'u herlyn. Heddlu'r Alban yw'r unig wasanaeth heddlu yn yr Alban, ac mae'n gweithio'n agos gyda'r NCA, CThEF, yr FCA ac asiantaethau perthnasol eraill i ymchwilio i droseddau economaidd. Mae'r Alban y tu allan i awdurdodaeth Action Fraud a'r Swyddfa Twyll Difrifol, yn wahanol i weddill y DU. Fel arfer yn yr Alban, rhoddir gwybod am dwyll yn uniongyrchol i Heddlu'r Alban, sy'n gyfrifol am ymchwiliadau i dwyll. Cyhoeddodd Llywodraeth yr Alban strategaeth ar atal sgamiau, codi ymwybyddiaeth ohonynt a chymryd camau gorfodi mewn ymateb iddynt ym mis Mawrth 2021. Mae'r fframwaith strategol, fel y nodir yn y strategaeth hon, yn ategu gweithgareddau diogelu ac ymlid sy'n ceisio lleihau gallu sgamwyr i dargedu pobl a chyflawni sgamiau a lleihau difrifoldeb y canlyniadau pan fydd sgam yn llwyddiannus. Ochr yn ochr â'r strategaeth hon, gwnaeth Llywodraeth yr Alban hefyd sefydlu partneriaeth strategol ar gyfer atal sgamiau, sy'n dod â nifer o bartneriaid cyhoeddus a phreifat ynghyd i fabwysiadu llais a rennir a datblygu eiriolaeth gyfunol ar faterion allweddol sy'n ymwneud ag atal sgamiau, codi ymwybyddiaeth ohonynt a chymryd camau gorfodi mewn ymateb iddynt.

Mae swyddogion Llywodraeth yr Alban yn mynychu'r Tasglu Twyll ar y Cyd.

# Atodiad 3: Methodoleg cost twyll

Mae'r amcangyfrif o gost economaidd a chymdeithasol twyll yn helpu i adnabod a dangos graddau effeithiau ehangach troseddau twyll. I gyfrifo hyn, mae'r fframwaith pennu costau o '*The Economic and Social Costs of Crime*' (y Swyddfa Gartref, 2018) wedi cael ei ddefnyddio. [37] Mae'r amcangyfrif hwn sydd wedi'i ddiweddaru yn ystyried effaith twyll yn erbyn unigolion yng Nghymru a Lloegr yn 2019/20.

Mae'r atodiad hwn yn nodi'r dull a ddefnyddiwyd i amcangyfrif cost economaidd a chymdeithasol twyll. Er y gellir gwahanu cost twyll oddi wrth gyfanswm cost troseddau, mae'r fframwaith cyfrifo yn golygu ei bod wedi cael ei chyfrifo ar yr un pryd â chost mathau eraill o droseddau, er enghraifft lladdiadau. Er mwyn dyrannu costau i'r gwahanol fathau o droseddau, mae'r fethodoleg weithiau'n dibynnu ar ddifrifoldeb cymharol twyll o gymharu â'r troseddau eraill sydd wedi'u cynnwys yn '*The Economic and Social Costs of Crime*' (y Swyddfa Gartref, 2018). Felly, ni ellir cyfrifo'r amcangyfrif isod gan ddefnyddio'r wybodaeth yn yr atodiad hwn yn unig.

**Cwmpas**

Ceir amrywiaeth o amcangyfrifon o gost twyll i'r DU sy'n amrywio o ran cwmpas a methodoleg. Mae cost economaidd a chymdeithasol twyll yn amcangyfrif effaith twyll yn erbyn unigolion yng Nghymru a Lloegr. Oherwydd cyfyngiadau data, mae cost troseddau twyll a gyflawnir yn erbyn busnesau a'r sector cyhoeddus y tu allan i gwmpas yr amcangyfrif hwn.

Mae'r amcangyfrif yn seiliedig ar flwyddyn ariannol 2019/20. Mae hyn yn osgoi defnyddio amcangyfrifon o gostau a niferoedd yr effeithiodd pandemig COVID-19 arnynt.

Mae'r amcangyfrif yn cynnwys tri phrif faes cost:

1. Costau cyn twyll, e.e. mesurau atal twyll a gaiff eu rhoi ar waith gan fanciau.
2. Costau o ganlyniad i dwyll, e.e. gwerth colledion ariannol a niwed emosiynol.
3. Costau mewn ymateb i dwyll, e.e. costau i'r heddlu yn sgil ymchwilio i drosedd.


Caiff y costau eu cyfrifo o safbwynt dioddefwyr, ac nid ydynt yn cynnwys effeithiau ehangach ar ddioddefwyr anuniongyrchol (er enghraifft y niwed emosiynol i deulu a ffrindiau'r dioddefwr). Hefyd, nid yw'r holl weithgarwch ataliol gan ddiwydiant yn erbyn twyll wedi cael ei ystyried. Felly, cost rannol sydd wedi'i chynnwys yn y dadansoddiad hwn ac mae'n tanamcangyfrif gwir effaith twyll ar gymdeithas.

[37] Y Swyddfa Gartref (2018) 'The Economic and Social Costs of Crime, Second Edition' https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/732110/the-economic-and-social-costs-of-crime-horr99.pdf

## Cyfanswm y Gost

Amcangyfrifir mai cyfanswm cost economaidd a chymdeithasol twyll i unigolion yw £6.8 biliwn (2019/20). Amcangyfrifir bod 3,675,000 o droseddau twyll wedi cael eu cyflawni yn 2019/20.[38] Y maes cost mwyaf sy'n cyfrannu at gyfanswm y gost yw'r golled ariannol (~£3.1bn), ac yna'r niwed emosiynol i ddioddefwyr (~£1.3bn). Caiff y naill a'r llall eu categoreiddio fel 'costau o ganlyniad' i droseddau.

Ffigur 8 – Dadansoddiad o gost economaidd a chymdeithasol twyll 19/20.




## Methodoleg

### Nifer y Troseddau Twyll

Mae Arolwg Troseddu Cymru a Lloegr yn cynnwys amcangyfrifon o nifer y troseddau twyll yn erbyn unigolion. Yn 2019/20, yr amcangyfrif oedd 3,675,000.[39]

### Costau ymlaen llaw

[38] Crime in England and Wales – Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ons.gov.uk)
[39] Crime in England and Wales – Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ons.gov.uk)

Eir i gostau ymlaen llaw cyn y digwyddiad. Amcangyfrifir dwy gost: gwariant amddiffynnol a gwaith gweinyddol sy'n gysylltiedig ag ad-dalu.

1. Diffinnir **gwariant amddiffynnol** fel arian y bydd unigolion a busnesau yn ei wario ar fesurau canfod ac atal troseddau. Ar gyfer twyll, mae hyn yn cynnwys gwariant gan fanciau ar weithrediadau gwrth-dwyll i ddiogelu eu cwsmeriaid rhag twyll.[40] Amcangyfrifir mai cyfanswm cost gwariant amddiffynnol ar ddiogelu unigolion rhag twyll oedd £0.9 biliwn yn 2019/20.

2. Mae **cost weinyddol** trefnu a phrosesu yswiriant a hawliadau am ad-daliad sy'n gysylltiedig â throseddau yn gost cyfle i gyflogeion (e.e. costau safleoedd, cyflogau a chyfarpar) pan allent ymwneud â gweithgareddau cynhyrchiol eraill mewn cymdeithas.[41] Tybir bod cydberthynas uniongyrchol rhwng gwerth hawliadau twyll a gaiff eu had-dalu a faint o waith gweinyddol sy'n ofynnol. Amcangyfrifir mai cost cyfle prosesu ad-daliadau am achosion o dwyll yn erbyn unigolion oedd £0.07 biliwn yn 2019/20.

**Costau o ganlyniad**
Mae'r rhain yn cynnwys costau yr eir iddynt yn uniongyrchol ar ôl i'r drosedd gael ei chyflawni. Mae'r holl gostau o safbwynt dioddefwyr ac maent yn cynnwys y golled ariannol, niwed emosiynol, allbwn a gollwyd, gwasanaethau iechyd, a gwasanaethau i ddioddefwyr.

1. **Gwerth colli eiddo –** Mae Arolwg Troseddu Cymru a Lloegr yn cyhoeddi gwybodaeth am natur niwed troseddau twyll yn erbyn unigolion, sy'n cynnwys gwybodaeth am golled ariannol i ddioddefwyr twyll.[42] Caiff y data hyn eu haddasu er mwyn amcangyfrif cyfanswm y golled ariannol a brofwyd gan ddioddefwyr twyll yn 2019/20. Amcangyfrifir mai cyfanswm y gost ariannol o ganlyniad i achosion o dwyll yn erbyn unigolion oedd £3.1 biliwn yn 2019/20. Mae'r set ddata hon wedi cael ei defnyddio gan gydnabod y ffaith bod colledion o droseddau a gofnodwyd yn unig yn debygol o fod wedi'u tanamcangyfrif.

2. **Niwed emosiynol** – Bydd rhai dioddefwyr twyll yn cael niwed emosiynol. Yn unol â The Economic and Social Costs of Crime (y Swyddfa Gartref, 2018), defnyddir dull Blwyddyn Fywyd a Addaswyd yn ôl Ansawdd (QALY) er mwyn rhoi gwerth ariannol i effeithiau emosiynol gorbryder, iselder, ac ofn ar ddioddefwyr. Mae Arolwg Troseddu Cymru a Lloegr yn cyhoeddi gwybodaeth am nifer y dioddefwyr a gaiff fathau penodol

[40] UK Finance (2020) 'Written evidence submitted by UK Finance'. https://committees.parliament.uk/writtenevidence/18646/pdf/

[41] Caiff ad-daliadau twyll eu hanwybyddu am nad ydynt yn cynrychioli cost i gymdeithas; arian a drosglwyddir rhwng unigolyn a busnes, ac fel arall, yw'r rhain. Mae colled ariannol yn sgil twyll wedi'i chynnwys yn yr adran 'Costau o ganlyniad'.

[42] SYG (Mawrth 2020), Nature of crime: fraud and computer misuse – Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ons.gov.uk)

niwed emosiynol o ganlyniad i dwyll.[43] Amcangyfrifir bod cyfanswm y niwed emosiynol a achoswyd i ddioddefwyr uniongyrchol twyll wedi costio £1.3 biliwn yn 2019/20.

1. **Gwasanaethau Iechyd** – Gall fod angen triniaeth ar gyfer y niwed emosiynol a achosir i ddioddefwyr twyll ac, felly, pe bai llai o bobl yn cael eu niweidio drwy droseddau, gallai'r adnoddau a ddefnyddir i'w trin gael eu defnyddio ar gyfer gweithgareddau amgen. Mae'r amcangyfrif hwn o'r gost yn ceisio adlewyrchu'r gost i'r gwasanaeth iechyd drwy ystyried y tebygolrwydd o brofi niwed[44] ochr yn ochr â'r gost i'r GIG sy'n gysylltiedig â rhoi triniaeth fel cwnsela. Amcangyfrifir mai cyfanswm cost trin dioddefwyr uniongyrchol twyll oedd £0.5 biliwn yn 2019/20.

2. **Allbwn a gollwyd** – Gall unigolion brofi lleihad mewn gweithgarwch economaidd o ganlyniad i fod yn ddioddefwyr troseddau. I amcangyfrif y gost hon, defnyddir dull tebyg i The Economic and Social Costs of Crime (y Swyddfa Gartref, 2018), gan ddiweddaru'r mewnbynnau lle bo modd, e.e. cyflogau a'r oriau a weithiwyd. Amcangyfrifir mai cyfanswm cost yr allbwn a gollwyd gan ddioddefwyr uniongyrchol twyll oedd £0.4 biliwn yn 2019/20.

3. **Gwasanaethau i ddioddefwyr –** I amcangyfrif cyfanswm y gost, mae cyfanswm y gwariant ar wasanaethau i ddioddefwyr yn deillio o gyllid gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder i'r Comisiynwyr Heddlu a Throseddu gomisiynu gwasanaethau i ddioddefwyr a chyllid i Cyngor ar Bopeth gynnal y Gwasanaeth Tystion Cenedlaethol. Caiff ei rannu'n wariant i dargedu gwahanol fathau o droseddau, gan gynnwys twyll, gan ddefnyddio'r gyfran gymharol o gyfanswm y costau emosiynol a briodolwyd i bob math o drosedd (fel yr amcangyfrifwyd yn yr adran ar niwed corfforol ac emosiynol uchod). Amcangyfrifir mai cyfanswm cost y gwasanaethau i ddioddefwyr twyll oedd £3 miliwn yn 2019/20.

**Costau mewn ymateb i droseddau**

Gall troseddau twyll arwain at gost i asiantaethau gorfodi'r gyfraith. Mae'r gost hon yn dibynnu ar nifer y troseddau yr ymchwilir iddynt gan arwain at gyhuddiad. Rhennir y gost hon yn ddau faes ymateb: costau'r heddlu a chostau eraill y System Cyfiawnder Troseddol.

1. Achosir **costau'r heddlu** pan fydd yr heddlu'n delio â throseddau ac yn ymchwilio iddynt. Caiff cyfanswm cyllideb ganolog yr heddlu ar gyfer 2019/20 ei rhannu'n wahanol weithgareddau a gyflawnir gan yr heddlu (sy'n ymwneud â throseddau ac fel arall) gan ddefnyddio data 'costau seiliedig ar weithgareddau' a ddarperir gan heddluoedd (2006/07). Mae'r gweithgareddau hyn yn cynnwys dadansoddiad o gost amcangyfrifedig delio â gwahanol fathau o droseddau, gan gynnwys twyll, a'r gorbenion cysylltiedig. Nid yw'r gyllideb yn cynnwys cost asiantaethau y tu allan i'r

[43] SYG (Mawrth 2020), Nature of crime: fraud and computer misuse – Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ons.gov.uk)

[44] SYG (Mawrth 2020), Nature of crime: fraud and computer misuse – Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ons.gov.uk)

heddlu a fydd yn ymchwilio i achosion o dwyll (e.e. yr Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol, y Swyddfa Twyll Difrifol, yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol). Amcangyfrifir mai cyllideb yr heddlu a glustnodwyd ar gyfer delio ag achosion o dwyll oedd £0.2 biliwn yn 2019/20.

2. Mae cost **y System Cyfiawnder Troseddol (heb gynnwys yr heddlu)** yn cynnwys meysydd sy'n ymwneud â chyhuddo ac erlyn, a ddisgrifir isod. Amcangyfrifir mai cyfanswm y gost i'r System Cyfiawnder Troseddol oedd £0.3 biliwn yn 2019/20.

2.1 **Gwasanaeth Erlyn y Goron (CPS)**
Gwasanaeth Erlyn y Goron sy'n gyfrifol am erlyn achosion troseddol y mae'r heddlu a sefydliadau ymchwilio eraill yng Nghymru a Lloegr wedi ymchwilio iddynt. Caiff costau'r adnoddau sydd eu hangen i ddelio â llwyth achosion Gwasanaeth Erlyn y Goron eu pennu gan ddefnyddio Gwariant Gweithredu Gros Gwasanaeth Erlyn y Goron.

2.2 **Llysoedd a Rheithgorau**
Bydd pob achos llys yn dechrau yn y Llys Ynadon a bydd yr achosion mwyaf difrifol wedyn yn cael eu huwchgyfeirio at Lys y Goron lle y bydd rheithgor yn gwrando'r achos. Caiff y gost i Lysoedd y Goron a Llysoedd Ynadon ei hamcangyfrif gan ddefnyddio cost fesul diwrnod eistedd achos a niferoedd yr achosion llys, ac – ar gyfer achosion yn Llys y Goron – cost cyfle rheithwyr.

2.3 **Amddiffyniad Cyfreithiol**
Gall cynorthwyydd cyfreithiol roi cyngor cyfreithiol, darparu gwasanaeth cyfryngu a chynrychioli rhywun yn y llys. Caiff y cymorth hwn ei roi gan Gymorth Cyfreithiol neu drwy amddiffyniad preifat. Caiff nifer yr achosion lle y rhoddir Cymorth Cyfreithiol o gymharu ag amddiffyniad preifat a'r gost briodol fesul achos eu defnyddio i amcangyfrif cyfanswm cost amddiffyniad ar gyfer achosion twyll.

2.4 **Y Gwasanaeth Prawf**
Dedfryd nad yw'n cael ei chyflawni yn y carchar yw prawf. Gall hyn olygu dedfrydau cymunedol neu ryddhau o'r carchar ar drwydded neu barôl. Mae'r gost yn cynnwys swyddogion prawf sy'n goruchwylio ac yn cefnogi unigolion sydd ar brawf.

2.5 **Y Gwasanaeth Carchardai**
Gall troseddwyr gael dedfryd o garchar am droseddau twyll difrifol. Caiff cost carcharu troseddwyr ei hamcangyfrif gan ddefnyddio cost flynyddol y Weinyddiaeth Gyfiawnder fesul lle mewn carchar ac ystadegau carchardai.[45]

2.6 **Timau Troseddau Ieuenctid**

[45] Y Weinyddiaeth Gyfiawnder (Mawrth 2020) Prison Performance Ratings: 2019 to 2020 GOV.UK (www.gov.uk) a Criminal justice system statistics quarterly: March 2020 - GOV.UK (www.gov.uk)

Mae costau troseddwyr ifanc wedi'u hymgorffori yng nghostau'r System Cyfiawnder Troseddol uchod, heblaw Timau Troseddau Ieuenctid. Mae Timau Troseddau Ieuenctid yn cefnogi ac yn goruchwylio pobl ifanc a gaiff eu harestio, eu cyhuddo a'u heuogfarnu am droseddau. Amcangyfrifir y gost hon gan ddefnyddio cyfanswm cyllideb Timau Troseddau Ieuenctid yn 2019/20.

| Maes Cost | Cost (£bn) | Gwaith cyfrifo | Mewnbynnau allweddol |
|---|---|---|---|
| **Cyfanswm** | **£6.80** | | |
| Gwariant Amddiffynnol | £0.90 | Cost Mynd i'r Afael â Thwyll | UK Finance (2020), 'Written evidence submitted by UK Finance'. https://committees.parliament.uk/writtenevidence/18646/pdf/ |
| Gweinyddu Ad-daliadau | £0.07 | Cyfanswm yr ad-daliadau twyll * Dirprwy ar gyfer y gymhareb gymharol rhwng y gost weinyddol a chyfanswm yr ad-daliadau | UK Finance (2022), Annual Fraud Report 2022 \| Policy and Guidance \| UK Finance Data heb eu cyhoeddi a ddarparwyd yn uniongyrchol gan Gymdeithas Yswirwyr Prydain (ABI) ar gyfer 2019 (costau gweinyddol) a 2019/20 (gwerth yr hawliadau). |
| Colled Ariannol | £3.10 | Swm (nifer ym mand Gwerth Colled Arolwg Troseddu Cymru a Lloegr (CSEW) * Pwynt canol y band) | SYG (Mawrth 2020), Nature of crime: fraud and computer misuse – Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ons.gov.uk) |
| Niwed Emosiynol | £1.30 | Nifer yr achosion o dwyll yn CSEW * (y tebygolrwydd o gael niwed yn ôl CSEW * Gwerth Blwyddyn Fywyd * Dirywiad mewn Ansawdd Bywyd * Hyd y niwed) | SYG (Mawrth 2020), Nature of crime: fraud and computer misuse – Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ons.gov.uk)<br><br>Trysorlys EF (2021), Green Book<br><br>Y Swyddfa Gartref (2018), 'The Economic and Social Costs of Crime, Third Edition' |
| Gwasanaethau Iechyd | £0.50 | Nifer yr achosion o dwyll yn CSEW * (y tebygolrwydd o gael niwed yn ôl CSEW * | SYG (Mawrth 2020), Nature of crime: fraud and computer misuse – Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ons.gov.uk) |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | nifer cyfartalog yr oriau o gwnsela sy'n ofynnol * cost awr o gwnsela) | Curtis a Burns (2020), Unit Costs of Health and Social Care 2020 \| PSSRU<br><br>Y Swyddfa Gartref (2018), 'The Economic and Social Costs of Crime, Third Edition' |
| Allbwn a Gollwyd | £0.40 | Cyfradd cyflogaeth * [Oriau a gymerwyd i ffwrdd o'r gwaith * Canolrif cyflog fesul awr) + [(Hyd y niwed – Oriau a gymerwyd i ffwrdd o'r gwaith) * Dirprwy ar gyfer lleihad mewn cynhyrchiant * Canolrif cyflog fesul awr]] * Niferoedd CSEW | SYG (Mawrth 2020), Crime in England and Wales: Annual Trend and Demographic Tables – Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ons.gov.uk)<br><br>Y Swyddfa Gartref (2018), 'The Economic and Social Costs of Crime, Third Edition'<br><br>SYG (Mawrth 2020), Earnings and hours worked, all employees: ASHE Table 1 – Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ons.gov.uk)<br><br>SYG (Mawrth 2020), Nature of crime: fraud and computer misuse – Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ons.gov.uk)<br><br>Y Swyddfa Gartref (2018), 'The Economic and Social Costs of Crime, Third Edition' |
| Gwasanaethau i Ddioddefwyr | <£0.1 | Cyfanswm cost Gwasanaethau i Ddioddefwyr * Niwed emosiynol cymharol a ffactor niferoedd | Y Weinyddiaeth Gyfiawnder (2019), Victim and witness funding awards - GOV.UK (www.gov.uk)<br><br>Cyngor ar Bopeth (2021), The impact of the Witness Service – Cyngor ar Bopeth<br><br>SYG (Mawrth 2020), Nature of crime: fraud and computer misuse – Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ons.gov.uk) |
| Costau'r Heddlu | £0.20 | Cyllideb heddluoedd 2019/20 * Costau Cymharol Seiliedig ar Weithgareddau ar gyfer twyll yn 2006/07 o gymharu â'r holl Droseddau a Gofnodwyd gan yr Heddlu | Data Costau Seiliedig ar Weithgareddau (ABC) mewnol y Swyddfa Gartref (2006/07)<br><br>Y Swyddfa Gartref (2018), 'The Economic and Social Costs of Crime, Third Edition'<br><br>Troseddau a Gofnodwyd gan yr Heddlu, Police recorded crime and outcomes open data tables – GOV.UK (www.gov.uk) |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | Cyllid Heddlu'r Swyddfa Gartref (Gorffennaf, 2021), Police funding for England and Wales 2015 to 2022 – GOV.UK (www.gov.uk) |
| **Costau'r System Cyfiawnder Troseddol** | **£0.30** | | |
| *Gwasanaeth Erlyn y Goron (GEG)* | | *Gwariant GEG * Pwysoliad cymhlethdod ar gyfer twyll (Cyfran berthnasol i dwyll o amser gwrando llysoedd * cyfran o niferoedd GEG)* | *Data pwrpasol GEG (2019/20) ar lwyth achosion GEG a ddarparwyd gan GEG*<br><br>*SYG (Gorffennaf 2022), Crime Severity Score (Experimental Statistics) – Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ons.gov.uk),*<br><br>*SYG (Mawrth 2020), Crime in England and Wales: Appendix tables* – Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ons.gov.uk) |
| *Gwasanaeth Rheithgor* | | *Nifer y diwrnodau eistedd * Nifer y gwrandawiadau * Nifer yr unigolion ar reithgor * % Mewn gwaith/Di-waith * Cyflogau pobl Mewn gwaith/Di-waith* | *SYG (Mawrth 2020), Earnings and working hours – Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ons.gov.uk)*<br><br>*SYG (Rhagfyr 2020), Index of Labour Costs per Hour, seasonally adjusted – Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ons.gov.uk)*<br><br>Llyfr Data TAG yr Adran Drafnidiaeth (Ionawr 2023), TAG data book - GOV.UK (www.gov.uk) |
| *Llysoedd* | | *Nifer y diwrnodau eistedd fesul gwrandawiad * Cost fesul diwrnod eistedd * Nifer y gwrandawiadau* | *Y Weinyddiaeth Gyfiawnder (Mehefin 2022) Criminal court statistics quarterly: January to March 2022 – GOV.UK (www.gov.uk)*<br><br>*Data Mewnol y Weinyddiaeth Gyfiawnder, (Mawrth 2020)* |
| *Prawf* | | *Cyfanswm Cost Twyll i'r Gwasanaeth Prawf (2015/16) wedi'i chwyddo yn unol â phrisiau 2019/20* | *Y Swyddfa Gartref (2018), 'The Economic and Social Costs of Crime, Third Edition'*<br><br>*Datchwyddydd Cynnyrch Domestig Gros, GDP deflators at market prices, and money GDP November 2022 (Autumn Statement) – GOV.UK (www.gov.uk)* |
| *Carchar* | | *Y nifer a ddedfrydir * Hyd dedfryd ar gyfartaledd * Cyfran y ddedfryd a gyflawnir ar gyfartaledd * Cost fesul carcharor bob blwyddyn* | *Y Weinyddiaeth Gyfiawnder (Mawrth 2022), Criminal court statistics quarterly: March 2020 - GOV.UK (www.gov.uk)*<br><br>*Y Weinyddiaeth Gyfiawnder (Mawrth 2020), Prison Performance Ratings: 2019 to 2020 – GOV.UK (www.gov.uk)* |

| | | | |
|---|---|---|---|
| *Timau Troseddau Ieuenctid* | | *Nifer cymharol y troseddau twyll * Difrifoldeb cymharol y troseddau twyll * Cyllideb y gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid* | *Y Weinyddiaeth Gyfiawnder (Mawrth 2020), Youth Justice statistics: 2019 to 2020 – GOV.UK (www.gov.uk)*<br><br>*Y Weinyddiaeth Gyfiawnder (Mawrth 2020), Prevention and Diversion Scoping Survey Summary – Youth Justice Board (June 2021) – Youth Justice Resource Hub (yjresourcehub.uk)]* |

## Rhestr termau

- **Action Fraud:** Y ganolfan genedlaethol ar gyfer rhoi gwybod am dwyll a seiberdroseddu yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon. Rhan o Heddlu Dinas Llundain.
- **Agored i niwed:** Person sydd, oherwydd ei nodweddion neu amgylchiadau, yn wynebu risg fwy o niwed ac, os bydd yn dioddef niwed, a all gael niwed mwy difrifol.
- **Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol (NCA):** Yr NCA sy'n arwain brwydr y DU i leihau troseddau difrifol a chyfundrefnol drwy weithio ar flaen y gad ym maes gorfodi'r gyfraith, datblygu darlun cudd-wybodaeth o fygythiadau troseddau difrifol a chyfundrefnol a mynd ar ôl y troseddwyr mwyaf difrifol.
- **Awdurdod Twyll y Sector Cyhoeddus:** Mae Awdurdod Twyll y Sector Cyhoeddus (PSFA) yn gweithio gydag adrannau a chyrff cyhoeddus i ddeall a lleihau effaith twyll yn erbyn y sector cyhoeddus.
- **Awdurdod Ymddygiad Ariannol (FCA):** Rheoleiddiwr ymddygiad ar gyfer tua 51,000 o gwmnïau gwasanaethau ariannol a marchnadoedd ariannol yn y DU.
- **Biwro Cudd-wybodaeth Twyll Cenedlaethol (NFIB):** Uned heddlu sy'n gyfrifol am gasglu a dadansoddi cudd-wybodaeth sy'n gysylltiedig â thwyll a seiberdroseddau â chymhelliant ariannol. Rhan o Heddlu Dinas Llundain.
- **Canolfan Seiberddiogelwch Genedlaethol (NCSC):** Awdurdod technegol y DU ar gyfer bygythiadau seiber, sy'n sicrhau ymateb cenedlaethol unedig i ddigwyddiadau seiber er mwyn lleihau'r niwed cymaint â phosibl, helpu i adfer a dysgu gwersi ar gyfer y dyfodol.
- **Canolfan Troseddau Economaidd Genedlaethol (NECC):** Mae'r NECC yn dod ag asiantaethau gorfodi'r gyfraith ac asiantaethau cyfiawnder, adrannau'r Llywodraeth, cyrff rheoleiddio a'r preifat sector ynghyd, gydag amcan cyffredin i leihau troseddau economaidd difrifol, amddiffyn y cyhoedd a diogelu ffyniant y DU fel canolfan ariannol.
- **Cifas:** Gwasanaeth atal twyll nid-er-elw yn y Deyrnas Unedig.
- **Cryptoarian:** Arian cyfred digidol lle y caiff trafodion eu gwirio a lle y caiff cofnodion eu cynnal mewn system ddatganoledig gan ddefnyddio cryptograffeg, yn hytrach nag awdurdod canolog.
- **Cynnwys wedi'i greu gan ddefnyddwyr:** Cynnwys ar lwyfannau ar-lein, megis y cyfryngau cymdeithasol, a gaiff ei greu neu ei rannu gan ddefnyddiwr (yn hytrach na'r

llwyfan neu fusnes), y gall defnyddiwr arall ryngweithio ag ef, fel trydariad neu bostiad Instagram.

- **Darparwr Gwasanaethau Talu:** Sefydliad sy'n hwyluso taliadau rhwng unigolion a busnesau, megis Mastercard neu fanc.
- **DBT:** Yr Adran Busnes a Masnach, sef adran weinidogol a ffurfiwyd yn 2023 er mwyn cyfuno busnes a masnach mewn un adran.
- **DCMS:** Yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon, sef adran weinidogol sy'n canolbwyntio ar gefnogi diwylliant, y celfyddydau, y cyfryngau, chwaraeon, twristiaeth a chymdeithas sifil.
- **DSIT:** Yr Adran dros Wyddoniaeth, Arloesedd a Thechnoleg, sef adran weinidogol a sefydlwyd yn 2023 er mwyn dod â rhannau perthnasol ynghyd o'r Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol gynt a'r Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon gynt.
- **Dwyn hunaniaeth:** Dwyn gwybodaeth bersonol.
- **Dynwared:** Ffugio neges neu alwad gan rywun anhysbys fel ei bod yn ymddangos fel pe bai gan rywun hysbys yr ymddiriedir ynddo. Gall hyn fod yn berthnasol i negeseuon e-bost, galwadau ffôn a negeseuon testun, neu ddulliau mwy technegol fel cyfeiriadau IP.
- **Ffermydd SIM:** Dyfeisiau sy'n gallu dal cannoedd o gardiau SIM yw ffermydd SIM, ac maent yn gallu anfon miloedd o negeseuon testun twyllodrus er mwyn twyllo cyhoedd y DU am filiynau o bunnau.
- **Ffugio dwfn:** Fideo o berson lle y caiff ei wyneb neu ei gorff ei newid yn ddigidol fel ei bod yn ymddangos mai rhywun arall ydyw. Caiff hyn ei ddefnyddio at ddibenion maleisus neu i ledaenu gwybodaeth anwir fel arfer.
- **Galwadau diwahoddiad:** Galwadau ffôn na ofynnir amdanynt er mwyn gwerthu cynnyrch – maent weithiau'n gyfreithlon ac weithiau'n anghyfreithlon (megis ffonio rhywun sydd wedi'i gofrestru â'r Gwasanaeth Dewis Rhifau Ffôn neu ffonio i werthu rhai cynhyrchion penodol fel pensiynau neu wasanaethau hawliadau anafiadau.
- **Gofyniad Plismona Strategol:** Safbwynt yr Ysgrifennydd Cartref ar y bygythiadau cenedlaethol presennol, a'r galluoedd plismona cenedlaethol y bydd eu hangen i ymateb iddynt.
- **Gorchmynion Atal Troseddau Difrifol:** Gorchmynion sifil a roddir gan lysoedd er mwyn atal unigolion sy'n rhan o droseddau difrifol rhag cymryd rhan mewn gweithgareddau penodol neu gael gafael ar adnoddau penodol.
- **Grwpiau Troseddau Cyfundrefnol:** Grŵp sy'n cynnwys tri neu fwy o bobl, sydd i gyd yn gweithredu ar y cyd at ddiben cyflawni gweithgareddau troseddol.
- **Gwasanaethau negeseuon testun torfol:** Gwasanaethau sy'n hwyluso negeseuon SMS rhwng busnesau a chwsmeriaid ac sydd fel arfer yn defnyddio rhwydweithiau telathrebu mewn ffordd wahanol i negeseuon rhwng unigolion.
- **Gwyngalchu arian:** Cuddio tarddiad arian a gafwyd drwy ddulliau anghyfreithlon.
- **Heddlu Dinas Llundain (CoLP):** Heddlu tiriogaethol o fewn Dinas Llundain. Yr Heddlu Arweiniol Cenedlaethol ar gyfer twyll ac arweinydd Cyngor Cenedlaethol Penaethiaid yr Heddlu ar gyfer troseddau economaidd a seiberdroseddau.

- **Meddalwedd:** Y rhaglenni a gwybodaeth weithredu arall a ddefnyddir gan gyfrifiadur.
- **Modelau iaith mawr Deallusrwydd Artiffisial:** Llwyfannau technegol cymhleth, fel ChatGPT a Google Bard, sy'n defnyddio rhwydweithiau dysgu a niwral dwfn a gaiff hyfforddiant ar lawer iawn o destun er mwyn cynhyrchu testun neu gyflawni tasgau eraill.
- **Mulod arian:** Mae mulod yn caniatáu i droseddwyr ddefnyddio eu cyfrifon banc i storio arian anghyfreithlon cyn ei drosglwyddo i gyfrifon eraill, gan helpu i guddio'r arian brwnt.
- **Neges destun ffug ynglŷn â danfon nwyddau:** Negeseuon testun a anfonir gan dwyllwyr yn honni eu bod yn eu hanfon o gwmni danfon nwyddau. Maent yn twyllo dioddefwyr i glicio dolenni neu roi eu manylion personol er mwyn dwyn gwybodaeth bersonol neu heintio dyfeisiau â meddalwedd faleisus.
- **Ofcom:** Rheoleiddiwr cyfathrebu annibynnol y DU, sy'n rheoleiddio'r diwydiannau telathrebu, post a darlledu, ac – yn dilyn y Bil Diogelwch Ar-lein arfaethedig – bydd yn rheoleiddio cwmnïau ar-lein sy'n hwyluso gwasanaethau rhwng defnyddwyr a gwasanaethau chwilio.
- **Pum Llygad:** Cynghrair cudd-wybodaeth sy'n cynnwys Awstralia, Canada, Seland Newydd, y Deyrnas Unedig a'r Unol Daleithiau.
- **Rheoleiddiwr Systemau Talu (PSR):** Rheoleiddiwr statudol ar gyfer yr wyth system dalu ddynodedig a'u cyfranogwyr.
- **Safonau Masnach Cenedlaethol (NTS):** Yr NTS sy'n gyfrifol am gasglu cudd-wybodaeth o bob rhan o'r wlad er mwyn mynd i'r afael â masnachwyr twyllodrus a nifer o flaenoriaethau gan gynnwys sgamiau ar y rhyngrwyd.
- **Sector technoleg:** Cwmnïau mawr sy'n delio â defnyddwyr, megis Meta, Alphabet a Microsoft, ac sy'n defnyddio llwyfannau ar-lein i hwyluso llawer o ryngweithio rhwng defnyddwyr.
- **Sgamiau prynu:** Sgamiau sy'n cynnig gwerthu cynhyrchion nad ydynt yn bodoli.
- **Swyddfa Gartref (y DU):** Adran weinidogol sy'n gyfrifol am fewnfudo, diogelwch a chyfraith a threfn yw Swyddfa Gartref y DU. Fel rhan o'i chyfrifoldeb am gyfraith a threfn, mae'n gyfrifol am fynd i'r afael â thwyll yn erbyn unigolion a busnesau, a hynny yng Nghymru a Lloegr yn bennaf (gan nodi bod y mater hwn wedi'i ddatganoli yn yr Alban a Gogledd Iwerddon).
- **Swyddfa Twyll Difrifol (SFO):** Mae'n gyfrifol am ymchwilio i achosion difrifol neu gymhleth o dwyll a llygredigaeth yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon, ac erlyn y troseddwyr.
- **Teilwra cymdeithasol:** Defnyddio twyll i ddylanwadu ar unigolion er mwyn iddynt ddatgelu gwybodaeth gyfrinachol neu bersonol y gellir ei defnyddio at ddibenion twyllodrus.
- **Tor diogelwch data:** Rhyddhau gwybodaeth ddiogel neu breifat/cyfrinachol i amgylchedd nad ymddiriedir ynddo.
- **Trefn Ddatgelu:** Y gofyniad i erlynwyr ddatgelu i'r amddiffyniad holl ddeunydd sy'n gwanhau achos yr erlyniad neu'n cryfhau achos y diffynnydd.

- **Trysorlys Ei Fawrhydi (Trysorlys EF):** Yr adran weinidogol sy'n gyfrifol am wasanaethau ariannol ac am y Rheoliadau Gwyngalchu Arian a Gwasanaethau Talu.
- **Twyll anawdurdodedig:** Math o dwyll lle na fydd y dioddefwr yn awdurdodi trosglwyddo arian o'i gyfrif, er enghraifft pan fydd rhywun yn ei ddynwared wrth gysylltu â'i fanc.
- **Twyll awdurdodedig neu dwyll Taliad Gwthio Awdurdodedig (APP):** Math o dwyll lle y dylanwedir ar ddioddefwyr neu lle y cânt eu twyllo i awdurdodi taliadau i dwyllwyr, a hynny'n aml drwy deilwra cymdeithasol.
- **Twyll buddsoddi:** Mae fel arfer yn golygu troseddwyr yn cysylltu â phobl yn annisgwyl a'u hargyhoeddi i fuddsoddi mewn cynlluniau neu gynhyrchion sy'n ddi-werth neu nad ydynt yn bodoli. Pan fydd y troseddwyr wedi cael eu talu, byddant yn torri pob cyswllt â'r dioddefwr.
- **Twyll hunaniaeth:** Defnyddio gwybodaeth bersonol, wedi'i dwyn drwy weithgarwch troseddol, i gael gafael ar nwyddau neu wasanaethau drwy dwyll.
- **Twyll rhamant:** Mae'n cynnwys twyllo dioddefwyr i anfon arian at droseddwyr sy'n honni eu bod mewn perthynas go iawn â nhw.
- **Unedau Troseddau Cyfundrefnol Rhanbarthol (ROCUs):** Ceir 10 ROCU ledled Cymru a Lloegr, ac maent yn rhan o'r rhwydwaith plismona. Mae ganddynt alluoedd plismona arbenigol sy'n canolbwyntio ar fynd i'r afael â throseddau cyfundrefnol.
- **Uned Ofal Genedlaethol i Ddioddefwyr Troseddau Economaidd (NECVCU):** Tîm o eiriolwyr arbenigol sy'n gweithio o fewn Heddlu Dinas Llundain ac sy'n helpu pobl agored i niwed sydd wedi dioddef twyll a seiberdroseddu, gyda'r nod o'u diogelu a lleihau'r posibilrwydd y byddant yn dioddef eto.

E02904361

978-1-5286-4086-2